



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 26 Ionawr 2010
Tuesday, 26 January 2010

**Cynnwys
Contents**

- | | |
|----|--|
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister |
| 31 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement |
| 44 | Datganiad am Ddigartrefedd
Statement on Homelessness |
| 59 | Datganiad Deddfwriaethol am y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer
Gofalwyr (Cymru)
Legislative Statement on the Proposed Carers Strategies (Wales) Measure |
| 77 | Adroddiad Blynnyddol Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru
The Care and Social Services Inspectorate Wales Chief Inspector's Annual Report |
| 98 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn ddi yn y Siambr.
Yn ogystal, yn y golofn dde cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, in the right-hand column a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the First Minister.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Value for Money

Q1 Jonathan Morgan: What guidance does the Welsh Assembly Government issue to public bodies in order for them to demonstrate value for money? OAQ(3)2579(FM)

The First Minister (Carwyn Jones): A variety of guidance has been issued to assist public bodies in achieving value for money, for example, on asset management, procurement, managing and evaluating large-scale capital projects, managing risk, and on general administration.

Jonathan Morgan: I am grateful for the answer. As the First Minister will be aware, in recent months, the Auditor General for Wales has commented in a series of documents on the need for public bodies to demonstrate greater value for money, particularly as we look at the years ahead. In the Cardiff Local Health Board annual audit letter for 2008-09, the auditor general was quite specific in pointing to the greater requirement for value for money, particularly in medical staff. The auditor general says in his conclusion that the health community needs to develop a stronger joint approach to further improve value for money from the substantially increased investment in medical staffing. If you consider that, over the past 10 years, the overwhelming bulk of the increase in resources has gone towards staffing and the increased costs of medical practitioners, there is a clear need to try to get more from the money that we spend. Has the First Minister considered what new guidance might be issued to the new local health boards in relation to new models of working to ensure that we get value for money?

Gwerth am Arian

C1 Jonathan Morgan: Pa arweiniad fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gyhoeddi i gyrrff cyhoeddus er mwyn iddynt ddangos gwerth am arian? OAQ(3)2579(FM)

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Mae gwahanol fathau o ganllawiau wedi cael eu cyhoeddi er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i sicrhau gwerth am arian, er enghraifft, o ran rheoli asedau, caffael, rheoli a gwerthuso prosiectau cyfalafr mawr, rheoli risg ac o ran gweinyddu cyffredinol.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn ddiolchgar am yr ateb. Fel y gŵyr y Prif Weinidog, yn ystod y misoedd diwethaf, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyflwyno sylwadau mewn cyfres o ddogfennau ynghylch yr angen i gyrrff cyhoeddus ddangos gwerth gwell am arian, yn enwedig wrth inni edrych i'r blynnyddoedd nesaf. Yn llythyr archwiliad blynnyddol Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd ar gyfer 2008-09, yr oedd yr archwilydd cyffredinol yn eithaf penodol wrth dynnu sylw at y gofyniad i sicrhau mwy o werth am arian, yn enwedig o ran staff meddygol. Dywed yr archwilydd cyffredinol yn ei gasgliad fod ar y gymuned iechyd angen datblygu dull gweithredu cryfach ar y cyd i wella rhagor ar y gwerth am arian a geir o'r buddsoddiad sydd wedi codi'n sylweddol mewn staffio meddygol. Os ystyriwch fod y rhan fwyaf o ddigon o'r cynnydd mewn adnoddau, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, wedi mynd at staffio a chostau uwch ymarferwyr meddygol, ceir angen amlwg i geisio cael mwy o'r arian yr ydym yn ei wario. A yw'r Prif Weinidog wedi ystyried pa ganllawiau newydd y gellid eu rhoi i'r byrddau iechyd lleol newydd yng nghyswllt modelau gweithio newydd er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian?

The First Minister: Clearly, we encourage collaboration across the board, in all parts of the public sector. In terms of value for money, all Assembly Government sponsored bodies and, indeed, health bodies, have their own designated accounting officers. In the case of AGSBs, the management statement and financial memorandum set out the terms and conditions attached to any grant provided. We take note of what is said in any auditing process, and we will seek to further ensure that collaboration is pursued more quickly in the public sector as we move forward.

Brian Gibbons: Would the First Minister agree that the seven fire service volunteers from mid and west Wales who have been part of the UK international search and rescue team in Haiti deserve our support and congratulations? Would he also agree that they have been tremendous ambassadors for the Welsh fire service and for Wales, and that they represent clear value for money from the support that we provide our fire services?

The First Minister: I join you in offering the gratitude of the Assembly to those who went to Haiti to help with the exceptionally difficult situation there. We have seen almost an entire country destroyed, and all forms of authority and government have disappeared. The fact that there are trained people from Wales who are able to do their bit to rescue people, to stabilise the situation and to help with the work being taken forward is something that we should all be grateful for. I hope that I speak on behalf of the entire Assembly when I say that the work done there was not only wonderful for the people of Haiti, but work that we can all be proud of.

Chris Franks: The latest figures show that almost 140,000 pensioners and disabled people in the Vale of Glamorgan, Rhondda Cynon Taf and Cardiff benefit from the free bus scheme. What measures are you taking to ensure that none of my constituents are missing the opportunity offered by this fantastic scheme, which has dramatically improved mobility and welfare? What

Y Prif Weinidog: Yn amlwg, yr ydym yn annog cydweithredu yn gyffredinol, ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. O ran gwerth am arian, mae gan yr holl gyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad ac, yn wir, cyrff iechyd, eu swyddogion cyfrifyddu dynodedig eu hunain. Yn achos cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'r datganiad rheoli a'r memorandwm ariannol yn amlinellu'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth unrhyw grant a roddir. Yr ydym yn ystyried yr hyn a ddywedir mewn unrhyw broses archwilio, a byddwn yn ceisio sicrhau ar ben hynny y bwrir ymlaen â chydweithredu yn gynt yn y sector cyhoeddus wrth inni symud ymlaen.

Brian Gibbons: A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod y saith gwirfoddolwr o'r gwasanaeth Tân yng nghanolbarth a gorllewin Cymru a fu'n rhan o dîm chwilio ac achub rhyngwladol y DU yn Haiti, yn haeddu ein cefnogaeth a'n llonyfarchiadau? A fyddai hefyd yn cytuno eu bod wedi bod yn llysgenhadon gwych dros wasanaeth Tân Cymru a thros Gymru, a'u bod yn amlwg yn werth am arian yn sgîl y gefnogaeth yr ydym yn ei rhoi i'n gwasanaethau Tân?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ymuno â chi i gynnig diolch y Cynulliad i'r rhai a aeth i Haiti i helpu gyda'r sefyllfa eithriadol o anodd yno. Yr ydym wedi gweld gwlad gyfan bron yn cael ei dinistrio, ac mae pob ffurf ar awdurdod a llywodraeth wedi diflannu. Dylai pob un ohonom fod yn falch o'r ffaith bod pobl wedi'i hyfforddi o Gymru sy'n gallu chwarae eu rhan i achub pobl, i sefydlogi'r sefyllfa ac i helpu gyda'r gwaith sy'n mynd rhagddo. Gobeithio fy mod yn siarad ar ran y Cynulliad yn gyfan gwbl pan ddywedaf fod y gwaith a wnaethpwyd yno yn wych i bobl Haiti a'i fod hefyd yn waith y gall pob un ohonom ymfalchïo ynddo.

Chris Franks: Dengys y ffigurau diweddaraf fod bron 140,000 o bensiynwyr a phobl anabl ym Mro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd yn elwa o'r cynllun teithio am ddim ar fysiau. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau nad oes dim un o'm hetholwyr yn colli'r cyfle a gynigir gan y cynllun gwych hwn, sydd wedi gwella symudedd a lles yn aruthrol? Pa drafodaethau

discussions has your Government had with Cardiff Council to ensure that our capital becomes a sustainable city? Would you agree that it is important for the public to know that free buses are available so that they can move around the city centre with ease, and can you assure the public that Conservative proposals to abolish the current concessionary bus pass scheme will not have the support of this Government?

The First Minister: I could simply say ‘yes’ in response to that. We are not looking to reduce eligibility for the free bus pass scheme. We have recently conducted a review, but the purpose of that review was to ensure that bus operators were no better or worse off as a result of their participation in the concessionary fares scheme. We are looking at ways of extending entitlement in the future. It is certainly no part of this Government’s view that we should reduce eligibility for free bus passes.

Alun Davies: First Minister, do you agree that it is important in difficult economic times to ensure that the Assembly Government’s focus remains on the delivery of front-line services? The latest waiting times figures that I have seen show that, thanks to investment of more than £300 million and the hard work of national health service staff, more than nine in 10 patients are now treated within 26 weeks. Does this not demonstrate a clear focus on the delivery of services in difficult economic times? That draws a very stark contrast between the commitment of this Government and the lack of promises from the opposition.

The First Minister: I could not agree with you more, Alun. You only have to look at the results to see how much the health service has improved since 1999 under a Labour Government and then the One Wales Government. We have demonstrated our commitment to ensuring that the people of Wales get a decent health service and we have looked to build our way out of the situation bequeathed by the Tories in 1997, when we inherited a devastated health

y mae eich Llywodraeth wedi’u cael gyda Chyngor Caerdydd i sicrhau bod ein dinas yn dod yn ddinas gynaliadwy? A fydddech yn cytuno ei bod yn bwysig i’r cyhoedd wybod bod modd iddynt deithio am ddim ar fysiau er mwyn iddynt allu symud o amgylch canol y ddinas yn hwylus, ac a allwch sicrhau’r cyhoedd na fydd y Llywodraeth hon yn cefnogi cynigion y Ceidwadwyr i roi’r gorau i’r cynllun presennol sy’n rhoi cardiau teithio rhatach ar gyfer defnyddio bysiau?

Y Prif Weinidog: Gallwn ddweud ‘galla’ yn ateb a bodloni ar hynny. Nid ydym yn bwriadu lleihau’r niferoedd sy’n gymwys ar gyfer y cynllun tocynnau teithio rhatach ar fysiau. Yr ydym wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar, ond diben yr adolygiad hwnnw oedd sicrhau nad oedd gweithredwyr bysiau ar eu colled nac ar eu hennill o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun tocynnau teithio rhatach. Yr ydym yn edrych ar ffyrdd o ymestyn yr hawl yn y dyfodol. Yn sicr nid yw’r Llywodraeth hon o’r farn y dylem leihau’r niferoedd sy’n gymwys i gael cardiau teithio rhatach.

Alun Davies: Brif Weinidog, yn ystod cyfnod economaidd anodd a ydych yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ganolbwytio ar gyflenwi gwasanaethau’r rheng flaen? Mae’r ffigurau diweddaraf ynglŷn ag amseroedd aros sydd gennyl yn dangos, diolch i dros £300 miliwn o fuddsoddiad a gwaith caled staff y gwasanaeth iechyd gwladol, fod dros naw claf o bob 10 bellach yn cael ei drin cyn pen 26 wythnos. Onid yw hyn yn dangos ffocws clir ar gyflenwi gwasanaethau mewn cyfnod economaidd anodd? Mae hynny’n dangos bod ymrwymiad y Llywodraeth hon yn holol wahanol i’r diffyg addewidion o du’r wrthblaid.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno â chi i’r carn, Alun. Y cyfan y mae’n rhaid ichi ei wneud yw edrych ar y canlyniadau i weld cymaint y mae’r gwasanaeth iechyd wedi gwella ers 1999 o dan Lywodraeth Lafur ac wedyn Llywodraeth Cymru’n Un. Yr ydym wedi dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod pobl Cymru yn cael gwasanaeth iechyd teilwng ac yr ydym wedi rhoi ein bryd ar gefnu’n raddol ar y sefyllfa a adawyd gan y Torfaid yn 1997, pan fu inni etifeddu

service.

Prison Overcrowding

Q2 Eleanor Burnham: What discussions has the First Minister had on prison overcrowding in Wales? OAQ(3)2570(FM)

The First Minister: In recent years, social justice Ministers have been in regular contact with the Ministry of Justice about the need for additional prison spaces in Wales. There is no doubt that there is a need, at the least, for an extra prison in north Wales.

Eleanor Burnham: Until we have a criminal justice system that is more fit for purpose, in which certain offenders are dealt with more constructively, we are going to be in a situation, unfortunately, of having more people in custody than similar countries across Europe have. That is very distressing. My understanding—I do not know whether or not you will comment on this—is that the Conservatives are floating the idea of using a prison ship or ships. [Laughter.] Good—I see that you are all awake. That would be an alternative to land-based prisons. In north Wales, we are, apparently, in line for a prison. Would you be involved in the discussion about the possibility of a prison for north Wales in the next few months, or will we have to wait until the next Government for that, following the imminent general election?

The First Minister: I assure you, Eleanor, that I will not be discussing aspects of Conservative policy with the Conservative Party. As far as the issue of a prison for north Wales is concerned, it cannot be acceptable, in the long term, that families from as far west as Holyhead have to travel to Walton, which is the nearest male prison, to visit those in custody. It is even further for female prisoners, because we do not have a women's prison in Wales. Therefore, the case for a prison in north Wales is well made, and we will be encouraging our colleagues in the UK Government to ensure that a site is identified

gwasanaeth iechyd a oedd wedi'i niweidio'n fawr.

Gorlenwi Carchardai

C2 Eleanor Burnham: Pa drafodaethau mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch gorlenwi carchardai yng Nghymru? OAQ(3)2570(FM)

Y Prif Weinidog: Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae Gweinidogion cyflawnder cymdeithasol wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Weinyddiaeth Gyflawnder ynghylch yr angen am ragor o leoedd mewn carchardai yng Nghymru. Nid oes dim amheuaeth nad oes angen carchar ychwanegol yng ngogledd Cymru o leiaf.

Eleanor Burnham: Nes inni gael system cyflawnder troseddol sy'n fwy addas i'r diben, a fydd yn delio â rhai troseddwyr mewn ffordd fwy adeiladol, byddwn mewn sefyllfa, yn anffodus, o fod â mwy o bobl mewn caethiwed na gwledydd tebyg ledled Ewrop. Mae hynny'n peri cryn ofid. Caf ar ddeall—nid wyf yn gwybod a fyddwch yn rhoi sylw ar hyn ai peidio—fod y Ceidwadwyr yn ystyried y syniad o ddefnyddio llong neu longau carchar. [Chwerthin.] Da iawn—gwelaf eich bod i gyd ar ddihun. Byddai hynny'n ddewis yn hytrach na charchardai ar y tir. Yng ngogledd Cymru, yr ydym, yn ôl y sôn, i fod i gael carchar. A fyddch yn rhan o'r drafodaeth ynghylch y posibilrwydd y daw carchar ar gyfer y gogledd yn y misoedd nesaf, ynteu a fydd yn rhaid inni aros nes daw'r Llywodraeth nesaf i gael hynny, yn dilyn yr etholiad cyffredinol sydd ar ein gwarthaf?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn eich sicrhau, Eleanor, na fyddaf yn trafod agweddu ar bolisi'r Ceidwadwyr gyda'r Blaid Geidwadol. Yng nghyswllt carchar ar gyfer y gogledd, ni all fod yn dderbynol, yn y tymor hir, fod teuluoedd cyn belled i'r gorllewin â Chaergybi yn gorfod teithio i Walton, sef y carchar agosaf i ddynion ar hyn o bryd, er mwyn ymweld â'r rhai sydd yn y ddalfa. Mae'n bellach byth ar gyfer carcharorion sy'n fenywod, oherwydd nid oes gennym garchar i fenywod yng Nghymru. Felly, ceir dadl gref dros gael carchar yn y gogledd, a byddwn yn annog ein cyd-Weinidogion yn

as quickly as possible.

Janet Ryder: First Minister, as has been said, it is the number of people in prison that can cause an issue, and there are different ways of looking at that. It is said that roughly 11 per cent of the prison population is made up of former servicemen, and it has been put to me by former servicemen and those who work with them that while the Ministry of Defence spends millions of pounds on the training of soldiers, so that they know what they are doing in their job, it takes less than 30 seconds to sign a piece of paper to decommission them. Men who sometimes have spent a long time in the armed forces are left without any support structures. Will you, in your discussions with Westminster, find out what the Ministry of Defence intends to do to support those soldiers, introducing a decommissioning role, so that, when they leave the armed forces, they have been counselled and have received support, and are not just left on their own?

The First Minister: In the last week or so, I have met representatives of the Royal British Legion and asked for their opinion of my idea that we should bring together a group of organisations in Wales to create a veterans' package, for want of a better term, to identify what is needed and how we might put in place a whole package to help people when they leave the armed forces. The Royal British Legion was receptive to that idea and we are now working to bring forward that group so that we can put such a package together.

1.40 p.m.

Nick Ramsay: I was going to agree with the first part of Eleanor Burnham's question, but I now think that it is too dangerous to do so, so I shall distance myself totally from it. The fact that led to such a bizarre question being posed is that we do not have enough prison places in Wales, or, indeed, in the UK, at the moment. If you look at the statistics, First Minister, you will see that 46 women with a

Llywodraeth y DU i sicrhau y deuir o hyd i safle cyn gynted ag sy'n bosibl.

Janet Ryder: Brif Weinidog, fel y dywedwyd, nifer y bobl mewn carchardai sy'n gallu achosi problem, ac mae ffyrdd gwahanol o edrych ar hynny. Dywedd bod tuag 11 y cant o boblogaeth carchardai yn gyn-filwyr, ac mae cyn-filwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw wedi dweud wrthyf, er bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwario miliynau o bunnau ar hyfforddi milwyr, er mwyn iddynt wybod beth y maent yn ei wneud yn eu swydd, ei bod yn cymryd llai na 30 eiliad i lofnodi darn o bapur i'w datgomisiynu. Mae dynion sydd weithiau wedi treulio cyfnod hir yn y lluoedd arfog yn cael eu gadael heb ddim strwythurau cefnogi. A wnewch, yn eich trafodaethau gyda San Steffan, ganfod beth y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu ei wneud i gefnogi'r milwyr hynny, gan gyflwyno swyddogaeth datgomisiynu, er mwyn sicrhau pan fyddant yn gadael y lluoedd arfog, eu bod wedi cael eu cwnsela a'u bod wedi cael cefnogaeth, ac nad ydynt yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain?

Y Prif Weinidog: Yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf, yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r Lleng Brydeinig Frenhinol ac wedi gofyn am eu barn yngylch fy syniad y dylem ddod â grŵp o fudiadau yng Nghymru ynghyd i greu pecyn i gyn-filwyr, nid oes gennylf derm gwell, er mwyn gweld beth y mae ei angen a sut y gallem roi pecyn cyfan ar waith er mwyn helpu pobl pan fyddant yn gadael y lluoedd arfog. Yr oedd y Lleng Brydeinig Frenhinol yn barod i dderbyn y syniad hwnnw ac yr ydym yn awr yn gweithio i gyflwyno'r grŵp hwnnw er mwyn inni allu rhoi pecyn o'r fath ynghyd.

Nick Ramsay: Yr oeddwn am gytuno â rhan gyntaf cwestiwn Eleanor Burnham, ond yr wyf bellach yn meddwl ei bod yn rhy beryglus gwneud hynny, felly yr wyf am ymbellhau oddi wrtho'n llwyr. Y ffaith a arweiniodd at ofyn cwestiwn mor od oedd nad oes gennym ddigon o leoedd mewn carchardai yng Nghymru, nac, yn wir, yn y DU, ar hyn o bryd. Os edrychwch ar yr

home address in Wales have been held in English prisons for four years or more. Welsh prisoners are being held in prisons as far afield as Acklington in Northumberland and Norwich. Eight hundred and seventy one men with a home address in Wales have been held in English prisons for four years or more. Clearly, a major problem has developed in this country in relation to the prison population and the lack of prison spaces over the last 10 years, and I am pleased that you and your Government are raising this issue with colleagues in Westminster. Will you do all that you can to ensure that, over the coming months, adequate space is provided and planned for in our prisons, as this is a serious problem? Apart from the situation that sometimes arises where you would not want some Welsh criminals held in Welsh prisons for obvious legal reasons, will you do all that you can to persuade your colleagues in Westminster that, sometimes, prison in Wales is best?

ystadegau, Brif Weinidog, gwelwch fod 46 o fenywod a chanddynt gyfeiriad cartref yng Nghymru wedi cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr ers pedair blynedd neu fwy. Mae carcharorion o Gymru yn cael eu cadw mewn carchardai cyn belled ag Acklington yn Northumberland a Norwich. Mae 871 o ddynion a chanddynt gyfeiriad cartref yng Nghymru wedi cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr ers pedair blynedd neu fwy. Yn amlwg mae problem fawr wedi datblygu yn y wlad hon yng nghyswllt y boblogaeth mewn carchardai a diffyg lleoedd mewn carchardai dros y 10 mlynedd diwethaf, ac yr wyf yn falch eich bod chi a'ch Llywodraeth yn codi'r mater hwn gyda chyd-Weinidogion yn San Steffan. A wnewch bopeth a allwch, dros y misoedd nesaf, i sicrhau bod digon o leoedd yn cael eu darparu a'u cynllunio yn ein carchardai, gan fod hon yn broblem ddifrifol? Heblaw'r sefyllfa sy'n codi ambell waith pan na fyddai arnoch eisiau cadw rhai troseddwyr o Gymru mewn carchardai yng Nghymru am resymau cyfreithiol amlwg, a wnewch bopeth a allwch i berswadio eich cyd-Weinidogion yn San Steffan mai carchar yng Nghymru yw'r dewis gorau weithiau?

The First Minister: There are plans to expand HM Parc prison in my constituency by 470 places this year. Parc prison is both an adult male prison and a young offenders' institution. That will help to accommodate those in custody closer to their homes, which has to be welcomed. We have to accept that we do not have a self-contained prison estate in Wales: we do not have high-security prisons or a women's prison. That will take longer to resolve, but there will be more spaces available at Parc prison at least over the course of the next year.

Y Prif Weinidog: Ceir cynlluniau i ddarparu 470 o leoedd ychwanegol yng ngharchar EM y Parc yn fy etholaeth eleni. Mae carchar y Parc yn garchar ar gyfer dynion ac yn sefydliad ar gyfer troseddwyr ifanc. Bydd hynny'n helpu i roi lle i'r rhai sydd yn y ddalfa yn nes at eu cartrefi, sydd yn rhywbeth y mae'n rhaid ei groesawu. Rhaid inni dderbyn nad oes gennym ystâd carchardai hunangynhaliol yng Nghymru: nid oes gennym garchardai diogel iawn na charchar i fenywod. Bydd hynny'n cymryd mwy o amser i'w ddatrys ond bydd rhagor o leoedd ar gael yng ngharchar y Parc o leiaf dros y flwyddyn nesaf.

Blaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru

C3 Gareth Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gogledd Cymru yn ystod y tymor Cynulliad hwn? OAQ(3)2547(FM)

Y Prif Weinidog: Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gogledd Cymru yr un fath â'r rhai ar gyfer

Priorities for North Wales

Q3 Gareth Jones: Will the First Minister make a statement on his priorities for north Wales during this Assembly term? OAQ(3)2547(FM)

The First Minister: The Welsh Assembly Government's priorities in north Wales are the same as the priorities for the rest of

gweddill Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym wedi buddsoddi £36 miliwn yn y ganolfan gelfyddydau ac arloesi arfaethedig ym Mhrifysgol Bangor, wedi dyfarnu £1.2 miliwn mewn grantiau CyMAL, a £400,000 i brynu dwy siop un stop ar gyfer cam-drin domestig.

Gareth Jones: Daeth ymchwiliad Holtham i'r casgliad y byddwn ni yng Nghymru ar ein colled yn ariannol o rhwng £5.3 biliwn ac £8.5 biliwn dros y 10 mlynedd nesaf os na ddiwygir fformiwla ddiffygol Barnett. Yng Nghymru, gallai peidio â newid y fformiwla hon olygu colled o hyd at £3,000 y pen o'r boblogaeth neu, i'w roi mewn ffordd arall, golled o rhwng £19 miliwn a £33 miliwn y flwyddyn o ran gwariant Llywodraeth Cymru yn sir Conwy—arian a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr i ansawdd bywyd yno. Gan dderbyn bod colli arian cyhoeddus yn fwy difrifol byth mewn cyfnod o doriadau cyffredinol yn sgil y dirwasgiad, a roddwch flaenoriaeth i'r sefyllfa druenus hon yn eich trafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan?

Y Prif Weinidog: Mae fy nghymydog, Jane Hutt, wedi cwrdd â Liam Byrne, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, yn ddiweddar, sydd wedi cadarnhau bod y gwaith ar adolygu cydgyfeirio eisoes wedi dechrau. Bydd asesiad o wariant y pen yn cael ei wneud yn ystod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant nesaf, ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo yn awr. Felly, mae gwaith wedi dechrau i ddelio â'r hyn yr ydym wastad wedi ei ddisgrifio fel 'gwasgfa Barnett'.

Sandy Mewies: First Minister, I welcome the start of building work on a £6 million training centre that will provide vital skills for the energy industry for young people in north-west Wales, which will have an all-Wales impact, namely the energy and fabrication centre at Coleg Menai in Llangefni. That was your first official engagement in north Wales. The Welsh Assembly Government is meeting two thirds of the cost of the centre. Do you agree that it is crucial that we invest in skills development in important sectors such as the energy sector, as those skills will be essential for all of us in future?

Wales. Over the last year, we have invested £36 million in the proposed arts and innovation centre at Bangor University, awarded £1.2 million in CyMAL grants, and awarded £400,000 for the purchase of two domestic abuse one-stop shops.

Gareth Jones: The Holtham inquiry came to the conclusion that we in Wales will lose out financially by between £5.3 billion and £8.5 billion over the next 10 years unless the deficient Barnett formula is revised. In Wales, failure to change the formula could mean a loss of £3,000 per head of population or, to put it another way, a loss of between £19 million and £33 million a year in Welsh Government expenditure in Conwy—money that would make a great difference to the quality of life there. While accepting that losing public expenditure is more serious than ever in a period of general cuts following the recession, would you give this appalling situation priority in your discussions with the Westminster Government?

The First Minister: My neighbour, Jane Hutt, has met Liam Byrne, the Chief Secretary to the Treasury, recently, who has confirmed that work on reviewing convergence has already begun. An assessment of expenditure per head will be part of the next comprehensive spending review, and that work is under way. Therefore, work has already begun to deal with what we have always described as 'the Barnett squeeze'.

Sandy Mewies: Brif Weinidog, yr wyf yn croesawu dechrau'r gwaith adeiladu ar ganolfan hyfforddi gwerth £6 miliwn a fydd yn darparu sgiliau hanfodol ar gyfer y diwydiant ynni i bobl ifanc yn y gogledd-orllewin, a fydd yn effeithio ar Gymru gyfan, sef y ganolfan ynni a saernio yng Ngholeg Menai yn Llangefni. Dyna oedd y tro cyntaf i chi ymweld yn swyddogol â'r gogledd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu am ddwy ran o dair o gostau'r ganolfan. A ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol inni fuddsoddi mewn datblygu sgiliau mewn sectorau pwysig megis y sector ynni, gan y bydd y sgiliau hynny'n hanfodol i bob un ohonom

yn y dyfodol?

The First Minister: It was my pleasure to visit the centre a week last Thursday. What was very clear is that the centre is providing skills that had been assessed as being required in the area over the course of the next decade. There is an important meeting between the skills required and the skills provided. That all goes towards developing the idea of my Westminster colleague, Albert Owen, of an ‘ynys ynni’ on the Isle of Anglesey. It is important that where skills are identified as needed in the energy sector, they are provided as locally as possible.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): Since Labour came to power in 1997, gross value added per capita in Wales has fallen in every subsequent year bar one, when it went up by 0.2 per cent—that was in 2005. Those are official Government figures. Given that, do you not think it important that we bring forward the manufacturing strategy and have a document that indicates what that strategy is so that we can protect and enhance our manufacturing? If we look at north Wales in particular, Anglesey is worst off in the whole of the UK, with 51.1 per cent of the average UK GVA per capita. The largest fall also took place in north Wales. Flintshire and Wrexham have declined over that period from 109.1 per cent—that is, exceeding the national average—to 86.5 per cent. Given the seriousness of that situation, when can we expect the manufacturing strategy?

The First Minister: We take manufacturing seriously. It has been disappointing, of course, that we have seen the announcement of job losses at Bosch and Welsh Country Foods Ltd. It is correct to say that GDP per capita in the UK has increased by 0.1 per cent—that is not spectacular, but better than it has been for the past two years. Let us contrast that with what happened in the Tory years. Then, interest rates were so high that everyone was clobbered. That is not the case now. We also know full well that had the Conservatives been in power during the last two years they would have sucked so much money out of public finances that we would

Y Prif Weinidog: Yr oedd yn bleser cael ymweld â'r ganolfan wythnos i ddydd Iau diwethaf. Yr hyn a oedd yn glir iawn yw bod y ganolfan yn darparu sgiliau yr aseswyd y bydd galw amdanynt yn yr ardal dros y degawd nesaf. Ceir cydweddiad pwysig rhwng y sgiliau y mae eu hangen a'r sgiliau a ddarperir. Mae hynny i gyd yn cyfrannu at ddatblygu syniad Albert Owen, fy nghyd-Aelod yn San Steffan, ynghylch ‘ynys ynni’ yn Ynys Môn. Mae'n bwysig, pan ganfyddir bod angen sgiliau yn y sector ynni, iddynt gael eu darparu mor lleol ag sy'n bosibl.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Ers i Lafur ddod i rym yn 1997, mae'r gwerth ychwanegol crynswth y pen yng Nghymru wedi disgyn ym mhob blwyddyn wedi hynny ac eithrio un, pan gododd 0.2 y cant—yr oedd hynny yn 2005. Ffigurau swyddogol y Llywodraeth yw'r rheini. O ystyried hynny, onid ydych yn meddwl ei bod yn bwysig inni gyflwyno'r strategaeth gweithgynhyrchu a bod gennym ddogfen sy'n dynodi beth yw'r strategaeth honno er mwyn inni allu diogelu a gwella ein gweithgynhyrchu? Os edrychwn ar y gogledd yn benodol, gan Ynys Môn y mae'r ffigur isaf yn y DU i gyd, gyda 51.1 y cant o werth ychwanegol crynswth cyfartalog y DU y pen. Yn y gogledd y cafwyd y gostyngiad mwyaf hefyd. Mae sir y Fflint a Wrecsam wedi disgyn dros y cyfnod hwnnw o 109.1 y cant—hynny yw, yr oedd yn uwch na'r cyfartaedd cenedlaethol—i 86.5 y cant. Gan fod y sefyllfa honno mor ddifrifol, pryd y gallwn ddisgwyl y strategaeth gweithgynhyrchu?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn cymryd gweithgynhyrchu o ddifrif. Mae wedi bod yn siomedig, wrth gwrs, fod cyhoeddiad wedi bod ynglŷn â cholli swyddi yn Bosch ac yn Welsh Country Foods Ltd. Mae'n gywir dweud bod cynyrrch mewnwladol crynswth y pen yn y DU wedi codi 0.1 y cant—nid yw hynny'n aruthrol, ond mae'n well nag y mae wedi bod dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gadewch inni gyferbynnu hynny â'r hyn a ddigwyddodd yn ystod blynnyddoedd y Torriaid. Bryd hynny, yr oedd cyfraddau llog mor uchel nes eu bod wedi llorio pawb. Nid yw hynny'n wir yn awr. Yr ydym hefyd yn gwybod yn iawn petai'r Ceidwadwyr wedi

still be in a deep recession. We take manufacturing seriously but, unfortunately, the Conservatives, when they were in power, disregarded it.

Nick Bourne: That does not bear scrutiny when you look at the cuts that Alistair Darling is proposing. Let us come to some positive action that we have welcomed, and that is the ProAct scheme, which we have supported—David Melding has made that clear on behalf of the party group. Only 11 per cent of the budget for ProAct has been spent, and just under half of the money has been committed. Given that this programme is due to end in March, why have you not spent more and committed more of that budget?

The First Minister: The programme has been made available and it has been a success. You only have to look at what ProAct and ReAct have done for the Welsh economy. There are 11,000 people in jobs in Wales now who would not be in jobs if it were not for those schemes. That shows how effective those schemes have been, and that without active intervention by the Government at a time of recession you end up with far more people unemployed than need be. Those schemes demonstrate our commitment to ensuring that people are kept in employment and to ensuring that people have training opportunities available to them so that they can gain employment elsewhere in the future.

Nick Bourne: Had you been listening, you would know that I was not criticising the scheme, but the underspend and the under commitment of the funding, which you have not addressed. We have supported the scheme, but given that £21 million needs to be spent between now and March, when the scheme ends, we look to you for action on that. Could you also comment on the successor programme? You have indicated that there is to be a successor programme—the First Minister's responsibilities are listed as including 'ProAct and the successor programme'. Since that is due to come in in

bod mewn grym yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf y byddent wedi sugno cymaint o arian allan o gyllid cyhoeddus nes byddem yn dal mewn dirwasgiad dwfn. Yr ydym yn cymryd gweithgynhyrchu o ddifrif ond, yn anffodus, cafodd ei ddiystyr gan y Ceidwadwyr pan oeddent mewn grym.

Nick Bourne: Nid yw hynny'n dal dŵr pan edrychwr ar y toriadau y mae Alistair Darling yn eu cynnig. Gadewch inni ddod at weithredu cadarnhaol yr ydym wedi'i groesawu, a'r cynllun ProAct yw hwnnw, sef rhywbeth yr ydym wedi'i gefnogi—mae David Melding wedi gwneud hynny'n glir ar ran grŵp y blaid. Dim ond 11 y cant o'r gyllideb ar gyfer ProAct sydd wedi cael ei wario, ac ychydig dan hanner yr arian sydd wedi cael ei neilltuo. O gofio bod y rhaglen hon i fod i ddod i ben ym mis Mawrth, pam nad ydych wedi gwario mwy a neilltuo mwy o'r gyllideb honno?

Y Prif Weinidog: Mae'r rhaglen wedi cael ei darparu ac mae wedi bod yn llwyddiant. Y cwbl y mae'n rhaid ichi ei wneud yw edrych ar yr hyn y mae ProAct a ReAct wedi'i wneud i economi Cymru. Mae 11,000 o bobl mewn swyddi yng Nghymru yn awr na fyddent mewn swyddi oni bai am y cynlluniau hynny. Mae hynny'n dangos mor effeithiol fu'r cynlluniau hynny, ac oni fydd y Llywodraeth yn mynd ati i ymyrryd adeg dirwasgiad y bydd llawer mwy o bobl yn ddiwaith nag y mae angen iddynt fod. Mae'r cynlluniau hynny'n dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod pobl yn aros mewn gwaith ac i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi ar gael i bobl er mwyn iddynt allu cael cyflogaeth mewn mannau eraill yn y dyfodol.

Nick Bourne: Petaech wedi bod yn gwrando, byddech yn gwybod nad beirniadu'r cynllun yr oeddwn, ond y tanwariant a'r ffaith nad oes digon o'r cyllid wedi cael ei neilltuo, pwyntiau nad ydych wedi delio â hwy. Yr ydym wedi cefnogi'r cynllun, ond o ystyried bod angen gwario £21 miliwn rhwng hyn a mis Mawrth, pan ddaw'r cynllun i ben, yr ydym yn disgwyl ichi weithredu ar hynny. A allech hefyd roi sylwadau ar y rhaglen a fydd yn ei holynu? Yr ydych wedi dweud y bydd rhaglen i'w holynu—mae 'ProAct a'r rhaglen a fydd yn ei holynu' yn cael ei gynnwys yn y rhestr o gyfrifoldebau'r Prif Weinidog. Gan

March, when can we expect to hear about it?

The First Minister: That is being considered at the moment. In terms of the commitment of money, you need to look at what money has yet to be claimed. We have made money available to ensure that businesses have access to the scheme. The scheme still has some time to run. When we look at it again over the next month or so, we will ensure that an effective scheme is still in place. Let us be honest about this: ProAct and ReAct, as you have said, have been very successful schemes indeed and have shown that the Welsh Assembly Government can make a real difference for the better with regard to training and job opportunities.

Nick Bourne: There are about six weeks to go, and £21 million yet to be committed, never mind spent. You have spent only about 11 per cent of the budget, and have about six weeks before the programme runs out and its successor takes over. Can you give us some guarantee that all that money will be committed within that period?

1.50 p.m.

The First Minister: We will commit as much money as can be committed in that time. It is not possible to guarantee that every penny will be committed, and that goes for any scheme. Hardly any scheme can commit every penny, so it is difficult to say that. However, we have committed to ensuring that the scheme is available and that there is money in it. If your colleagues at Westminster had had their way, we would never have had this sort of scheme in the first place.

Brian Gibbons: Does the First Minister welcome the fact that, contrary to what Nick Bourne has said, gross value added per capita in Wales has grown by well over 50 per cent, that the employment rate is well above the 65 per cent that we inherited from the Tories, and that the National Endowment for Science, Technology and the Arts recently pointed out that Wales has a higher proportion of high-growth manufacturing

ein bod yn disgwyl gweld honno ym mis Mawrth, pryd y gallwn ddisgwyl clywed amdani?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. O ran neilltuo'r arian, mae angen ichi edrych ar yr arian sydd eto i'w hawlio. Yr ydym wedi darparu arian i sicrhau bod busnesau'n gallu cael mynediad at y cynllun. Mae gan y cynllun rywfaint o amser ar ôl o hyd. Pan fyddwn yn edrych arno eto dros y mis neu ddau nesaf, byddwn yn sicrhau bod cynllun effeithiol yn dal ar waith. Gadewch inni fod yn onest am hyn: mae ProAct a ReAct, fel yr ydych wedi dweud, wedi bod yn gynlluniau llwyddiannus iawn ac wedi dangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr er gwell yng nghyswllt hyfforddiant a chyfleoedd i gael swyddi.

Nick Bourne: Mae tua chwe wythnos ar ôl, a £21 miliwn nad yw byth wedi'i neilltuo, heb sôn am ei wario. Dim ond rhyw 11 y cant o'r gyllideb yr ydych wedi'i wario, ac mae gennych ryw chwe wythnos cyn diwedd y rhaglen a dechrau'r rhaglen a fydd yn ei dilyn. A allwch ein sicrhau y bydd yr holl arian yn cael ei neilltuo yn y cyfnod hwnnw?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn neilltuo cymaint o arian ag y gellir ei neilltuo yn y cyfnod hwnnw. Nid yw'n bosibl gwarantu y caiff pob ceiniog ei neilltuo, ac mae hynny'n wir am unrhyw gynllun. Prin iawn yw'r cynlluniau sy'n gallu neilltuo pob ceiniog, felly mae'n anodd dweud hynny. Fodd bynnag, yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y cynllun ar gael a bod arian ynddo. Petai dymuniad eich cyd-Aelodau yn San Steffan wedi cael ei fodloni, ni fyddem erioed wedi cael y math hwn o gynllun yn y lle cyntaf.

Brian Gibbons: A yw'r Prif Weinidog yn croesawu'r ffaith bod gwerth ychwanegol crynswth y pen yng Nghymru, yn groes i'r hyn y mae Nick Bourne wedi'i ddweud, wedi codi ymhell dros 50 y cant, fod cyfradd cyflogaeth ymhell dros y 65 y cant a etifeddasom gan y Toraid, a bod y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau wedi dweud yn ddiweddar fod gan Gymru gyfran uwch o

companies than the United Kingdom average?

The First Minister: The Tories do best at talking Wales down, Brian, and I think that you have done a good job of reminding us all of what has been done in the Welsh economy over the past few years, and how much better off we are without a Conservative administration in Wales.

Economic Development

Q4 David Melding: Will the First Minister make a statement on his priorities for economic development in Wales? OAQ(3)2563(FM)

The First Minister: Our priorities are delivering Flexible Support for Business, increasing research capacity and capability, looking at commercialisation in key sectors, tackling economic inactivity, and pursuing a progressive agenda for transport. Our economic renewal programme will examine how best we can focus our efforts and resources across Wales.

David Melding: The first thing we must do is accept internationally validated economic data. When you hear your colleagues flatly deny the figures published by the likes of the International Labour Organization, the Organisation for Economic Co-operation and Development, and the UK Government, you must shudder, I am sure, but there we are. That is what you have to put up with in public.

We have heard today that we are probably out of the recession. The provisional figures for the last quarter of last year show 0.1 per cent growth, but I think that they are likely to be revised at some point in the next few months, when growth in the last quarter will probably be slightly higher. However, it is quite obvious that growth is still tentative. We have had an economic downturn or recession that has caused us to lose more than 6 per cent of output, and, last year, we suffered the largest drop in output of any single year since 1949. Those are the facts,

gwmniau gweithgynhyrchu twf uchel na chyfartaledd y DU?

Y Prif Weinidog: Mae'r Torïaid ar eu gorau pan fyddant yn bychanu Cymru, Brian, ac yr wyf yn meddwl eich bod wedi llwyddo'n ddeheuig i'n hatgoffa i gyd o'r hyn sydd wedi cael ei wneud yn economi Cymru yn ystod y blynnyddoedd diwethaf a chymaint yn well ein byd yr ydym heb weinyddiaeth Geidwadol yng Nghymru.

Datblygu Economaidd

C4 David Melding: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru? OAQ(3)2563(FM)

Y Prif Weinidog: Ein blaenoriaethau yw darparu Cymorth Hyblyg i Fusnes, cynyddu capaciti a gallu ymchwil, edrych ar fasnacheiddio mewn sectorau allweddol, mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, a dilyn agenda flaengar ar gyfer trafnidiaeth. Bydd ein rhaglen adnewyddu'r economi yn archwilio'r ffordd orau o ganolbwytio ein hymdrechion a'n hadnoddau ledled Cymru.

David Melding: Y peth cyntaf y mae'n rhaid inni ei wneud yw derbyn data economaidd sy'n cael eu diliysu'n rhyngwladol. Pan glywch eich cyd-Aelodau'n llwyr wadu'r ffigurau a gyhoeddir gan gyrrf megis y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a Llywodraeth y DU, mae'n rhaid ei fod yn codi ias arnoch, yr wyf yn siŵr, ond dyna ni. Dyna y mae'n rhaid ichi ei oddef yn gyhoeddus.

Yr ydym wedi clywed heddiw ein bod, mae'n debyg allan o'r dirwasgiad. Mae'r ffigurau dros dro ar gyfer y chwarter olaf y llynedd yn dangos twf o 0.1 y cant, ond yr wyf yn meddwl eu bod yn debyg o gael eu hadolygu rywbryd yn ystod y misoedd nesaf, pan fydd twf yn y chwarter olaf ychydig yn uwch mae'n debyg. Fodd bynnag, mae'n eithaf amlwg bod twf yn dal yn ansicr. Cawsom ddirwiad economaidd neu ddirwasgiad sydd wedi gwneud inni golli dros 6 y cant o'n cynnyrch, a'r llynedd, cawsom y cwmp mwyaf mewn cynnyrch mewn unrhyw

and they are completely validated.

There is only a certain amount that we can do here in Wales, because the economic levers that you have at your disposal are limited. However, one lever that you do have is that of acting as an international ambassador for Welsh businesses abroad. As we take advantage of the upturn—as we hope it robustly will come—we need you to be a champion for our manufacturing and other sectors, abroad. At least then we will not see a debacle like that of the Bosch plant closing before a Welsh Assembly Government Minister had even been to Germany to plead our case.

The First Minister: A great deal was done in the negotiations with Bosch. A lot of time was invested by Ministers in talking to the management. I take your point that we all have to act as ambassadors for Wales and that as much as possible should be done to attract investment into Wales. You are right to point out that we see a growth in our gross domestic product today. You are also right to point out that it is fragile, which is why it would be foolish in the extreme to make substantial cuts to the UK's budget in the coming year or so, as that would destroy the growth that we have seen today. The Labour Government at Westminster has said that it will not do that but, unfortunately, someone of your party has said that the Conservatives would.

Jeff Cuthbert: First Minister, I am sure that you would agree that one of the key focuses in our economic strategy must be on maintaining and enhancing skills levels. There is no doubt that our innovative schemes such as ProAct and ReAct have helped many thousands of people to remain in or return to employment, as was mentioned during the discussion on the previous question. However, they are short-term measures, and it is critical that we do not take our eye off the ball with regard to medium to long-term measures. Do you agree that we will continue to invest in

flwyddyn ers 1949. Dyna'r ffeithiau, ac maent wedi'u diliysu'n llwyr.

Dim ond hyn a hyn y gallwn ei wneud yma yng Nghymru, oherwydd mai cyfyngedig yw'r ffactorau sbarduno economaidd sydd ar gael ichi. Fodd bynnag, un peth y gallwch ei wneud yw gweithredu fel llysgennad rhyngwladol dros fusnesau Cymru dramor. Wrth inni fanteisio ar y cynnydd—ac yr ydym yn gobeithio y bydd y cynnydd yn dod yn bendant—mae angen ichi fod yn hyrwyddwr dros ein sector gweithgynhyrchu a'n sectorau eraill dramor. O leiaf wedyn ni fyddwn yn gweld llanastr fel y gwelwyd gyda chau safle Bosch cyn i un o Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru hyd yn oed fynd i'r Almaen i bledio ein hachos.

Y Prif Weinidog: Cafodd llawer iawn ei wneud yn y trafodaethau gyda Bosch. Buddsoddodd Gweinidogion lawer o amser i siarad â'r rheolwyr. Yr wyf yn derbyn eich pwynt bod angen inni i gyd weithredu fel llysgenhadon dros Gymru ac y dylid gwneud cymaint ag sy'n bosibl i ddenu buddsoddiad i Gymru. Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud ein bod yn gweld twf yn ein cynyrrch mewnwladol crynswth heddiw. Yr ydych hefyd yn llygad eich lle wrth ddweud ei fod yn fregus, ac oherwydd hynny byddai'n ffolineb llwyr gwneud toriadau sylweddol yng nghyllideb y DU yn y flwyddyn neu ddwy nesaf, gan y byddai hynny'n dinistrio'r twf yr ydym wedi'i weld heddiw. Mae'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi dweud na fydd yn gwneud hynny ond, yn anffodus, mae rhywun o'ch plaid chi wedi dweud y byddai'r Ceidwadwyr yn gwneud hynny.

Jeff Cuthbert: Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno mai un o'r pethau allweddol y mae'n rhaid canolbwytio arno yn ein strategaeth economaidd yw cynnal a gwella lefelau sgiliau. Nid oes dim amheuaeth nad yw ein cynlluniau arloesol megis ProAct a ReAct wedi helpu miloedd o bobl i ddychwelyd i waith neu i aros mewn gwaith, fel y crybwyllyd yn ystod y drafodaeth ar y cwestiwn blaenorol. Fodd bynnag, mesurau tymor byr yw'r rhain, ac mae'n hanfodol nad ydym yn colli golwg ar y mesurau tymor canolig i hirdymor. A ydych yn cytuno y byddwn yn parhau i fuddsoddi

apprenticeships, other forms of vocational training, and the 14-19 learning pathways, and that we will do that in full partnership with employers and trade unions to ensure that the skills that we have to offer are current and accurate for our needs, and meet the needs of the economy as it changes?

The First Minister: It is important that we equip our people with the skills to benefit from the economic upturn. We need to ensure that we assess the skills that will be needed in the world over the next five to 10 years, identify what skills we can provide our people with, and gear the education system to providing those skills. The point that you make is right; we have to ensure that we look forward over the next five to 10 years at what skills will be required, rather than trying to meet the skills that were needed in the past. I was pleased to be at the launch of SkillsCymru today, where this point was made very forcefully. It was well attended by providers and businesses, and the message was the same there. We need to ensure that we target the skills that we want to have, that those skills are relevant to the modern world, and that they are available to all people.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): What progress has been made by your Government in securing a provider for the north-south air service? Will you confirm how many bids have been received by the Welsh Assembly Government to continue to operate that service? Will you also confirm that any decisions regarding this service are made by the Cabinet as a whole, and that they are not just the preserve of the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport?

The First Minister: You cannot expect me to comment on the bidding process as it is commercially confidential. I am aware of what has been said in the papers, and the financial situation of Highland Airways is well known. There is no doubt that the air service has been a tremendous boom for the island of Anglesey, as well as being a way

mewn prentisiaethau, mathau eraill o hyfforddiant galwedigaethol, a'r llwybrau dysgu 14-19, ac y byddwn yn gwneud hynny mewn partneriaeth lawn â chyflogwyr ac ag undebau llafur i sicrhau bod y sgiliau sydd gennym i'w cynnig yn gyfredol ac yn gywir ar gyfer ein hanghenion, a'u bod yn diwallu anghenion yr economi wrth iddi newid?

Y Prif Weinidog: Mae'n bwysig inni arfogi ein pobl â'r sgiliau i elwa o'r cynnydd economaidd. Mae angen inni sicrhau ein bod yn asesu'r sgiliau y bydd eu hangen yn y byd yn ystod y pump i'r 10 mlynedd nesaf, canfod pa sgiliau y gallwn eu darparu i'n pobl, a pharatoi'r system addysg ar gyfer darparu'r sgiliau hynny. Mae'r pwynt yr ydych yn ei wneud yn iawn; rhaid inni sicrhau ein bod yn edrych ymlaen dros y pump i'r 10 mlynedd nesaf ar y sgiliau y bydd galw amdanyst, yn hytrach na cheisio diwallu'r sgiliau yr oedd eu hangen yn y gorffennol. Yr oeddwn yn falch o fod yn lansiad SkillsCymru heddiw, lle y cafodd y pwynt hwn ei wneud yn gryf iawn. Yr oedd nifer dda o ddarparwyr a busnesau yn bresennol, a'r un oedd y neges yn y fan honno. Mae angen inni sicrhau ein bod y targedu'r sgiliau y mae arnom eisiau eu cael, fod y sgiliau hynny'n berthnasol i'r byd modern, a'u bod ar gael i bawb.

Arweinydd Democraidaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud gan eich Llywodraeth o ran sicrhau darparwr ar gyfer y gwasanaeth hedfan rhwng y de a'r gogledd? A wnewch gadarnhau sawl cais y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gael i barhau i weithredu'r gwasanaeth hwnnw? A wnewch hefyd gadarnhau y bydd unrhyw benderfyniad a wneir ynghylch y gwasanaeth hwn yn cael ei wneud gan y Cabinet yn ei gyfarwydd ac nid dim ond gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth?

Y Prif Weinidog: Ni allwch ddisgwyl imi roi sylwadau ar y broses o gyflwyno ceisiadau gan ei bod yn fasnachol gyfrinachol. Yr wyf yn gwybod beth sydd wedi cael ei ddweud yn y papurau newydd, ac mae sefyllfa ariannol Highland Airways yn hysbys. Nid oes dim amheuaeth na fu'r gwasanaeth hedfan yn hwb aruthrol i Ynys Môn, yn ogystal â bod yn

for people to travel back and forth easily between Cardiff and north-west Wales. The service has been used not just by Government officials, but also by those involved in business and members of the public. The service is important in making it easy for people to travel between south-east and north-west Wales.

Kirsty Williams: I ask you again: can you confirm how many bids have been received to run this contract in the months to come? Given the uncertainty that you have just referred to, could you confirm that the Welsh Assembly Government will not put any further subsidy into this route should the current provider not be able to provide the service—either now, while it is still under the contract, or in the future? Could you confirm that you will spend no extra Government money on this service?

The First Minister: I will not comment on who has bid, how much they have bid, and what the state of the bidding process is. That should remain commercially confidential. It is important that it does because companies that bid for all manner of contracts with the Welsh Assembly Government in the future have to have confidence that the bidding process will remain confidential. Therefore, I will not comment on that. We will always seek to ensure full value for money for any contract that we let.

Kirsty Williams: I note that you are unable to confirm that the Government will spend no additional resources on this transport link should the current company be unable to continue its contract and an interim or new provider have to be sought. That is disappointing when you consider that this form of transport receives the largest Government subsidy of any public transport here in Wales. With the substantial amount of money that is going into it—some £800,000—you could be improving north-south rail links. This point was recognised this week by the Assembly's Enterprise and Learning Committee, which highlighted the need to invest in north-south rail transport. Surely this is now an opportunity to live up to

ffordd i bobl deithio'n rhwydd yn ôl ac ymlaen rhwng Caerdydd a'r gogledd-orllewin. Nid dim ond swyddogion y Llywodraeth sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth, ond pobl sy'n ymwneud â busnes ac aelodau'r cyhoedd. Mae'r gwasanaeth yn bwysig er mwyn ei gwneud yn hawdd i bobl deithio rhwng y de-ddwyrain a'r gogledd-orllewin.

Kirsty Williams: Gofynnaf drachefn: a allwch gadarnhau sawl cais yr ydych wedi'i gael i redeg y contract hwn yn ystod y misoedd nesaf? O ystyried yr ansicrwydd yr ydych newydd gyfeirio ato, a allech gadarnhau na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi dim mwy o gymhorthdal i'r llwybr hwn pe na bai modd i'r darparwr presennol allu darparu'r gwasanaeth—yn awr ac yntau'n dal o dan gontact, nac yn y dyfodol? A allech gadarnhau na fyddwch yn gwario dim arian ychwanegol gan y Llywodraeth ar y gwasanaeth hwn?

Y Prif Weinidog: Ni chyflwynaf sylwadau ynglŷn â phwy sydd wedi cyflwyno cais, gwerth y ceisiadau na chyflwr y broses o gyflwyno ceisiadau. Dylai hynny aros yn fasnachol gyfrinachol. Mae'n bwysig i hynny ddigwydd oherwydd y mae'n rhaid i gwmnïau sy'n ymgeisio am gontactau o bob math gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol fod yn ffyddio y bydd y broses o gyflwyno ceisiadau'n aros yn gyfrinachol. Felly, ni roddaf sylwadau ar hynny. Byddwn bob amser yn ceisio sicrhau gwerth llawn am arian ar gyfer unrhyw gontact a roddwn.

Kirsty Williams: Sylwaf na allwch gadarnhau na fydd y Llywodraeth yn gwario dim adnoddau ychwanegol ar y cyswllt trafnidiaeth hwn pe na bai modd i'r cwmni presennol barhau â'i gontact a bod yn rhaid dod o hyd i ddarparwr newydd neu dros dro. Mae hynny'n siomedig wrth ystyried mai'r math hwn o drafnidiaeth sy'n cael y cymhorthdal mwyaf gan y Llywodraeth o unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus yma yng Nghymru. Gyda'r swm sylweddol o arian sy'n cael ei roi iddo—tua £800,000—gallech wella'r cysylltiadau rheilffyrdd rhwng y gogledd a'r de. Cafodd y pwyt hwn ei gydnabod yr wythnos hon gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad, a dynnodd sylw at yr angen i fuddsoddi mewn trafnidiaeth

your green credentials by cancelling the renewal of this contract and investing instead in rail transport.

rheilffordd rhwng y gogledd a'r de. Yn sicr ddigon mae hyn yn gyfle yn awr i wireddu eich ymrwymiad i fod yn wyrdd drwy ganslo adnewyddu'r contract hwn a buddsoddi mewn trafnidiaeth rheilffordd yn lle hynny.

The First Minister: You make it sound as if it is one form of transport or the other. It is not. We have an enviable record of investing in rail. We have opened the Ebbw Valley and Vale of Glamorgan lines, we have the express north-south service, and, in time, the intention is to take that through Wrexham rather than through Crewe. We are looking to see how work might be done to help to double the line along sections between Wrexham and Chester. It is not a question of one form of transport over the other. There are many forms of transport that can be developed, and our record on rail has been excellent.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn rhoi'r argraff bod yn rhaid dewis rhwng y naill fath o drafnidiaeth a'r llall. Nid felly y mae. Mae gennym enw da rhagorol am fuddsoddi mewn rheilffyrdd. Yr ydym wedi agor rheilffyrdd Cwm Ebwy a Bro Morgannwg, mae gennym wasanaeth cyflym rhwng y gogledd a'r de, ac, ymhen amser, y bwriad yw mynd â'r gwasanaeth hwnnw drwy Wrecsam yn hytrach na drwy Crewe. Yr ydym yn edrych i weld beth y gellir ei wneud i helpu i ddyblu'r rheilffordd ar hyd rhannau rhwng Wrecsam a Chaer. Nid oes yn rhaid dewis rhwng y naill fath o drafnidiaeth a'r llall. Ceir sawl gwahanol fath o drafnidiaeth y gellir eu datblygu, ac mae ein record o ran y rheilffyrdd wedi bod yn rhagorol.

Kirsty Williams: Not all forms of transport have the environmental impact that the air link has. It is not me that you need to be telling how much investment you have put into north-south rail links, but the Members of the Enterprise and Learning Committee, which released a report yesterday that highlighted that there is much more to be done. You could be prioritising that investment by taking money out of an unsustainable air link between the north and the south. It is not only environmentally unsustainable, but business is not willing to engage in it with you either.

Kirsty Williams: Nid yw pob math o drafnidiaeth yn cael yr un effaith amgylcheddol â'r cyswllt hedfan. Nid wrthyf fi y mae angen ichi dweud faint yr ydych wedi'i fuddsoddi yn y cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de, ond wrth Aelodau'r Pwyllgor Menter a Dysgu, a ryddhaodd adroddiad ddoe a oedd yn dangos bod llawer mwy i'w wneud. Gallech fod yn blaenoriaethu'r buddsoddiad hwnnw drwy dynnu arian o gyswllt hedfan anghynaliadwy rhwng y gogledd a'r de. Mae'n anghynaliadwy yn amgylcheddol, ac nid yw busnesau'n fodlon cymryd rhan ynddo gyda chi ychwaith.

The First Minister: It is important that we look to reduce the amount of flights that we take, but no-one is suggesting that we should not fly at all. It is important to remember that the service is important in terms of accessibility to Anglesey from Cardiff. It also reduces the number of car journeys that would be made otherwise, and that was a factor that was taken into account.

Y Prif Weinidog: Mae'n bwysig inni geisio lleihau faint o deithio mewn awyrennau a wnawn, ond nid oes neb yn awgrymu na ddylem hedfan o gwbl. Mae'n bwysig cofio bod y gwasanaeth yn bwysig o ran cyrraedd Ynys Môn o Gaerdydd. Mae hefyd yn lleihau nifer y siwrneiau mewn ceir a fyddai'n cael eu gwneud fel arall, ac yr oedd hynny'n ffactor a gafodd ei ystyried.

2.00 p.m.

If we were to take your argument to its fullest degree, we would not subsidise anything to do with the airline industry, and that is not

Petaem yn mynd â'ch dadl i'w phen draw, ni fyddem yn rhoi cymhorthdal i ddim byd a fyddai'n ymwneud â'r diwydiant hedfan, ac

something that we as a Government would agree with. As I have said, an enormous amount of investment has been made in rail in Wales over the years. We look to develop all forms of transport, but we do take into account the carbon footprint of any form of transport that we are looking to support.

Helen Mary Jones: First Minister, you will be aware that one of the economic challenges that faces many of our communities, and is certainly a high priority in my constituency of Llanelli, is the difficulty of maintaining successful businesses in our town centres. Your Government is unable to provide any support for those businesses at present. I realise that there are European competition rules that make it impossible for the Government to provide direct subsidies to retail businesses. However, will you work with the Deputy First Minister to look at other forms of support that might be made available, including, for example, the training and upskilling of staff, or changing the infrastructure in town centres, perhaps by supporting the breaking up of big units into affordable smaller units for start-up businesses? An approach such as this as part of the new economic development programmes that the Deputy First Minister is working on would certainly be warmly welcomed in Llanelli.

The First Minister: Part of the problem in many town centres is that units are not of the right size. Small units tend to be popular, as are very large units, but there are many shops in town centres that are the size of what would have been a supermarket years ago and which are now too small for a supermarket and too big for a small unit. JESSICA, better described as the regeneration fund for Wales, is available to address the development of town centres in the future. That fund will be primarily targeted at towns and cities throughout Wales that have the greatest regeneration need. It will provide loans and loan guarantees to drive forward physical regeneration projects that are part of a broader plan to develop integrated, sustainable regeneration in town and city centres.

nid yw hynny'n rhywbeth y byddem fel Llywodraeth yn cytuno ag ef. Fel yr wyf wedi dweud, mae llawer iawn wedi cael ei fuddsoddi yn y rheilffyrdd yng Nghymru dros y blynnyddoedd. Yr ydym yn ceisio datblygu pob math o drafnidiaeth, ond yr ydym yn ystyried ôl troed unrhyw fath o drafnidiaeth yr ydym yn ystyried ei gefnogi.

Helen Mary Jones: Brif Weinidog, byddwch yn gwybod mai un o'r heriau economaidd sy'n wynebu nifer o'n cymunedau, ac sydd yn sier yn flaenoriaeth uchel yn fy etholaeth yn Llanelli, yw ei bod yn anodd cynnal busnesau llwyddiannus yng nghanol ein trefi. Ni all eich Llywodraeth ddarparu dim cefnogaeth i'r busnesau hynny ar hyn o bryd. Yr wyf yn sylweddoli bod rheolau cystadleuaeth Ewropeaidd sy'n golygu ei bod yn amhosibl i'r Llywodraeth ddarparu cymhorthdal uniongyrchol i fusnesau adwerthu. Fodd bynnag, a wnewch weithio gyda'r Dirprwy Brif Weinidog i edrych ar fathau eraill o gefnogaeth y gellir ei darparu, gan gynnwys, er enghraifft, hyfforddi ac uwchsgilio staff, neu newid seilwaith canol trefi, effalai drwy gefnogi rhannu unedau mawr yn unedau llai, fforddiadwy ar gyfer busnesau sy'n cychwyn? Byddai dull gweithredu o'r fath fel rhan o'r rhagleni datblygu economaidd newydd y mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn gweithio arnynt yn siŵr o gael croeso cynnes yn Llanelli.

Y Prif Weinidog: Rhan o'r broblem yng nghanol y dref mewn sawl man yw bod maint yr unedau'n anghywir. Mae unedau bach yn tueddu i fod yn boblogaidd, yn yr un modd ag unedau mawr iawn, ond ceir llawer o siopau yng nghanol trefi a fyddai o ran eu maint wedi bod yn archfarchnad flynyddoedd yn ôl ac sydd bellach yn rhy fach ar gyfer archfarchnad ac yn rhy fawr ar gyfer uned fach. Mae JESSICA, y gronfa adfywio ar gyfer Cymru, ar gael ar gyfer mynd i'r afael â datblygu canol trefi yn y dyfodol. Caiff y gronfa honno ei thargedu'n bennaf at drefi a dinasoedd ledled Cymru sydd â'r angen mwyaf o ran adfywio. Bydd yn darparu benthyciadau a gwarantau benthyciadau i hyrwyddo prosiectau adfywio ffisegol sy'n rhan o gynllun ehangach i ddatblygu adfywio cynaliadwy ac integredig yng nghanol trefi ac yng nghanol dinasoedd.

The Digital Switchover

Q5 Nick Ramsay: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies for aiding the digital switchover? OAQ(3)2571(FM)

The First Minister: Digital switchover is a UK issue, funded by the UK Government and broadcasters. We are in regular discussions with the UK Government, Ofcom and Digital UK regarding the digital switchover, and participated in the Digital UK all-Wales stakeholder group and the UK digital switchover group.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, First Minister. I would like to ask about your Government's discussions with the UK Government on assistance for pensioners dealing with the digital switchover. You will be aware that there is a scheme in place at the moment for pensioners in Wales to apply for, and receive, a free digibox and free transitional equipment so that they can receive digital signals after March. I tabled a written question to your Minister for Heritage last year regarding what discussions he has held with the Wenvoe transmitter group on the impact of the planned digital television switchover for my constituency. I received the answer that he had had no such discussions. Since then, I have been in touch with pensioners from my constituency who have opted for this new scheme, only to discover that when the nice new equipment—including a new aerial—was installed, they were only able to receive transmissions from the Mendips transmitter near Bristol. This means that they are unable to watch Welsh television via their digibox. Would you agree that this is not what was intended by the upgraded viewing choice offered to pensioners, and others, in Wales? Would you further agree that while many pensioners may well choose not to watch you in action during question time, that that should be their choice?

The First Minister: There have been issues with the switchover, particularly in the Mendips-Wenvoe area, where there is an overlap between the two signals. There is an advice line available for vulnerable and

Y Newid i Ddigidol

C5 Nick Ramsay: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer helpu i newid i'r digidol? OAQ(3)2571(FM)

Y Prif Weinidog: Mae'r newid i'r digidol yn fater i'r DU ac fe'i cyllidir gan Lywodraeth y DU a darlledwyr. Yr ydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth y DU, Ofcom a Digital UK ynghylch y newid i'r digidol, ac yr ydym wedi cymryd rhan yn grŵp rhanddeiliaid Cymru gyfan Digital UK a grŵp newid i'r digidol y DU.

Nick Ramsay: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Hoffwn eich holi am drafodaethau eich Llywodraeth â Llywodraeth y DU am gymorth i bensiynwyr sy'n delio â'r newid i'r digidol. Byddwch yn gwybod bod cynllun ar waith ar hyn o bryd i bensiynwyr yng Nghymru wneud cais am flwch digidol a chael y blwch hwnnw am ddim ac offer newid am ddim er mwyn iddynt allu derbyn signalau digidol ar ôl mis Mawrth. Cyflwynais gwestiwn ysgrifenedig i'ch Gweinidog dros Dreftadaeth y llynedd ynghylch pa drafodaethau yr oedd wedi'u cynnal gyda grŵp trosglwyddyd Gwenfô ynghylch effaith y newid arfaethedig i'r teledu digidol ar gyfer fy etholaeth. Cefais yr ateb nad oedd wedi cynnal trafodaethau o'r fath. Ers hynny, yr wyf wedi bod mewn cysylltiad â phensiynwyr o'm hetholaeth sydd wedi dewis cymryd rhan yn y cynllun newydd hwn, ond ar ôl i'r offer newydd hyfryd—gan gynnwys erial newydd—gael ei osod, dim ond signalau o drosglwyddyd Mendips ger Bryste yr oeddent yn gallu eu cael. Mae hyn yn golygu na allant wyllo teledu Cymru drwy eu blwch digidol. A fyddch yn cytuno nad dyma oedd bwriad uwchraddio'r dewis o ran gwyllo a gynigir i bensiynwyr ac i bobl eraill yng Nghymru? A fyddch yn cytuno ymhellach er na fyddai llawer o bensiynwyr efallai'n dewis eich gwyllo chi wrthi yn ystod eich cwestiynau, y dylent gael dewis?

Y Prif Weinidog: Bu problemau gyda'r newid i'r digidol, yn enwedig yn ardal y Mendips a Gwenfô, lle y mae'r ddau signal yn gorgyffwrdd. Mae llinell gyngor ar gael i bobl agored i niwed a hŷn ei ffonio. Dylwn

elderly people to telephone. I should declare an interest, because my wife works for the digital switchover help scheme. Therefore, I need to get this information right or I will certainly be corrected on it when I arrive home at some point this evening. If people are experiencing difficulties with their signal, the best thing to do is telephone the advice line and the correct technical advice and help can be given to ensure that they get the channels that they want.

Bethan Jenkins: There is obvious potential for social exclusion with the digital switchover. People from less well-off places in my constituency are concerned about their access to digital television. Has the Welsh Government had any discussions with the big broadcasters about taking part in Project Canvas, which is a huge television programme catch-up library that hopes to be more interactive than current systems, on how they will work to mitigate social exclusion when this groundbreaking project is available?

The First Minister: We would seek to engage with any project that provides people with an enhanced service. Support is targeted in the main at those who are elderly or who are in receipt of certain allowances. The switchover help scheme has been successful in targeting people and in ensuring that people get the help to which they are entitled. In relation to Project Canvas, we would, where there is a project that provides an enhanced service, be interested in engaging with it.

Alun Davies: The digital switchover provides great opportunities for us not only in terms of the access to a far wider range of television channels, but because of the spectrum that is currently used for analogue broadcasting. Can you ensure that the Welsh Assembly Government takes full advantage of the spectrum that will be released and starts discussions with Ofcom in advance to ensure that it is put to good use? My suggestion would be to use the spectrum as a means of enhancing the availability of broadband to communities throughout Wales.

ddatgan buddiant, oherwydd y mae fy ngwraig yn gweithio i'r cynllun cymorth ar gyfer y newid i'r digidol. Felly mae angen imi sicrhau bod y wybodaeth hon yn iawn gennyf neu byddaf yn siŵr o gael fy nghywiro ar ôl cyrraedd adref heno. Os yw pobl yn cael anawsterau gyda'u signal, y peth gorau i'w wneud yw ffonio'r llinell gyngor a gellir rhoi'r help a'r cyngor technegol cywir i sicrhau eu bod yn cael y sianelau y mae arnynt eisiau eu gwyllo.

Bethan Jenkins: Mae'n bosibl iawn y bydd y newid i'r digidol yn arwain at allgáu cymdeithasol. Mae pobl o ardaloedd nad ydynt mor ffyniannus yn fy etholaeth yn poeni am gael teledu digidol. A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda'r darlledwyr mawr ynghylch cymryd rhan yn Project Canvas, sy'n llyfrgell enfawr o raglenni teledu sy'n gobeithio bod yn fwy rhwngweithiol na'r systemau presennol, ynghylch sut y byddant yn gweithio i liniaru allgáu cymdeithasol pan fydd y prosiect arloesol hwn ar gael?

Y Prif Weinidog: Byddem yn ceisio ymwneud ag unrhyw brosiect sy'n rhoi gwasanaeth gwell i bobl. At ei gilydd, mae cymorth yn cael ei dargedu at yr henoed neu'r rhai sy'n cael rhai lwfansau. Mae'r cynllun cymorth ar gyfer y newid i'r digidol wedi llwyddo i dargedu pobl a sicrhau bod pobl yn cael yr help y mae ganddynt hawl i'w gael. Yng nghyswllt Project Canvas, lle y ceir prosiect sy'n darparu gwasanaeth gwell, byddai gennym ddiddordeb mewn ymwneud ag ef.

Alun Davies: Mae'r newid i'r digidol yn rhoi cyfleoedd mawr i ni, nid yn unig o ran gallu cael ystod ehangach o lawer o sianeli teledu, ond oherwydd y sbectrwm sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer darlleu analog ar hyn o bryd. A allwch sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn manteisio'n llawn ar y sbectrwm a fydd yn cael ei ryddhau a'i bod yn dechrau trafodaethau gydag Ofcom ymlaen llaw i sicrhau y caiff ei ddefnyddio'n ddoeth? Yr awgrym sydd gennyd yw defnyddio'r sbectrwm fel ffordd o beri bod band eang ar gael yn ehangach i gymunedau ledled Cymru.

The First Minister: You make a valid point and an interesting suggestion. Where spare capacity is to be made available because of the switchover, we would look to investigate it.

A People's Bank

Q6 Kirsty Williams: Will the First Minister make a statement on the development of a people's bank? OAQ(3)2565(FM)

The First Minister: We are pursuing a number of opportunities where there may be a role for the Welsh Assembly Government in facilitating new financial arrangements to assist individuals, business and the third sector in the wake of the credit crisis. One suggestion that is being taken forward is that of a citizens' bank.

Kirsty Williams: I am sure that you are aware that over 190,000 adults in Wales do not have a bank account, which can lead to a series of problems. In your recent leadership manifesto, you said that you would look to repatriate the Bank of Wales brand and to use it to set up a people's bank. Could you outline what steps you have taken, since you have taken on this role, to make that a reality?

The First Minister: I am flattered that you have taken so much time to read my manifesto, because every question that I get every week is based on it. I am glad that someone at least managed to read it.

The Bank of Wales brand is owned by Bank of Scotland. We will need to make inquiries with the bank to see what its plans are regarding the brand. The Bank of Wales brand has been dormant since it disappeared some years ago—probably nine or 10 years ago, I suspect. That is one way of doing it. We need to ensure that we work closely with the credit unions, because there is no point in a bank cutting across their work. Credit unions in particular are aimed at people whose savings arrangements are outside the mainstream financial sector. As I said, a number of options are being looked at.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn gwneud pwynt dilys ac awgrym diddorol. Pan fydd capasiti dros ben ar gael oherwydd y newid, byddem yn ceisio ymchwilio i hynny.

Banc y Bobl

C6 Kirsty Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu banc y bobl? OAQ(3)2565(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn mynd ar drywydd nifer o gyfleoedd lle y gall fod rôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran hwyluso trefniadau ariannol newydd i helpu unigolion, busnesau a'r trydydd sector yn sgîl yr argyfwng credyd. Un awgrym sy'n cael ei ddatblygu yw banc y dinasyddion.

Kirsty Williams: Yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod nad oes gan dros 190,000 o oedolion yng Nghymru gyfrif banc, a gall hynny arwain at gyfres o broblemau. Yn eich maniffesto'n ddiweddar ar gyfer yr arweinyddiaeth, dywedasoch y byddech yn ceisio dod â brand Banc Cymru yn ei ôl a'i ddefnyddio i sefydlu banc y bobl. A allech amlinellu pa gamau yr ydych wedi'u cymryd, ers ichi ddechrau ar eich swydd, i wireddu hynny?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn falch eich bod wedi rhoi cymaint o'ch amser i ddarllen fy maniffesto, oherwydd y mae pob cwestiwn a gaf bob wythnos yn seiliedig arno. Yr wyf yn falch bod rhywun o leiaf wedi llwyddo i'w ddarllen.

Banc yr Alban sy'n berchen ar frand Banc Cymru. Bydd angen inni holi'r banc i weld beth yw ei gynlluniau ynglŷn â'r brand. Mae brand Banc Cymru wedi bod yn segur ers iddo ddifflannu rai blynnyddoedd yn ôl—naw neu 10 mlynedd yn ôl mae'n debyg, yr wyf yn amau. Mae hynny'n un ffordd o'i wneud. Mae angen inni sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda'r undebau credyd, oherwydd nid oes dim diben i fanc dorri ar draws eu gwaith. Mae undebau credyd yn benodol wedi'u hanelu at bobl y mae eu trefniadau cynilo y tu allan i'r sector ariannol prif ffrwd. Fel y dywedais, mae nifer o ddewisiadau'n cael eu hystyried.

Leanne Wood: First Minister, will you join me in condemning the Royal Bank of Scotland, 84 per cent of which is owned by the taxpayer but which is still contemplating paying out record bonuses to its staff? Do you accept that there now exists a moral hazard in that bankers have not been discouraged from displaying risky behaviour because they know that, in the past, such behaviour has been rewarded in the form of a public bailout? A people's bank, owned by the people of Wales and run according to ethical principles, could overcome that moral hazard as well as provide credit to people on low incomes, who may otherwise find themselves forced to take out expensive credit through loan sharks. Is there a timescale for making a people's bank a reality? Do you agree that a people's bank, incorporating the post office network as well as that of the credit unions, could be a means to reopen closed post office branches, and would create hundreds of much-needed jobs in Wales?

The First Minister: The key for any new bank that is set up will be how it works with credit unions and with the Post Office to make sure that it meshes with what is already available, rather than trying to compete with those systems. Four principles will be involved: first, to provide an opportunity for people to invest their money, but knowing that that investment will help communities; second, to provide access to funding for the third sector and social enterprises; third, to provide business support through intermediaries such as the Wales Co-operative Centre, and, fourth, to provide an opportunity for individuals in communities to access banking facilities from a provider that is geared to investing that money and using it in the local community. Those are the principles on which any bank should be based. The next part of the work will be to see how such a structure might be put in place, what it might be called, and how it works with the credit unions and, of course, with the post office.

2.10 p.m.

Leanne Wood: Brif Weinidog, a wnewch ymuno â mi i gondemnio'r Royal Bank of Scotland, y mae trethdalwyr yn berchen ar 84 y cant ohono, ond sydd yn dal i ystyried talu bonybau nas gwelwyd o'r blaen i'w staff? A ydych yn derbyn bod perygl moesol yn awr oherwydd nad yw bancwyr wedi cael eu cymell i beidio ag ymddwyn yn fentrus oherwydd eu bod yn gwybod bod ymddygiad o'r fath, yn y gorffennol, wedi cael ei wobrwyd drwy roi arian cyhoeddus rhag iddynt fynd i drybini? Gallai banc y bobl, y byddai pobl Cymru yn berchen arno ac a fyddai'n cael ei redeg yn ôl egwyddorion moesegol, yn gallu goresgyn y perygl moesol hwnnw yn ogystal â rhoi credyd i bobl ar incwm isel, a all fel arall gael eu gorfodi i gael credyd drud drwy fenthycwyr arian didrwydded. A oes amserlen ar gyfer gwireddu banc y bobl? A ydych yn cytuno y byddai banc y bobl, a fyddai'n cynnwys y rhwydwaith swyddfeydd post yn ogystal â'r rhwydwaith undebau credyd, yn gallu bod yn ffordd o ailagor canghennau swyddfeydd post sydd wedi cau, ac y byddai'n creu cannoedd o swyddi y mae angen mawr amdanynt yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Yr allwedd ar gyfer unrhyw fanc newydd a sefydlir fydd sut y bydd yn gweithio gydag undebau credyd a Swyddfa'r Post i sicrhau ei fod yn plethu â'r hyn sydd eisoes ar gael, yn hytrach na cheisio cystadlu â'r systemau hynny. Ceir pedair egwyddor: yn gyntaf, rhoi'r cyfle i bobl fuddsoddi eu harian, ond gan wybod y bydd y buddsoddiad yn helpu cymunedau; yn ail, rhoi mynediad at gyllid i'r trydydd sector ac i fentrau cymdeithasol; yn drydydd, darparu cymorth i fusnesau drwy gyfryngwyr megis Canolfan Cydweithredol Cymru, ac, yn bedwerydd, rhoi cyfle i unigolion mewn cymunedau gael cyfleusterau bancio gan ddarparwr sydd â'i fryd ar fuddsoddi'r arian hwnnw a'i ddefnyddio yn y gymuned leol. Dyna'r egwyddorion y dylid seilio unrhyw fanc arnynt. Rhan nesaf y gwaith fydd gweld sut y gellir rhoi strwythur o'r fath ar waith, beth fyddai ei enw, a sut y mae'n gweithio gyda'r undebau credyd ac, wrth gwrs, gyda'r swyddfeydd post.

Mark Isherwood: In order to tackle financial exclusion, particularly in relation to post offices and access to post offices following the closure programme, Essex, with half the population of Wales, launched its Banking on Essex scheme and explored an Essex bank scheme. The latter is in abeyance because of the UK Government's consideration of a post office bank, but the former is already operating and helping small and medium-sized enterprises. Will you consider looking at the model that they developed with, in their case, Santander bank, by looking at an existing retail bank as a 50 per cent partner? Such a model would, first, mean that the bank would put in half the capital and therefore take half the risk, alongside the reserves from the local authority, which would otherwise have gone to places such as Icelandic banks; secondly, there would be access to underwriting expertise; and, thirdly, it would cut down dramatically on the amount of European regulation that a new bank would have to comply with, but that an established bank partner would not.

The First Minister: You are right to point out that setting up a new bank can be a costly and protracted business if you start to do it from scratch. One option to consider is to work with our existing partners—for example, we currently have the model of Finance Wales, which has been developed over many years—to use the expertise that is already in the banking sector to develop a social model of banking. There is interest out there to do this and it is certainly one option that we are considering because it is easier than beginning a new bank absolutely from scratch.

Guidance for Local Authorities

Q7 Darren Millar: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government guidance issued recently to local authorities? OAQ(3)2567(FM)

The First Minister: We issue many pieces of statutory and non-statutory guidance to local authorities in Wales. Responsibility for

Mark Isherwood: Er mwyn mynd i'r afael ag allgáu ariannol, yn enwedig yng nghyswllt swyddfeydd post a mynediad at swyddfeydd post yn dilyn y rhaglen o gau swyddfeydd, lansiodd Essex, sydd â hanner poblogaeth Cymru, ei gynnllun Banking on Essex ac archwiliodd gynnllun banc Essex. Ni phenderfynwyd ar y cynllun banc oherwydd bod Llywodraeth y DU yn ystyried banc swyddfa bost, ond mae Banking on Essex eisoes ar waith ac yn helpu busnesau bach a chanolig. A wnewch ystyried edrych ar y model y maent wedi'i ddatblygu, gyda banc Santander yn eu hachos hwy, drwy edrych ar fanc adwerthu sydd eisoes yn bodoli fel partner 50 y cant? Byddai model o'r fath yn y lle cyntaf yn golygu y byddai'r banc yn rhoi hanner y cyfalaf ac felly'n ysgwyddo hanner y perygl, ochr yn ochr â'r cronfeydd wrth gefn gan yr awdurdod lleol, a fyddai fel arall wedi mynd i leoedd fel banciau Gwlad yr Ia; yn ail, ceid mynediad at arbenigedd gwarantu; ac, yn drydydd, byddai'n cwtogi'n aruthrol ar faint o reoliadau Ewropeaidd y byddai'n rhaid i fanc newydd gydymffurfio â hwy, ond na fyddai'n rhaid i bartner banc sydd eisoes wedi'i sefydlu wneud.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn iawn wrth ddweud y gall sefydlu banc newydd fod yn broses ddrud a maith os ydych yn cychwyn o'r cychwyn cyntaf. Un dewis i'w ystyried yw gweithio gyda'n partneriaid—er enghraift, mae gennym fodel Cyllid Cymru ar hyn o bryd, sydd wedi cael ei ddatblygu dros nifer o flynyddoedd—i ddefnyddio'r arbenigedd sydd eisoes ar gael yn y sector bancio i ddatblygu model bancio cymdeithasol. Ceir diddordeb i wneud hyn ac mae'n sicr yn un dewis yr ydym yn ei ystyried oherwydd y mae'n haws na chychwyn banc newydd o'r cychwyn cyntaf.

Arweiniad i Awdurdodau Lleol

C7 Darren Millar: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar i awdurdodau lleol? OAQ(3)2567(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn anfon nifer o ganllawiau statudol ac anstatudol at awdurdodau lleol yng Nghymru. Y

issuing guidance on specific matters of policy rests with the appropriate portfolio Minister.

Darren Millar: According to recent figures, around 23,000 homes in Wales remain empty and have done for six months or more. Do you agree, therefore, that given that astonishing statistic, it is inappropriate for the Assembly Government to be encouraging excessive and unnecessary development on greenfield land through guidance and other means of instruction to local authorities in producing their local development plans such as that of Conwy County Borough Council, which is part of my constituency?

The First Minister: What it does in its local development plan, is a matter for the local authority. We have issued planning guidance over the years that makes it clear that we expect local authorities to examine, in particular, brownfield sites and to ensure that if there is a need to use greenfield sites that the appropriate infrastructure is put in place and that the development is appropriate. We issued guidance, but it is a matter for the local authority to decide what the local development plan should look like and seek to engage with local residents to get as much support for a local development plan as is possible.

David Lloyd: O leiaf mae gan ein cynghorau bwerau i godi trethi, yn wahanol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Pa ganllawiau fydd y Llywodraeth yn eu rhoi i gynghorau eleni ynghyllch lefelau'r dreth gyngor y gellir eu codi?

Y Prif Weinidog: Nid oes dim wedi'i roi i awdurdodau lleol eto ynghyllch capio'r dreth gyngor ar gyfer 2010-11. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid yw hwn yn rhywbeth priodol i'w wneud ar hyn o bryd.

Small Businesses

Q8 Christine Chapman: What action is the Welsh Assembly Government taking to support small businesses in Wales? OAQ(3)2553(FM)

The First Minister: The economic renewal programme aims to improve the way we

Gweinidog sydd â'r portffolio priodol sy'n gyfrifol am gyhoeddi canllawiau ar faterion penodol sy'n gysylltiedig â pholisiau.

Darren Millar: Yn ôl ffigurau diweddar, mae tua 23,000 o gartrefi yng Nghymru yn dal yn wag ac maent wedi bod yn wag ers chwe mis neu fwy. A ydych yn cytuno, felly, o ystyried yr ystadegyn syfrdanol hwnnw, ei bod yn amhriodol i Lywodraeth y Cynulliad annog gormod o ddatblygu diangen ar feysydd glas drwy ganllawiau a dulliau eraill o gyfarwyddo awdurdodau lleol wrth gynhyrchu eu cynlluniau datblygu lleol megis un Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n rhan o'm hetholaeth?

Y Prif Weinidog: Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu beth y mae'n ei wneud yn ei gynllun datblygu lleol. Yr ydym wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio dros y blynnyddoedd sy'n nodi'n glir ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol archwilio, yn benodol, safleoedd tir llwyd a sicrhau os oes angen defnyddio safleoedd maes glas fod y seilwaith priodol yn cael ei roi ar waith a bod y datblygiad yn briodol. Cyhoeddasm ganllawiau, ond yr awdurdod lleol sydd i benderfynu ar ffurf y cynllun datblygu lleol a cheisio ymgysylltu â phreswylwyr lleol i gael cymaint o gefnogaeth ag sy'n bosibl ar gyfer cynllun datblygu lleol.

David Lloyd: At least our councils have tax-raising powers, unlike the National Assembly for Wales. What guidance will the Government be giving councils this year regarding the council tax levels that can be charged?

The First Minister: Nothing has yet been issued to local authorities regarding the capping of council tax levels for 2010-11. As far as I understand it, this is not something that would be appropriate at present.

Busnesau Bach

C8 Christine Chapman: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gefnogi busnesau bach yng Nghymru? OAQ(3)2553(FM)

Y Prif Weinidog: Nod rhaglen adnewyddu'r economi yw gwella'r ffordd yr ydym yn

support businesses and attract investment. We want to better meet the needs of businesses in Wales and to encourage a stronger and more sustainable economy.

Christine Chapman: Small businesses in my area and across Wales are understandably feeling the effect of recession and, coupled with the threat of out-of-town developments, they are concerned about their businesses' future viability. That issue was raised with me by traders at Aberdare market when I met with them over the Christmas period. However, the additional help for small businesses given by the Minister for Social Justice and Local Government to small businesses faced with an increase in their business rates bill is very much to be welcomed. I noted the comments that you made to Helen Mary Jones on this point earlier. What steps is the Welsh Assembly Government taking to ensure that small businesses in our towns can grow and prosper? Would you agree, First Minister, that the town centre should be the hub of our communities?

The First Minister: I could not agree more. The last thing we want to see in this country is the development of what the Americans call 'doughnutting': suburbia and large shops surrounding what was, at one time, the town centre but where, now, there is nothing. Our town centres are, and should remain, the commercial hubs of our towns, given the services that they provide and the fact that small businesses can find nowhere else to go.

You mentioned the business rate relief scheme that was announced. I can quote Janet Jones, chair of the Federation of Small Businesses in Wales, who said that it was pleasing to see the Government listening and helping small and medium-sized enterprises. That has come from the FSB, and it is good to see that that help is appreciated.

Alun Cairns: The maximum support that you can give businesses in general really depends on the Deputy First Minister's budget, which was cut in the last budget round. However, I want to be a bit more specific about the support that you make

cefnogi busnesau ac yn denu buddsoddiad. Mae arnom eisiau gallu diwallu anghenion busnesau yng Nghymru yn well a hybu economi sy'n gryfach ac yn fwy cynaliadwy.

Christine Chapman: Mae'n hawdd deall bod busnesau bach yn fy ardal ac o Fôn i Fynwy yn teimlo effaith y dirwasgiad ac, ochr yn ochr â bygythiad datblygiadau y tu allan i'r dref, maent yn poeni am hyfywedd eu busnesau yn y dyfodol. Cododd masnachwyr ym marchnad Aberdâr y mater hwnnw gyda mi pan gyfarfum â hwy dros gyfnod y Nadolig. Fodd bynnag, croesewir y cymorth ychwanegol i fusnesau bach a roddwyd gan y Gweinidog dros Gyflawnader Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i fusnesau bach sy'n wynebu cynydd yn eu bil ardrethi busnes. Sylwais ar eich sylwadau ar y pwynt hwn yn gynharach i Helen Mary Jones. Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod busnesau bach yn ein trefi'n gallu tyfu a ffynnu? A fyddch yn cytuno, Brif Weinidog, y dylai canol y dref fod yn galon ein cymunedau?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno â chi i'r carn. Y peth olaf y mae arnom eisiau ei weld yn y wlad hon yw datblygu'r hyn a elwir yn America yn 'greu toesen': maestrefi a siopau mawr o amgylch yr hyn a arferai fod yn ganol y dref ond lle nad oes dim byd yn awr. Canol ein trefi yw canolfannau masnachol ein trefi a dylent aros felly, o ystyried y gwasanaethau y maent yn eu darparu a'r ffaith na all busnesau bach ganfod unman arall i fynd.

Soniasoch am y cynllun rhyddhad ardrethi busnes a gyhoeddwyd. Gallaf ddyfynnu Janet Jones, cadeirydd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, a ddywedodd ei bod yn braf gweld y Llywodraeth yn gwrando ac yn helpu busnesau bach a chanolig. Mae hynny wedi dod gan Ffederasiwn Busnesau Bach, ac mae'n braf gweld bod y cymorth hwnnw'n cael ei werthfawrogi.

Alun Cairns: Mae uchafswm y cymorth y gallwch ei roi i fusnesau'n gyffredinol yn dibynnu mewn gwirionedd ar gyllideb y Dirprwy Brif Weinidog, a gafodd ei thorri yng nghylch diwethaf y gyllideb. Fodd bynnag, mae arnaf eisiau bod ychydig yn fwy

available to businesses. Flexible Support for Business is, at best, weak—and I could be far more derogatory about its performance and the support that it gives. Do you recognise that Flexible Support for Business does not hit the mark? It is far too centralised. It is not responsive. It is far too bureaucratic, and it can be interpreted in several different ways. As a matter of process, support is stopped and restarted for the same business, simply to give bureaucrats an opportunity to fill in their forms and to say that they are helping yet another business, when in fact they are really helping only one.

The First Minister: I refer you back to the words of the chair of the FSB in Wales and her view that the Government is listening to SMEs. The support systems that we have in place for our SMEs and for businesses are clearly welcomed by those in the sector, and they are clearly effective.

Rhodri Glyn Thomas: Brif Weinidog, mae'n dda iawn gweld bod Alun Cairns, yn ôl ei arfer, yn adeiladol yn ei gyfraniadau yn y Siambr. O ran busnesau bach, yn enwedig y rhai yn ein trefi ac, fel yn fy etholaeth i, ein trefi marchnad, a fyddech yn cytuno mai un broblem y maent yn ei hwynebu yw bod cynifer o siopau yn wag, sy'n creu delwedd wael o ganol ein trefi? A wnewch chi ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol i weld a fyddai'n bosibl cynnig yr adeiladau gwag hyn i nifer o fusnesau cartref yn y byrdymor, nad ydynt yn gallu fforddio rhentu siopau yn llawn amser, a hynny er mwyn gwneud defnydd ohonynt a gwella delwedd ein trefi marchnad?

Y Prif Weinidog: Deallaf fod hynny'n digwydd mewn rhai mannau yng Nghymru. Mae'n bwysig bod cynllun ar waith gan y Llywodraeth, fel sydd gennym, i helpu pobl i dalu'r ardrethi ar gyfer yr adeiladau. Pan fydd nifer o siopau yn wag yng nghanol y dref, nid yw'n edrych cystal ag y gallai. Y ffordd rwyddaf o wella'r sefyllfa yw sicrhau bod yr economi yn parhau i dyfu ac yn mynd i'r cyfeiriad iawn er mwyn llenwi'r siopau yn yr

penodol ynghylch y cymorth yr ydych yn ei ddarparu i fusnesau. Ar ei orau mae Cymorth Hyblyg i Fusnes yn wan—a gallwn fod yn llawer mwy difrifol am ei berfformiad a'r cymorth y mae'n ei roi. A ydych yn cydnabod nad yw Cymorth Hyblyg i Fusnes yn taro deuddeg? Mae'n rhy ganolog o lawer. Nid yw'n ymatebol. Mae'n rhy fiwrocrataidd o'r hanner, a gellir ei ddehongli mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Fel mater o broses, caiff cymorth ei stopio a'i ailgychwyn i'r un busnes, dim ond er mwyn rhoi cyfle i fiwrocratiaid lenwi eu ffurflenni a dweud eu bod yn helpu busnes arall eto, ond mewn gwirionedd dim ond un y maent yn ei helpu.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn eich cyfeirio'n ôl at eiriau cadeirydd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a'i farn bod y Llywodraeth yn gwrando ar fusnesau bach a chanolig. Yn amlwg caiff y systemau cymorth sydd gennym ar waith ar gyfer ein busnesau bach a chanolig ac ar gyfer busnesau eu croesawu gan y rhai yn y sector, ac yn amlwg maent yn effeithiol.

Rhodri Glyn Thomas: First Minister, it is very good to see Alun Cairns, as usual, being constructive in his contributions in the Chamber. In terms of small businesses, particularly those in our towns and, in thinking of my own constituency, our market towns, would you agree that one problem they face is the fact that there are so many empty shops on the high street, which creates a poor image of our town centres? Will you look at the possibility of working with local authorities to consider the possibility of offering these premises in the short term to the many home-based businesses that exist, businesses that perhaps cannot afford to rent premises on a full-time basis, so that use is made of the premises and the image of our market towns improved?

The First Minister: I understand that that is happening in some parts of Wales. It is important that the Government has a scheme in place, as is the case, to help people with their rates. Where you have many empty shops in town centres, the town does not look as appealing as it could. The easiest way of dealing with the problem is to ensure that the economy continues to grow and moves in the right direction so that we can fill these

hirdymor. Hefyd, gwnaeth y Llywodraeth ddatganiad am yr help sydd ar gael o ran ardrethi cyn y Nadolig.

Jenny Randerson: First Minister, public sector procurement in Wales is worth £5 billion per year, but half that money goes to companies outside Wales. Your Government has long talked about that issue but, so far, there has been little effective action. Other countries in the European Union manage to ensure that a small percentage of public procurement spend is reserved for SMEs. Will you investigate that proposal, because SMEs are most likely to be based in Wales if they manage to win a tender? Will you also look at streamlining the tendering process to ensure that lower-value work available to SMEs is fast-tracked to assist small businesses at this difficult time?

premises in the long term. Furthermore, the Government made a statement before Christmas on the help that is available with rates.

Jenny Randerson: Brif Weinidog, mae caffaol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn werth £5 biliwn y flwyddyn, ond mae hanner yr arian hwnnw'n mynd i gwmnïau y tu allan i Gymru. Mae eich Llywodraeth wedi siarad am y mater hwnnw ers tro byd ond, hyd yn hyn, ni welwyd llawer o weithredu effeithiol. Mae gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd yn llwyddo i sicrhau bod canran fach o'r gwariant ar gaffael cyhoeddus yn cael ei chadw ar gyfer busnesau bach a chanolig. A wnewch ymchwilio i'r cynnig hwnnw, oherwydd y mae busnesau bach a chanolig yn fwy tebyg o fod yng Nghymru os ydynt yn llwyddo i ennill tendr? A wnewch hefyd edrych ar symleiddio'r broses dendro er mwyn sicrhau bod gwaith gwerth is sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig yn cael ei roi ar y trywydd cyflym er mwyn helpu busnesau bach yn ystod y cyfnod anodd hwn?

2.20 p.m.

The First Minister: We cannot forbid people outside Wales from bidding for contracts. If memory serves me well, a certain level of smaller contracts do not require a full bidding process, and that is what is done in some other countries. Their contracts are so small that they do not have to put them out to full tender. For example, in parts of France, instead of a large contract for all school meals, small contracts are offered for each and every ingredient used in the cooking process. For example, there is an onion contract and a potato contract, which means that they are better able to target local suppliers. However, that also means that the whole contract is far more expensive than it would be otherwise.

The key to this is to ensure that our companies are in a strong position to bid. Some seven or eight years ago, the major problem for the food sector in Wales in bidding for large contracts, such as supplying beef to NHS trusts, as they were at that time, was that there was no-one to do it. They were all so small that they could not fulfil a

The Presiding Officer: I am telling you to do so. I welcome the great energy and activity of our committees, and all committee reports, including the one recently published—[*Interruption.*] Order. I am trying to speak. All committee reports, by our Standing Orders and our well-established procedure, are published. They are then brought to the attention of Government and to the Assembly. Within our Standing Orders, time is allocated to debate them as non-Government business, because they are the Assembly's reports. As part of the process, the Government Minister produces a response and there is a full debate. Therefore, there is no need to ask for a debate when that is what will self-evidently happen. I now call on the Minister to respond.

2.50 p.m.

Jane Hutt: The first request put to me by Eleanor was about child poverty, which is a very serious issue. Supporting the eradication of child poverty and improving the life chances of our children and young people is

problemosibl gyda gwasanaeth yr awyren? Yn ôl a ddeallaf, awgrymodd yr Athro Stuart Cole, wrth iddo roi dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu, y gallem docio'r daith rhwng y gogledd a'r de i'w hanner fwy neu lai am £50 miliwn. Byddai hynny'n gymorth inni arbed arian a hefyd yn golygu bod pobl o leoedd ar wahân i sir Fôn—mae pobl sir Fôn yn ffodus o allu teithio yma ar frys—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Cyn i'r Gweinidog dros fusnes ateb y gyfres honno o gwestiynau, tynnaf sylw at y ffaith nad ar ei chyfer hi y mae'r cwestiwn olaf hwnnw. Mae'r adroddiad—

Eleanor Burnham: Gofyn am ddadl neu ddatganiad gan y Llywodraeth yr wyf ynglŷn â'r hyn y mae'r pwyllgor wedi'i ddweud ynglŷn â'r mater, gan roi'r cyd-destun llawn.

Y Llywydd: Trefn. Awgrymaf eich bod yn eistedd.

Eleanor Burnham: Os hoffech imi eistedd, gwnaf hynny.

Y Llywydd: Yr wyf yn dweud wrthych am wneud. Yr wyf yn croesawu egni a gweithgarwch mawr ein pwyllgorau, a holl adroddiadau'r pwyllgorau, gan gynnwys yr un a gyhoeddwyd yn ddiweddar—[*Torri ar draws.*] Trefn. Yr wyf yn ceisio siarad. Cyhoeddir holl adroddiadau'r pwyllgorau, yn unol â'n Rheolau Sefydlog a'n gweithdrefn sydd wedi'i hen sefydlu. Yna, deuir â hwy i sylw'r Llywodraeth a'r Cynulliad. O dan ein Rheolau Sefydlog, neilltuir amser i'w trafod ar ffurf busnes nad yw'n fusnes y Llywodraeth, oherwydd adroddiadau'r Cynulliad ydynt. Fel rhan o'r broses, bydd Gweinidog y Llywodraeth yn paratoi ymateb a chynhelir dadl lawn. Felly, nid oes angen gofyn am ddadl oherwydd y mae'n amlwg mai dyna fydd yn digwydd. Galwaf yn awr ar y Gweinidog i ymateb.

Jane Hutt: Y cais cyntaf a gefais gan Eleanor oedd ynglŷn â thodi plant, sy'n fater difrifol iawn. Mae cynorthwyo i ddileu tlodi plant a gwella cyfleoedd ein plant a'n pobl ifanc mewn bywyd ar frig ein rhestr

at the top of our list of priorities. That is why we used our legislative powers to bring forward the Proposed Children and Families (Wales) Measure, which sets out a very clear direction. That is about preparing a strategy for contributing to the eradication of child poverty, building on the foundations laid by Flying Start and Cymorth, and asking every public body to demonstrate how they are going to tackle child poverty. We are at the forefront in Wales in having that strategy and legislation. There is no question that we have to use our programmes, policies and funding to tackle the scourge of child poverty. We do that through employment support, childcare initiatives, education and health programmes, and Communities First interventions. It is a cross-Government agenda. Huw Lewis is the Deputy Minister for Children and I know that this is at the top of his agenda.

On the second point—and I am grateful for your clarification, Llywydd, on answering the point—that will fall to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport when he responds to the committee report. However, it is important to say that many of the recommendations are being developed as part of our national transport plan. That committee report will be debated in due course.

Andrew R.T. Davies: I endorse the sentiments expressed by my colleague, Darren Millar. When people look at the agenda today, they will be surprised that it is such a light agenda when we have a new First Minister with a supposedly new Government. Perhaps the Secretary of State for Wales has greater influence over this Government than we give him credit for.

If I could raise with you, Leader of the House, the point—[*Interruption.*] Well, whatever the title, if I could raise with you—

The Presiding Officer: Order. We cannot have that, in fairness. We all have titles here—some of us enjoy all sorts of titles. The business Minister is known as the business Minister and the Counsel General is the Counsel General and, I am now given to

blaenoriaethau. Dyna pam y defnyddiasom ein pwerau deddfu i gyflwyno'r Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), sy'n pennu trywydd clir iawn. Mae a wnelo hynny â pharatoi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant, gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan raglen Dechrau'n Deg a rhaglen Cymorth. a chan ofyn i bob corff cyhoeddus ddangos sut y maent yn bwriadu mynd i'r afael â tlodi plant. Yr ydym ar flaen y gad yng Nghymru am fod gennym y strategaeth honno a'r ddeddfwriaeth honno. Wrth gwrs bod yn rhaid inni ddefnyddio'n rhaglenni, ein polisiau a'n harian i fynd i'r afael â melltith tlodi plant. Yr ydym yn gwneud hynny drwy roi cymorth ym maes cyflogaeth, cynlluniau gofal plant, rhaglenni addysg ac iechyd, ac ymyriadau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n agenda sydd ar waith ar draws adrannau'r Llywodraeth. Huw Lewis yw'r Dirprwy Weinidog dros Blant a gwn fod hyn ar frig ei agenda.

O ran yr ail bwynt—ac yr wyf yn ddiolchgar ichi am egluro, Lywydd, o ran ateb y pwynt—gwaith y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth wrth iddo ymateb i adroddiad y pwylgor fydd hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig dweud bod llawer o'r argymhellion yn cael eu datblygu fel rhan o'n cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Trafodir adroddiad y pwylgor hwnnw maes o law.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn ategu'r hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod, Darren Millar. Pan fydd pobl yn edrych ar yr agenda heddiw, byddant yn synnu ei bod yn agenda mor ysgafn, o gofio bod gennym Brif Weinidog newydd a Llywodraeth newydd i fod. Efallai fod gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru fwy o ddylanwad dros y Llywodraeth hon nag yr oeddem yn tybio.

Pe cawn godi gyda chi, Arweinydd y Tŷ, y pwynt—[*Torri ar draws.*] Wel, beth bynnag yw'r teitl, pe cawn godi gyda chi—

Y Llywydd: Trefn. A bod yn deg, ni allwn ganiatáu hynny. Mae gennym i gyd deitlau yma—mae rhai ohonom yn mwynhau pob math o deitlau. Teitl y Gweinidog busnes yw'r Gweinidog dros fusnes a'r Cwnsler Cyffredinol yw'r Cwnsler Cyffredinol ac, yn

understand, the Leader of the Legislative Programme. So, I did not quite get that right before, but now I have. The reason why we have to use these titles is to make sure that everybody understands what we are doing.

Andrew R.T. Davies: I apologise, Presiding Officer. Obviously, one thing that this Government can do is give out titles to Ministers, even if it does not bring much business here.

On the issue of flights between Anglesey and Cardiff, which the Member for Cardiff Central highlighted, I raised with you, when we came back from Christmas recess, the damage that was being done to Cardiff Wales airport by the inability of the Welsh Assembly Government to offer route establishment grants as many other regional development corporations across the rest of the UK can. As the constituency Member for the Vale of Glamorgan, you will know of the exciting development plans that the company is looking to implement in Cardiff Wales airport. That will be the company's investment. Is it therefore not appropriate, in the light of my call for a statement a fortnight ago and the current financial difficulties faced by the operator of the Anglesey flights, that a statement be brought forward to address the concerns of the airport and the people who use that service, to explain what support the Government will be able to provide to allow route facilitation grants to be made available to the airport, and to provide information on the long-term security of the Anglesey flights, if the intention is that they will continue?

Jane Hutt: Before I answer your specific point about Cardiff airport, I am sure that not only the Members in Chamber, but the public, are looking forward to the important statements that are on the agenda this afternoon. There is to be a statement on homelessness by the Deputy Minister for Housing and Regeneration, which is extremely important to the people of Wales. There is also to be a legislative statement on the Proposed Carers Strategies (Wales) Measure and a debate on the Care and Social Services Inspectorate Wales chief inspector's annual report. These are all important items

ôl a ddeallaf erbyn hyn, Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol. Felly, nid oedd hynny'n gwbl gywir gennyd o'r blaen, ond yr wyf yn iawn yn awr. Rhaid inni ddefnyddio'r teitlau hyn er mwyn sicrhau bod pawb yn deall yr hyn yr ydym yn ei wneud.

Andrew R.T. Davies: Ymddiheuraf, Lywydd. Mae'n amlwg mai un peth y gall y Llywodraeth hon ei wneud yw rhannu teitlau i Weinidogion, hyd yn oed os nad yw'n dod â llawer o fusnes yma.

O ran yr awyren rhwng Ynys Môn a Chaerdydd, mater a godwyd gan yr Aelod dros Ganol Caerdydd, pan ddaethom yn ôl ar ôl toriad y Nadolig, soniais wrthych am y niwed a oedd yn cael ei wneud i faes awyr Cymru Caerdydd yn sgîl anallu Llywodraeth y Cynulliad i gynnig grantiau sefydlu llwybrau, fel y gall llawer o gorfforaethau datblygu rhanbarthol eraill wneud ar draws gweddill y Deyrnas Unedig. A chithau'n Aelod etholaeth dros Fro Morgannwg, gwyddoch am y cynlluniau datblygu cyffrous y mae'r cwmni'n gobeithio'u rhoi ar waith ym maes awyr Cymru Caerdydd. Buddsoddiad gan y cwmni fydd hwnnw. Onid yw'n briodol felly, yng ngoleuni fy nghais am ddatganiad bythefnos yn ôl a'r anawsterau ariannol presennol a wynebir gan weithredwr yr awyren o Ynys Môn, inni gael datganiad sy'n mynd i'r afael â phryderon y maes awyr a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwnnw, i esbonio pa gymorth y bydd y Llywodraeth yn gallu ei roi i ganiatáu i grantiau hwyluso llwybrau fod ar gael i'r maes awyr, ac i ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch hirdymor y teithiau o Ynys Môn, os mai'r bwriad yw iddynt barhau?

Jane Hutt: Cyn imi ateb eich pwyt penodol ynglŷn â maes awyr Caerdydd, yr wyf yn siŵr bod yr Aelodau yn y Siambr, a'r cyhoedd hefyd, yn edrych ymlaen at y datganiadau pwysig sydd ar yr agenda y prynhawn yma. Bydd datganiad am ddigartrefedd gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, sy'n eithriadol o bwysig i bobl Cymru. Hefyd, bydd datganiad deddfwriaethol ynglŷn â'r Mesur Arfaethedig yngylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) a dadl ynglŷn ag adroddiad blynnyddol prif arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r

that the Government has put on the agenda today—items that I know that the people of Wales want to hear about.

You make an important point about Cardiff airport. I welcome that investment, as does the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport. It links to the work that has been done, and the further work that has been announced in the transport plan, to improve access to the airport. That is how we are supporting the development. We are looking to establish a half-hourly train link, and there is the Vale of Glamorgan railway line, which was opened as a result of Assembly Government investment, and also the bus service from the city centre to Cardiff airport. The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport will be taking these issues on board.

Nick Ramsay: Going back to the issues raised earlier by Janet Ryder on the roads programme, I ask the Minister for Business and Budget—with specific regard to the business side of her portfolio—whether we could have a statement on the trunk road aspect of the Government's roads programme, with specific emphasis on concrete roads in Wales. I have raised on a number of occasions with the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport the A40 in my constituency, which has an ageing concrete road surface. There is an argument for viewing this type of road in a separate way to roads on the whole. This road still has a 10 to 15-year lifespan left in it, but that does not pay heed to the fact that the noise pollution coming from the ageing concrete and joints between the sections of the road is causing local residents particular grief. In many cases it is preventing people from getting a proper night's sleep. Could we have a statement from the Minister on the trunk road programme, with specific regard to that aspect of it?

Jane Hutt: I am sure that the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport will have heard those points. The national transport plan is the vehicle that will address many of these issues, and the plan is

rhain i gyd yn eitemau pwysig y mae'r Llywodraeth wedi'u rhoi ar yr agenda heddiw—eitemau y gwn fod pobl Cymru am glywed amdanynt.

Mae'r pwynt a wnewch am faes awyr Caerdydd yn un pwysig. Yr wyf yn croesawu'r buddsoddiad hwnnw, ac mae'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn ei groesawu hefyd. Mae'n gysylltiedig â'r gwaith sydd wedi'i wneud a'r gwaith pellach sydd wedi'i gyhoeddi yn y cynllun trafnidiaeth i wella'r mynediad at y maes awyr. Dyna sut yr ydym yn cefnogi'r datblygiad. Yr ydym yn gobeithio sefydlu cyswllt trenau bob hanner awr, ac yn ogystal mae rheilffordd Bro Morgannwg, a agorwyd o ganlyniad i fuddsoddiad gan Lywodraeth y Cynulliad a hefyd y gwasanaeth bysiau o ganol y ddinas i faes awyr Caerdydd. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn rhoi sylw i'r materion hyn.

Nick Ramsay: A dychwelyd at y materion a godwyd yn gynharach gan Janet Ryder ynglŷn â rhaglen y ffyrdd, gofynnaf i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb—gyda golwg benodol ar yr agwedd yn ymwneud â busnes yn ei phortffolio—a allem gael datganiad am yr agwedd yn ymwneud â chefnffyrdd yn rhaglen ffyrdd y Llywodraeth, gyda phwyslais penodol ar ffyrdd conrid yng Nghymru. Yr wyf wedi codi droeon gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yr A40 yn fy etholaeth. Mae arni wyneb conrid sy'n heneiddio. Mae dadl o blaid edrych ar y math hwn o ffordd ar wahân i ffyrdd eraill. Mae gan y ffordd hon rhwng 10 a 15 mlynedd o'i hoes ar ôl, ond nid yw hynny'n ystyried y ffaith bod y llygredd swân sy'n deillio o'r conrid a'r asiadau rhwng adrannau'r ffordd wrth iddynt heneiddio yn peri gofid mawr i drigolion lleol. Mewn llawer achos, mae'n atal pobl rhag cael noson iawn o gwsg. A allem gael datganiad gan y Gweinidog am raglen y cefnffyrdd, gyda golwg yn benodol ar yr agwedd honno arni?

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y bydd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi clywed y pwyntiau hynny. Y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol fydd y cyfrwng i fynd i'r afael â

coming before the Assembly shortly. I remind you of the points that I made earlier about the uplift in funding for the road transport plan, brought forward by the Deputy First Minister, which is about improving road maintenance.

llawer o'r materion hyn, ac mae'r cynllun yn dod gerbron y Cynulliad cyn bo hir. Fe'ch atgoffaf am y pwyntiau a wneuthum yn gynharach ynglŷn â'r cynnydd yn yr arian ar gyfer y cynllun trafnidiaeth ar y ffyrdd a gyflwynwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog. Mae a wnelo hynny â gwella cynnal a chadw'r ffyrdd.

The Presiding Officer: That concludes the questions, Minister. Thank you.

Y Llywydd: Dyna ddiwedd y cwestiynau, Weinidog. Diolch.

Datganiad am Ddigartrefedd Statement on Homelessness

The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies): I know that homelessness is an issue of great concern to all Members. My statement today is a welcome opportunity to update you on developments and progress. In March last year, I brought to you the draft homelessness plan, fulfilling a commitment in 'One Wales'. Your support for the policy direction in the plan was shared by most of the respondents to our public consultation, following which further amendments were made in order to strengthen its scope and clarity. I was pleased to launch our 10-year homelessness plan last July. The plan sets out a clear vision for action to minimise homelessness in Wales. The emphasis is on prevention, which means doing everything that we can to prevent people from becoming homeless in the first place. The plan is the result of co-operation between the Assembly Government, local authorities, and the third and private sectors. It is a solid foundation for joint action. Action that cuts across organisational boundaries is needed to tackle this issue effectively.

I am pleased to say that the policies of this Government are having a positive impact on homelessness in Wales. Local authority returns show a fall of 17 per cent in the headline homelessness figure since we came into office. That is the outcome of our support for local authorities to intensify their efforts to prevent homelessness, despite the

Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies): Gwn fod digartrefedd yn fater sy'n destun pryder mawr i'r holl Aelodau. Mae fy natganiad heddiw'n gyfle yr wyf yn ei groesawu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y datblygiadau a'r cynnydd. Ym mis Mawrth y llynedd, cyflwynais y cynllun digartrefedd drafft ichi, gan gyflawni un o ymrwymiadau 'Cymru'n Un'. Yr oedd y rhan fwyaf a ymatebodd i'n hymgyngoriad cyhoeddus, fel chithau, yn cefnogi trywydd polisi'r cynllun, ac, ar ôl yr ymgynghori hwnnw, diwygiwyd y cynllun eto er mwyn cryfhau ei gwmpas a'i wneud yn fwy eglur. Yr oeddwn yn falch o lansio'n cynllun digartrefedd 10 mlynedd fis Gorffennaf diwethaf. Mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth glir ar gyfer gweithredu er mwyn sicrhau cyn lleied o ddigartrefedd ag sy'n bosibl yng Nghymru. Mae'r pwyslais ar atal, sy'n golygu gwneud popeth a allwn i atal pobl rhag mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf. Canlyniad cydweithredu rhwng Llywodraeth y Cynulliad, yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector a'r sector preifat yw'r cynllun. Mae'n sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu ar y cyd. Mae angen gweithredu sy'n torri ar draws ffiniau sefydliadau er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r broblem hon.

Mae'n dda gennyf ddweud bod polisiau'r Llywodraeth hon yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddigartrefedd yng Nghymru. Dengys datganiadau awdurdodau lleol ostyngiad o 17 y cant ym mhristif ffigur digartrefedd ers inni ddod i rym. Mae hynny o ganlyniad i'n cymorth i awdurdodau lleol i ddwysâu eu hymdrehigion i atal digartrefedd,

difficult housing market conditions. It is particularly welcome to note the reduction of 11 per cent in the use of temporary accommodation for homeless households, and a decline of 14 per cent in the numbers of households in bed-and-breakfast hostels. These figures are encouraging, but we must guard against complacency. Last July, I launched our mortgage rescue action plan, which complements our successful mortgage rescue scheme. This scheme has been a response to the very real hardship created by the current economic conditions, and has proved to be the most effective such scheme in the United Kingdom. By the end of November last year we had approved 215 applications, helping 418 adults and 227 children to remain in their homes. This year I increased funding to £9.5 million for the current financial year to achieve this success, and I have already allocated £5 million for 2010-11. While I will consider the need to identify further resources for this programme next year, I cannot continue to prioritise the mortgage rescue scheme indefinitely.

3.00 p.m.

Mortgage rescue links to one of the main causes of homelessness, which is debt. Our homelessness plan is closely linked to the new financial inclusion strategy, which recognises the need for improved access to financial and debt advice. That is why I agreed with Brian Gibbons, when he was Minister for Social Justice and Local Government, to provide joint funding for a new housing debt helpline service.

Tackling financial exclusion is one of the most important ways that we can give people the skills and knowledge that they need to avoid homelessness. However, for some people homelessness is part of a cycle that links to other long-term social problems, such as unemployment, substance misuse, and mental health problems. We are already doing a great deal through our Supporting People and homelessness grant programmes to support local services to meet people's underlying needs.

er gwaethaf amgylchiadau anodd y farchnad dai. Mae'n arbennig o braf gweld gostyngiad o 11 y cant o ran defnyddio llety dros dro i deuluoedd digartref, a gostyngiad o 14 y cant yn nifer y teuluoedd mewn hosteli gwely a brecwast. Mae'r ffigurau hynny'n galonogol, ond rhaid inni ochel rhag bod yn hunanfodlon. Fis Gorffennaf diwethaf, lansais ein cynllun gweithredu achub morgeisi, sy'n ategu ein cynllun achub morgeisi llwyddiannus. Yr oedd y cynllun yn ymateb i'r caledi go iawn a grëwyd gan yr amgylchiadau economaidd presennol, ac erbyn hyn dyma'r cynllun mwyaf effeithiol o'i fath yn y Deyrnas Unedig. Erbyn diwedd Tachwedd y llynedd, yr oeddem wedi cymeradwyo 215 o geisiadau, gan gynorthwyo 418 o oedolion a 227 o blant i aros yn eu cartrefi. Eleni, cynyddais yr arian i £9.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol er mwyn sicrhau'r llwyddiant hwn, ac yr wyf eisoes wedi dyrannu £5 miliwn ar gyfer 2010-11. Er y byddaf yn ystyried a oes angen canfod rhagor o adnoddau ar gyfer y rhaglen hon y flwyddyn nesaf, ni allaf barhau i flaenorriaethu'r cynllun achub morgeisi yn ddiddiwedd.

Mae cysylltiad rhwng achub morgeisi ac un o brif achosion digartrefedd, sef dyled. Mae cysylltiad clös rhwng ein cynllun digartrefedd a'r strategaeth cynhwysiant ariannol newydd, sy'n cydnabod bod angen ei gwneud yn haws i bobl gael cyngor ariannol a chyngor am ddyled. Dyna pam y cytunais â Brian Gibbons, pan oedd yn Weinidog dros Gyflawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i ddarparu arian ar y cyd er mwyn sefydlu gwasanaeth llinell gymorth newydd ar gyfer dyledion tai.

Mynd i'r afael ag allgáu ariannol yw un o'r ffyrdd pwysicaf o roi'r sgiliau a'r wybodaeth i bobl y mae eu hangen arnynt er mwyn osgoi bod yn ddigartref. Fodd bynnag, i rai pobl, mae digartrefedd yn rhan o gylch sy'n gysylltiedig â phroblemau cymdeithasol hirdymor eraill, megis diweithdra, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Yr ydym eisoes yn gwneud llawer iawn drwy ein rhaglenni grantiau Cefnogi Pobl a digartrefedd i gynorthwyo gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion

sylfaenol pobl.

As a result of our homelessness plan, everyone who is at risk of homelessness should have a full assessment of their needs. That assessment should be linked to the services that can help them overcome their difficulties and sustain their homes. These connections include training, employment support, access to healthcare and support, or information on financial services, as well as advice on housing options. These are some of the priorities for the use of our resources to tackle homelessness in future.

In some cases homelessness cannot be averted. Where this happens we must ensure that services are designed to help people through this crisis as soon as possible. In the most extreme cases, people end up sleeping rough, and we must ensure that there are alternatives available to prevent this happening.

You are all aware of the current financial environment, and this obviously constrains the resources that we can apply to meet our objectives. The emphasis must be on making better use of the substantial resources that we are already committing to this area. This must include making best use of the private rented sector, which, with the help of our funding for bond and social lettings schemes, is playing an increasing role in helping vulnerable people to find the accommodation they need.

Homelessness remains a priority for this Government, and I am delighted that, in the final budget, we have an additional £1.05 million to tackle this problem. I want this to be used to improve access to advice on breaking cycles of homelessness. During this Government's term we have remained committed to our 'One Wales' resolution to increase our Supporting People funding. In December last year, I announced a review of housing-related support to ensure that we are making the most effective use of these resources, and I expect this review to be completed by the autumn.

Yn sgîl ein cynllun digartrefedd, dylai pawb y mae perygl iddynt fynd yn ddigartref gael asesiad llawn o'u hanghenion. Dylai'r asesiad hwnnw fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau a all eu cynorthwyo i ddatrys eu hanawsterau a chadw eu cartref. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynnwys hyfforddiant, cymorth i gael gwaith, llwybr at ofal iechyd a chymorth, neu wybodaeth am wasanaethau ariannol, yn ogystal â chyngor ynglŷn â'r dewisiadau sydd ar gael o ran tai. Dyma rai o'r blaenorriaethau ar gyfer defnyddio'n hadnoddau er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd yn y dyfodol.

Ambell waith, nid oes modd osgoi digartrefedd. Pan fydd hyn yn digwydd, rhaid inni sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio i gynorthwyo pobl drwy'r argyfwng hwn cyn gynted ag sy'n bosibl. Yn yr achosion mwyaf eithafol, bydd pobl yn eu cael eu hunain yn cysgu ar y stryd, a rhaid inni sicrhau bod dewisiadau eraill ar gael er mwyn atal hyn rhag digwydd.

Yr ydych i gyd yn gwybod am yr amgylchedd ariannol presennol, ac mae'n amlwg bod hyn yn cyfyngu ar yr adnoddau y gallwn eu defnyddio i wireddu'n hamcanion. Rhaid i'r pwyslais fod ar ddefnyddio'n well yr adnoddau sylweddol yr ydym eisoes yn eu neilltuo i'r maes hwn. Rhaid i hyn gynnwys defnyddio'r sector preifat ar rent yn y ffordd orau. Ynghyd â'r cymorth ariannol a roddwn ar gyfer cynlluniau bond a rhentu cymdeithasol, bydd hyn yn cyfrannu fwyfwy at gynorthwyo pobl agored i niwed i ddod o hyd i'r llety y mae ei angen arnynt.

Mae digartrefedd yn dal yn flaenorriaeth i'r Llywodraeth hon, ac yr wyf wrth fy modd bod gennym £1.05 miliwn yn ychwanegol yn y gyllideb derfynol i fynd i'r afael â'r broblem hon. Yr wyf am i hyn gael ei ddefnyddio i helpu pobl i gael cyngor ynglŷn â chwalu cylchoedd digartrefedd. Yn ystod oes y Llywodraeth hon, yr ydym wedi parhau'n ymrwymedig i'n penderfyniad yn 'Cymru'n Un' i gynyddu'n harian ar gyfer Cefnogi Pobl. Ym mis Rhagfyr y llynedd, cyhoeddais adolygiad o gymorth cysylltiedig â thai er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol, a disgwyliaf weld cwblhau'r

adolygiad hwn erbyn yr hydref.

I believe that we have made good progress in partnership with other organisations. We have set a clear direction for our work to tackle the underlying causes of homelessness, which themselves are linked to other social problems. That said, I realise that there is much more to do and we will continue to push forward on developments.

Mark Isherwood: Thank you, Deputy Minister, for your statement on an issue that unites all Members. We welcome your emphasis on prevention and on co-operation between Government, local authorities, third-sector and private-sector landlords and providers. You refer to a 17 per cent fall in headline homelessness during the period of this Assembly, and an 11 per cent reduction in the use of temporary accommodation. This followed a worrying increase of 127 per cent from 1999 until the end of the previous Assembly. However, how do you respond to the issue of hidden homelessness? This refers to the additional figures, indicated in the youth homelessness report by the Social Justice and Regeneration Committee of the previous Assembly, that potentially double the actual number of homeless people in Wales. That report is still raised with me, as I am sure it is with you, by various charities and third-sector providers.

What action do you propose to take on intentionality, particularly among younger people? I know that there is some reference to this in your proposed LCO on affordable housing. A closer look should be taken at the schemes that were identified in that youth homelessness report, some of which were based on experiences in Scotland.

You refer to the mortgage rescue scheme—which has been far more successful than its English counterpart—alongside the help and support given on protocol in courts, and an increased willingness by lenders to seek repossession as a last resort, except where

Credaf inni wneud cynnydd da mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Yr ydym wedi gosod trywydd clir ar gyfer ein gwaith i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, ac mae'r rheini'n gysylltiedig â phroblemau cymdeithasol eraill. Wedi dweud hynny, yr wyf yn sylweddoli bod llawer mwy i'w wneud a byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â datblygiadau.

Mark Isherwood: Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad ynglŷn â phwnc sy'n uno'r Aelodau i gyd. Yr ydym yn croesawu'ch pwyslais ar atal ac ar gydweithredu rhwng y Llywodraeth, yr awdurdodau lleol, landordiaid a darparwyr y trydydd sector a'r sector preifat. Yr ydych yn cyfeirio at ostyngiad o 17 y cant ym mhrif ffigur digartrefedd yn ystod oes y Cynulliad hwn, a gostyngiad o 11 y cant yn y llety dros dro a ddefnyddir. Daeth hyn ar ôl cynnydd a oedd yn destun pryder, sef cynnydd o 127 y cant rhwng 1999 a diwedd y Cynulliad blaenorol. Fodd bynnag, sut yr ydych yn ymateb i broblem digartrefedd cudd? Mae hyn yn cyfeirio at y ffigurau ychwanegol, a geir yn yr adroddiad am ddigartrefedd pobl ifanc gan Bwyllgor Cyflawnnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad blaenorol. Mae hwnnw o bosibl yn dyblu gwir nifer y bobl ddigartref yng Nghymru. Mae gwahanol elusennau a darparwyr y trydydd sector yn dal i sôn wrthyf am yr adroddiad hwnnw, ac wrthych chithau, mae'n siŵr.

Pa gamau y bwriadwch eu cymryd ynglŷn â digartrefedd bwriadol, yn enwedig ymhlið pobl iau? Gwn fod rhywfaint o gyfeirio at hyn yn eich Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ynghylch tai ffoddiadwy. Dylid edrych yn fwy gofalus ar y cynlluniau y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad hwnnw am ddigartrefedd ymhlið pobl ifanc, rhai ohonynt wedi'u seilio ar brofiadau yn yr Alban.

Yr ydych yn cyfeirio at y cynllun achub morgeisi—sydd wedi bod yn fwy llwyddiannus o lawer na'r cynllun cyfatebol yn Lloegr—ochr yn ochr â'r cymorth a'r gefnogaeth a roddir yng nghyswilt protocol y llysoedd, a mwy o barodrwydd ar ran

sub-prime or bad lending has occurred. How do you intend to take this forward? You say that you cannot continue to prioritise, although you indicate in a letter that you sent to me that you are seeking the continuation of funding for 2010-11. Bearing in mind that charities are telling me that they are seeing a bigger increase among people being evicted by private landlords than mortgage lenders, what assistance do you propose, not just in respect of those being evicted because the landlord has got into difficulty—and I know that the UK Government is trying to bring forward legislation to address that in the form of the Mortgage Repossessions (Protection of Tenants Etc.) Bill—but also in respect of those tenants whose landlord is not in difficulty but who is seeking to evict them?

You refer to the housing debt helpline service, and, clearly, help with debt and financial inclusion is vital. How are you engaging with the many third-sector and private-sector agencies who are also working in this field to create an integrated approach? I am thinking of organisations such as National Energy Action and the work that it is doing on debt and fuel poverty, the Institute for Fiscal Studies, the Council of Mortgage Lenders, some of the banks, such as NatWest, which has launched a scheme with the UK Government, the financial capability fora, and so on.

You rightly refer to linkages between homelessness and long-term social problems, such as unemployment, substance misuse and mental health problems, noting that figures suggest that 12 per cent of our homeless population have post-traumatic stress disorder, which is often complex among those homeless people who are former members of the armed forces. What action are you undertaking across Government departments to address that? It is a clear and pressing matter for us all.

Concern has also been raised with me by

benthycwyr i beidio ag adfeddiannu nes bod pethau wedi mynd i'r pen draw, ac eithrio yng nghyswllt benthyca eliaidd neu fenthyca gwael. Sut y bwriadwch fwrw ymlaen â hyn? Yr ydych yn dweud na allwch barhau i flaenoraiethu, er eich bod yn awgrymu mewn llythyr a anfonasoch ataf eich bod yn gobeithio parhau â'r ariannu ar gyfer 2010-11. O gofio bod elusennau'n dweud wrthyf eu bod yn gweld mwy o gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu troi allan gan landlordiaid preifat na benthycwyr morgeisi, pa gymorth yr ydych yn ei gynnig, nid dim ond i'r rhai sy'n cael eu troi allan oherwydd bod y landlord mewn trafferthion—a gwn fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio cyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael â hynny ar ffurf y Mesur Adfeddiannu Morgeisi (Amddiffyn Tenantiaid Etc.)—ond hefyd i'r rhai sy'n denantiaid i landlordiaid nad ydynt mewn trafferthion ond sy'n ceisio'u troi allan?

Yr ydych yn sôn am y gwasanaeth llinell gymorth ar gyfer dyledion tai, ac mae'n amlwg bod cymorth gyda dyledion a chynhwysiant ariannol yn hollbwysig. Sut yr ydych yn meithrin cysylltiad â'r llu o asiantaethau yn y trydydd sector a'r sector preifat sydd hefyd yn gweithio yn y maes hwn er mwyn creu dull integredig o fynd ati? Yr wyf yn sôn am gyrrff megis National Energy Action a'r gwaith y mae'n ei wneud ym maes dyledion a thlodi tanwydd, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Cyngor y Benthycwyr Morgeisi, rhai o'r banciau, megis NatWest, sydd wedi lansio cynllun gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y fforymau gallu ariannol, ac yn y blaen.

Yr ydych yn llygad eich lle'n cyfeirio at gysylltiadau rhwng digartrefedd a phroblemau cymdeithasol hirdymor, megis diweithdra, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl, gan nodi bod ffigurau'n awgrymu bod 12 y cant o'n poblogaeth ddigartref yn dioddef yn sgil anhwylder straen wedi trawma. Mae hynny'n aml yn gymhleth ymhli y bobl ddigartref hynny sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd ar draws adrannau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â hynny? Mae'n fater clir a phwysig inni i gyd.

Mae elusennau sy'n darparu llety dros dro a

charities that provide temporary accommodation and housing-related support for homeless people and homeless families regarding the fact that, when people are referred to them by some local authorities, they are no longer being classed as homeless and are no longer included in the homelessness figures. As a consequence, they lose extra homelessness points, which creates further waiting-list problems and logjams when they are ready to move on from the housing-related support project and integrate back into our communities.

Finally, I wish to refer to your closing comments on Supporting People funding and housing-related support. Your statement on 2 December said that the review team would be commissioned by the end of 2009. Has that review team now been commissioned? If so, who will be chairing it? What will the terms of reference be with regard to reconciling issues relating to how the Supporting People revenue grant will be paid in future, whether through grants or directly to local authorities in the revenue support grant?

Jocelyn Davies: Thank you for the support for the thrust of our homelessness work, which is to ensure the earliest possible intervention and prevention.

You mentioned youth and hidden homelessness, and I would draw your attention to the plan. We could arrange to have it sent to all Members. There is a section in it on reducing youth homelessness. It sets out clearly some of the legislative protections that are given to young people because I expect local authorities to be assessing young people, not just under housing legislation, but under the Children's Act 2004. All local authorities should have children and young people's plans in place, which should give clear information on how they will deal with young people who are particularly vulnerable. Usually they become homeless in an unplanned and sometimes chaotic way that is completely unexpected. They are often seen by private landlords as rather risky tenants. Therefore, they need to have their options clearly laid out for them, and to have solutions that are appropriate to their age. Perhaps, Mark, after you have looked again

chymorth cysylltiedig â thai i bobl ddigartref a theuluoedd digartref wedi dweud wrthyf hefyd eu bod yn poeni nad yw pobl yn cael eu hystyried yn ddigartref rhagor ar ôl i rai awdurdodau lleol eu cyfeirio atynt, ac nad ydynt yn cael eu cynnwys rhagor yn y ffigurau digartrefedd. Yn sgîl hynny, maent yn colli pwyntiau digartrefedd ychwanegol. Mae hyn yn creu rhagor o broblemau gyda'r rhestr aros a thagfeydd pan fyddant yn barod i symud ymlaen o'r prosiect cymorth cysylltiedig â thai ac integreiddio'n ôl i'n cymunedau.

Yn olaf, dymunaf gyfeirio at eich sylwadau wrth gloi ynglŷn ag arian Cefnogi Pobl a chymorth cysylltiedig â thai. Yn eich datganiad ar 2 Rhagfyr, dywedwyd y byddai'r tîm adolygu'n cael ei gomisiynu erbyn diwedd 2009. A yw'r tîm adolygu hwnnw wedi'i gomisiynu erbyn hyn? Os ydyw, pwy fydd yn ei gadeirio? Beth fydd y cylch gorchwyl gyda golwg ar ddatrys problemau ynglŷn â sut y telir grant refeniu Cefnogi Pobl yn y dyfodol, ai drwy grantiau ynteu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol yn y grant cynnal refeniu?

Jocelyn Davies: Diolch am y gefnogaeth i fyrdwn ein gwaith ar ddigartrefedd, sef sicrhau'r ymyriadau cynharaf posibl a'i atal.

Soniasoch am ddigartrefedd pobl ifanc a digartrefedd cudd, a hoffwn dynnu eich sylw at y cynllun. Gallem drefnu i'w anfon at bob Aelod. Mae'n cynnwys adran am leihau digartrefedd ymhlið pobl ifanc. Mae'n dweud yn glir beth yw rhai o'r ffyrdd y mae'r ddeddfwriaeth yn amddiffyn pobl ifanc oherwydd yr wyf yn disgwyl i awdurdodau lleol asesu pobl ifanc, nid dim ond o dan ddeddfwriaeth tai, ond o dan Ddeddf Plant 2004. Dylai fod gan bob awdurdod gynlluniau plant a phobl ifanc, a dylai'r rheini ddweud yn glir sut y byddant yn ymdrin â phobl ifanc sy'n arbennig o agored i niwed. Fel rheol, byddant yn mynd yn ddigartref o dan amgylchiadau nad ydynt wedi'u cynllunio ac weithiau mae'r sefyllfa'n un afreolus ac yn gwbl annisgwyl. Bydd landlordiaid preifat yn aml yn eu hystyried yn denantiaid annibynadwy. Felly, mae angen i rywun esbonio'u dewisiadau'n glir iddynt, a chynnig atebion sy'n briodol i'w hoedran.

at the homelessness plan—I know that I launched it last summer, so it may be some time since you looked at it—you would have to agree that the section relating to youth is quite comprehensive.

You mentioned people being evicted for being in arrears with their rent. Our mortgage rescue scheme allows a housing association to purchase an asset with the resources and the grant aid that are made available to them. We are not in a position where we can pay people's rent for them but we do ensure that the early intervention allows people to have a proper welfare benefit check.

3.10 p.m.

It could be that some who are entitled to housing benefit because of their current financial situation have not been claiming all of the benefits to which they are entitled. However, paying people's rent is an entirely different situation from housing associations buying an asset that is then rented back to the people concerned. However, I am pleased that you acknowledge that we have a good mortgage rescue scheme.

You mentioned veterans and there is a section in the plan on veterans. It lays out what we hope to achieve. There are several groups of veterans who find themselves homeless after leaving the forces. There may be some with vulnerabilities that derive from their childhoods; some have encountered difficulties in the forces and some have had successful careers in the forces, but have found returning to civilian life very difficult. There are others with unrelated problems that they encountered later in life. It is a group that finds it difficult to seek and accept intervention. We are working with the Ministry of Defence, the third sector and others to come up with a strategy that allows us to offer them help in a way that is acceptable.

You mentioned the fact that some local authorities may not be implementing our

Efallai, Mark, ar ôl ichi edrych eto ar y cynllun digartrefedd—gwn imi ei lansio yr haf diwethaf, felly efallai fod cryn amser wedi mynd heibio ers ichi edrych arno—y byddai'n rhaid ichi gytuno bod yr adran sy'n ymwneud â phobl ifanc yn eithaf cynhwysfawr.

Soniasoch am bobl yn cael eu troi allan am fod ar ei hôl hi gyda'u rhent. Mae ein cynllun achub morgeisi'n caniatáu i gymdeithas tai brynu ased gyda'r adnoddau a'r cymorth grant a ddarperir ar eu cyfer. Nid ydym mewn sefyllfa lle y gallwn dalu rhent pobl drostynt, ond yr ydym yn sicrhau bod ymyriad cynnar yn caniatáu i bobl gael archwiliad budd-daliadau lles iawn.

Efallai nad yw pob un y mae ganddo'r hawl i gael budd-dal tai oherwydd ei sefyllfa ariannol bresennol yn hawlio'r holl fudd-daliadau sy'n ddyledus iddo. Serch hynny, mae talu rhent pobl yn sefyllfa holol wahanol i gymdeithasau tai'n prynu ased sydd wedyn yn cael ei rentu'n ôl i'r bobl dan sylw. Fodd bynnag, yr wyf yn falch eich bod yn cydnabod bod gennym gynllun da i achub morgeisi.

Soniasoch am gyn-filwyr ac mae adran yn y cynllun sy'n ymwneud â chyn-filwyr. Mae'n dweud yr hyn yr ydym yn gobeithio'i gyflawni. Mae sawl grŵp o gyn-filwyr sy'n eu cael eu hunain yn ddigartref ar ôl gadael y lluoedd. Efallai y bydd rhai yn agored i niwed yn sgîl problemau yn ystod eu plentynnod; mae rhai wedi cael anawsterau yn y lluoedd ac mae rhai wedi cael gyrfa lwyddiannus yn y lluoedd, ond wedi'i chael yn anodd iawn dychwelyd i fyw yn y byd go iawn. Mae gan eraill broblemau nad oes ganddynt gysylltiad â'u cyfnod yn y lluoedd ond bod y problemau hynny wedi datblygu'n ddiweddarach yn eu hoes. Mae'n grŵp sy'n ei chael yn anodd gofyn am gymorth a derbyn cymorth. Yr ydym yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gyda'r trydydd sector a chydag eraill i lunio strategaeth sy'n caniatáu inni gynnig cymorth iddynt mewn ffordd sy'n dderbyniol.

Soniasoch am y ffaith nad yw pob awdurdod lleol o bosibl yn rhoi ein canllawiau ar waith

guidance in the way in which it was intended. Perhaps you would be prepared to write to me about the individual cases in relation to move-on accommodation because it is important that we move people on from temporary accommodation as effectively as possible, but into tenancies that are sustainable for them. You also mentioned the review that we are undertaking into housing-related support and I am delighted that Mansel Aylward was prepared to take this brief. You may recall that we consulted with the providers and the commissioners on this issue and put together a steering group. Mansel Aylward was the top choice of the providers and the commissioners. He has put together a team and I will be happy to report back to you on his findings as soon as I can do so.

Lorraine Barrett: I want to take this opportunity to ask you to take my comment away and give it some thought. I have written to you on this and to the local council. My comment concerns people who rent from a private landlord who fails to keep up the mortgage payments and has his or her house repossessed. In the Cardiff area, there is a lot of rented property and this seems to be happening to quite a few people. I saw a lovely house yesterday that was boarded up and had been repossessed. The neighbour told me that the tenants, who were renting it, had had to move on. Such tenants find it more difficult to find a bond and so on and it takes time to rent another property. I do not expect you to have the answer now, but I would like you to take this away and think about the unintended consequences of rented property being repossessed because of non-payment of mortgage.

Jocelyn Davies: Mark mentioned earlier a proposal at the UK Government level for legislation to be introduced relating to the example that you gave, when a private landlord fails to pay the mortgage on their property, and tenants, who have been paying their rent on time, find themselves evicted because of someone else's debt. There is a suggestion that there would be a requirement for lenders who take possession orders to notify the local authority of that property so that at least the local authority was made

yn y ffordd a fwriadwyd. Efallai y byddech yn barod i ysgrifennu ataf ynglŷn â'r achosion unigol yng nghyswllt llety symud ymlaen, oherwydd y mae'n bwysig inni symud pobl ymlaen o lety dros dro mewn ffordd mor effeithiol ag sy'n bosibl, ond gan eu symud i denantiaethau y gallant eu cynnal. Soniasoch hefyd am yr adolygiad yr ydym yn ei gynnal o gymorth cysylltiedig â thai ac yr wyf wrth fy modd bod Mansel Aylward yn barod i ysgwyddo'r gwaith hwn. Efallai y cofiwch inni ymgynghori â'r darparwyr a'r comisiynwyr ynglŷn â hyn ac inni sefydlu grŵp llywio. Mansel Aylward oedd dewis cyntaf y darparwyr a'r comisiynwyr. Mae wedi cynnull tîm a byddaf yn falch o adrodd yn ôl ichi ynglŷn â'i ganfyddiadau cyn gynted ag y gallaf wneud hynny.

Lorraine Barrett: Yr wyf am achub y cyfle hwn i ofyn ichi feddwl am yr hyn sydd gennyf i'w ddweud ar ôl ichi fynd oddi yma. Yr wyf wedi ysgrifennu atoch chi ac at y cyngor lleol ynglŷn â hyn. Mae a wnelo fy sylw â phobl sy'n rhentu gan landlord preifat sy'n methu talu'r taliadau morgais ac y mae ei dî neu ei thý'n cael adfeddiannu. Yn ardal Caerdydd, ceir llawer o eiddo ar rent ac mae hyn i bob golwg yn digwydd i dipyn o bobl. Gwelais dî hyfryd ddoe a'i ffenestri wedi'u byrddio ac yr oedd wedi'i adfeddiannu. Dywedodd y cymydog wrthyf fod y tenantiaid, a oedd yn ei rentu, wedi gorfol symud ymlaen. Mae tenantiaid o'r fath yn ei chael yn fwya anodd dod o hyd i fond ac yn y blaen ac mae angen amser i rentu eiddo arall. Nid wyf yn disgwyl i chi roi'r ateb imi yn awr, ond hoffwn ichi fynd oddi yma ac ystyried canlyniadau anfwriadol adfeddiannu eiddo ar rent oherwydd nad yw'r landlord yn talu'r morgais.

Jocelyn Davies: Soniodd Mark yn gynharach am gynnig ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r enghraifft a roesoch, pan fydd landlord preifat yn methu talu'r morgais ar ei eiddo a'r tenantiaid, sydd wedi bod yn talu eu rhent mewn pryd, yn cael eu troi allan oherwydd dyled rhywun arall. Awgrymir y byddai gofyn i fenthycwyr sy'n cychwyn gorchymyn meddiannu, hysbysu'r awdurdod lleol ynglŷn â'r eiddo hwnnw, er mwyn i'r awdurdod lleol o leiaf fod yn ymwybodol o'r

aware of the situation well in advance, even though the sitting tenant might not know. So there are proposals to tackle this at a UK level and we would find considerable favour with that. As soon as I can find anything out, I will happily write to you with an update.

Peter Black: I welcome the Deputy Minister's statement. We had to wait a month or two for the homelessness statement, but, hopefully, it was worth while and shows some progress. I am particularly pleased with what she said about the drop-in bed-and-breakfast accommodation and the use of temporary accommodation. However, we cannot afford to be too complacent on those figures, because, according to the Government's latest figures, in 2009-10, there were 275 households using bed-and-breakfast accommodation. This was only slightly down on the 282 in 2007-08. Therefore, there is still a constant stream of bed-and-breakfast accommodation being used to house homeless families. More disturbingly, from April to June 2009, the period for which the latest figures are available from the Government, 583 households had been in temporary accommodation for longer than a year. That is clearly a sign that we do not yet have the Move-On strategy quite right at the local level. I hope that the Deputy Minister will look at that and advise local authorities as to how they can deal with it.

I remain concerned about the number of properties available to re-house homeless families. It is right to say that, as a consequence of the recession, the number of social housing units available for let has dropped, even with the additional units that the Deputy Minister has secured over the last few years—albeit short of her target. We still have 26,000 empty private homes around Wales. Could the Deputy Minister indicate, in addition to the proposed LCO, whether she intends to produce a strategy to deal with that particular problem, to try to co-ordinate the efforts of local government and to highlight best practice?

sefyllfa ymlaen llaw, er na fyddai'r tenant sy'n byw yno o reidrwydd yn gwybod. Felly, mae cynigion ar y gweill i fynd i'r afael â hyn ar lefel y Deyrnas Unedig a byddem yn cefnogi hynny. Cyn gynted ag y caf wybod rhywbeth, byddaf yn falch o ysgrifennu atoch ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf.

Peter Black: Yr wyf yn croesawu datganiad y Dirprwy Weinidog. Bu'n rhaid inni ddisgwyl fis neu ddau i gael y datganiad am ddigartrefedd, ond yr oedd yn werth aros gobeithio, ac mae'n dangos rhywfaint o gynnydd. Yr wyf yn arbennig o falch ynglŷn â'r hyn a ddywedodd ynglŷn â bod llai o ddefnyddio ar lety gwely a brecwast a llety dros dro. Serch hynny, ni allwn fforddio bod yn rhy hunanfodlon ynglŷn â'r ffigurau hynny, oherwydd, yn ôl ffigurau diweddaraf y Llywodraeth, yn 2009-10, yr oedd 275 o deuluoedd mewn llety gwely a brecwast. Dim ond ychydig yn llai na'r 282 yn 2007-08 oedd hyn. Felly, mae llif cyson o hyd o lety gwely a brecwast yn cael ei ddefnyddio i gartrefu teuluoedd digartref. Mae'n fwy o destun pryder bod 583 o deuluoedd wedi bod mewn llety dros dro ers blwyddyn neu fwy yn y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2009, y cyfnod y mae'r ffigurau diweddaraf ar gael ar ei gyfer gan y Llywodraeth. Mae hynny'n amlwg yn arwydd nad yw'r strategaeth Symud Ymlaen yn holol iawn gennym eto ar y lefel leol. Gobeithio y gwnaiff y Dirprwy Weinidog edrych ar hynny a chyngori awdurdodau lleol ynglŷn â sut y gallant ymdrin ag ef.

Yr wyf yn dal i boeni am nifer yr eiddo sydd ar gael i ailgartrefu teuluoedd digartref. Mae'n iawn dweud, yn sgil y dirwasgiad, fod llai o unedau tai cymdeithasol ar gael i'w gosod, hyd yn oed ac ystyried yr unedau ychwanegol y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u sicrhau yn ystod y blynnyddoedd diwethaf—er nad yw'r nifer yn cyrraedd y nod. Mae gennym 26,000 o gartrefi preifat gweigion o hyd o gwmpas Cymru. A allai'r dirprwy Weinidog ddweud a yw'n bwriadu cyhoeddi strategaeth yn ogystal â'r Gorchymyn arfaethedig, i ymdrin â'r broblem benodol honno, er mwyn ceisio cydlynus ymdrechion llywodraeth leol a thynnu sylw at yr arferion gorau?

I am also concerned about local provision for those who are declared homeless. The quality of local homelessness strategies remains variable. That is a constant and needs to be addressed. Certainly, not every local authority has put in place suitable provision, particularly for the street homeless, in terms of what needs to be done. There are issues around capital and revenue to ensure that they can do that. I am also not convinced that every local authority has the correct processes in place to support families being rehoused and with regard to the prevention agenda. There is still a fair amount of work to be done on that as well.

Could the Deputy Minister help me with one particular aspect of her statement? She refers to the need to tackle debt, and I absolutely agree with her that housing debt is a huge problem and is certainly one of the biggest causes of homelessness. There is still an issue around Wales in relation to loan sharks. I commend the work carried out by Community Housing Cymru to highlight that issue. However, a large number of lenders are still offering loans at very high interest rates—often 1,000 per cent or 2,000 per cent—and yet the UK Government refuses to outlaw this practice. Would the Deputy Minister agree to take up with the relevant UK Ministers the need to outlaw that particular practice in order to try to protect people from the worst aspects of that sort of lending, which, although legitimate, still amounts to loan-sharking?

There is also a need to boost the use of credit unions. The membership of credit unions now stands at 50,000, which is a 10 per cent increase on the number of members when the One Wales Government was formed. Between 2000 and 2007, membership of credit unions increased by 42 per cent, so the rate of growth of credit unions has slowed down over the last two years. Would the Deputy Minister agree that there is a need to relaunch that initiative to try to encourage more people to take up membership?

Finally, I have raised on a number of

Yr wyf yn poeni hefyd am y ddarpariaeth leol i'r rhai sy'n ddigartref. Mae ansawdd strategaethau digartrefedd lleol yn dal i amrywio. Mae hynny'n dal yn wir ac mae angen mynd i'r afael â'r peth. Yn sicr, nid yw pob awdurdod lleol wedi sefydlu darpariaeth briodol, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n ddigartref ar y stryd, o ran yr hyn y mae angen ei wneud. Mae angen ystyried cyfalaf a refeniw er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud hynny. Nid wyf yn argyhoedddedig ychwaith fod gan bob awdurdod lleol y prosesau cywir i gynorthwyo teuluoedd sy'n cael eu hailgartrefu ac yng nghyswllt yr agenda atal. Mae tipyn o waith i'w wneud eto ar hynny hefyd.

A allai'r Dirprwy Weinidog fy nghynorthwyo gydag un agwedd benodol ar ei datganiad? Mae'n dweud bod angen mynd i'r afael â dyledion, ac yr wyf yn cytuno'n llwyr â hi fod dyledion tai'n broblem enfawr ac yn sicr yn un o'r pethau sy'n bennaf cyfrifol am ddigartrefedd. Mae problem o hyd yng Nghymru gyda benthycwyr diegwyddor. Yr wyf yn cymeradwyo'r gwaith y mae Tai Cymunedol Cymru wedi'i wneud i dynnu sylw at hynny. Serch hynny, mae nifer fawr o fenthycwyr yn dal i gynnig benthyciadau ar gyfraddau llog uchel iawn—a hynny'n aml yn 1,000 y cant neu'n 2,000 y cant—ac eto mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwrthod gwahardd yr arfer hwn. A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn cytuno i godi gyda Gweinidogion perthnasol y Deyrnas Unedig fod angen gwahardd yr arfer penodol hwnnw er mwyn ceisio amddiffyn pobl rhag agweddu gwaethaf y math hwnnw o fenthyca, sydd, er ei fod yn gyfreithlon, yn dal yn fenthyca diegwyddor serch hynny?

Mae angen hybu defnyddio undebau credyd hefyd. Mae 50,000 yn aelodau o undebau credyd erbyn, hyn, sy'n gynnydd o 10 y cant ers ffurfio Llywodraeth Cymru'n Un. Rhwng 2000 a 2007, gwelwyd cynnydd o 42 y cant yn nifer aelodau undebau credyd, felly mae cyfradd twf undebau credyd wedi arafu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn cytuno bod angen ail-lansio'r cynllun hwnnw er mwyn ceisio annog rhagor o bobl i ymaelodi?

Yn olaf, yr wyf wedi codi sawl tro y

occasions the liaison between the courts and Government initiatives, particularly in relation to the mortgage rescue scheme. Could the Deputy Minister update us on how that is working, whether the courts are now fully aware of the various initiatives, and whether people coming to the courts for repossession hearings are being referred on before their case is heard in the hope of trying to avoid as many repossession as possible?

3.20 p.m.

Jocelyn Davies: Thank you, Peter; you raised a number of issues, and I thank you for your support. You had a slight go at me, I suppose, about the homelessness statement being postponed, but we did use that slot to introduce the legislative competence Order, so I know that you will forgive me for having delayed this statement for that reason.

I am not complacent—you mentioned the trend in the homelessness figures—but these are difficult times and we probably would have predicted that the figures would have been worse than they are. You said that performance is variable across local government, but each authority seems to be going in the right direction, even if they are going at different speeds. They have worked incredibly hard to keep the figures as low as they have been, because we imagined that many more people would have been homeless as a result of the recession.

You mentioned the Move-On strategy and the fact that some of the statistics show that some people have not been moved on for a considerable length of time. When I discussed this matter with local authorities, they tell me that some of the properties that they lease for people to stay in are very nice, and tenants are sometimes reluctant to move on to more settled accommodation. Of course, the longer you stay in a property, and when your children start attending the local school, the more reluctant you will be to move on. It is therefore important that we get people to move on as quickly as possible, no matter how nice the property they are

cysylltiad rhwng y llysoedd a mentrau'r Llywodraeth, yn enwedig yng nghyswllt y cynllun achub morgeisi. A allai'r Dirprwy Weinidog ddweud wrthym beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran sut y mae hynny'n gweithio? A yw'r llysoedd erbyn hyn yn llwyr ymwybodol o'r gwahanol fentrau, ac a yw pobl sy'n dod i'r llys ar gyfer gwrandawiadau adfeddiannu'n cael eu cyfeirio ymlaen cyn gwrandu hachos gan obeithio osgoi cynifer o achosion adfeddiannu ag sy'n bosibl?

Jocelyn Davies: Diolch, Peter, codwyd sawl mater gennych, a diolch ichi am eich cefnogaeth. Cefais gerydd bach gennych am wn i am i'r datganiad am ddigartrefedd gael ei ohirio, ond defnyddiwyd y slot hwnnw gennym i gyflwyno'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, felly gwn y byddwch yn maddau imi am ohirio'r datganiad hwn am y rheswm hwnnw.

Nid wyf yn hunanfodlon—soniasoch am y duedd yn y ffigurau digartrefedd—ond mae'n gyfnod anodd ac mae'n debyg y byddem wedi rhagweld y buasai'r ffigurau'n waeth na hyn. Dywedasoch fod y perfformiad yn amrywio ar draws llywodraeth leol, ond mae pob awdurdod i bob golwg yn symud i'r cyfeiriad iawn, hyd yn oed os nad ydynt i gyd yn symud cyn gyflymed â'i gilydd. Maent wedi gweithio'n anhygoel o galed i gadw'r ffigurau cyn ised ag y maent wedi bod, oherwydd yr oeddem yn dyfalu y buasai mwy o bobl o lawer yn ddigartref yn sgil y dirwasgiad.

Soniasoch am y strategaeth Symud Ymlaen a'r ffaith bod rhai o'r ystadegau'n dangos ei bod yn cymryd cryn amser i symud rhai pobl yn eu blaen. Pan drafodais hyn gydag awdurdodau lleol, maent yn dweud wrthyf fod rhai o'r eiddo y maent yn eu lesio i bobl aros ynddynt yn braf iawn, a bod tenantiaid weithiau'n gyndyn o symud ymlaen i lety mwy sefydlog. Wrth gwrs, po hwyaf yr arhoswch chi mewn eiddo, a phan fydd eich plant yn dechrau mynd i'r ysgol leol, po fwyaf cyndyn fyddwch chi o symud ymlaen. Mae'n bwysig felly inni sicrhau bod pobl yn symud ymlaen cyn gynted ag sy'n bosibl, ni waeth pa mor braf yw'r eiddo y maent yn

currently in is.

You mentioned the mortgage rescue scheme. Despite the scheme's success, I cannot let it affect the main programme, because we need to build new properties to increase supply, as you rightly mentioned.

You also mentioned debt, and to that end we have the financial inclusion strategy. You referred to doorstep lenders, who are legal, and to loan sharks, who charge an absolutely enormous interest rate. I am sure that many people have absolutely no idea how much they are paying back for borrowing what are sometimes small sums, but, of course, people like the convenience of being able to hand the cash over once a week to somebody who calls at the door rather than join a credit union. I am happy to write to the UK Minister about that point, however, because I think it has been suggested in the past that, with legal lenders, it would be possible to put an upper limit on the interest that they could charge. I will certainly take the matter up.

On the issue of credit unions, I am encouraged by their growth. I recently launched the Monmouthshire Housing Association financial inclusion strategy, which does a financial health check of people when they first apply for housing. They repeat that again on letting, and they take up membership of a credit union for every single one of their tenants. That is something that I hope is good practice. I will certainly speak to Carl Sargeant, in whose portfolio this falls, to ensure that best practice is spread across Wales.

Darren Millar: Deputy Minister, I welcome your statement, and I also welcome your additional commitment to tackle homelessness, which concerns all Members in all constituencies. Like Peter Black, I am particularly pleased by the reduction in the number of families and others housed in temporary accommodation, particularly bed-and-breakfast accommodation, which continues to be an issue in my constituency.

During questions, I asked the First Minister

byw yn ddo ar y pryd.

Soniasoch am y cynllun achub morgeisi. Er bod y cynllun yn llwyddiant, ni allaf adael iddo effeithio ar y brif raglen, oherwydd y mae angen inni adeiladu tai newydd er mwyn cynyddu'r cyflenwad, ac yr oeddech yn llygad eich lle'n dweud hynny.

Soniasoch hefyd am ddyledion, ac i'r perwyl hwnnw, mae gennym y strategaeth cynhwysiant cymdeithasol. Cyfeiriasoch at fenthycwyr dros y trothwy, sy'n gyfreithlon, ac at fenthycwyr didrwydded, sy'n codi cyfradd llog aruthrol. Yr wyf yn siŵr nad oes gan lawer o bobl glem faint y maent yn ei addalu am fenthyciau sydd weithiau'n symiau bach, ond, wrth gwrs, mae pobl yn hoffi hwylustod gallu talu arian parod unwaith yr wythnos i rywun sy'n galw heibio yn hytrach nag ymuno ag undeb credyd. Yr wyf yn fodlon ysgrifennu at Weinidog y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r pwyt hnwnw, serch hynny, oherwydd credaf iddo gael ei awgrymu yn y gorffennol y byddai modd penu terfyn uchaf ar y llog y gallai benthycwyr cyfreithlon ei godi. Yn sicr, af i'r afael â'r mater.

O ran undebau credyd, mae eu twf yn codi fynghalon. Yn ddiweddar, lansiadis strategaeth cynhwysiant ariannol Cymdeithas Tai Sir Fynwy sy'n cynnal profion iechyd ariannol ar bobl pan fyddant yn gwneud cais am dŷ y tro cyntaf. Byddant yn gwneud y prawf hwnnw eto wrth osod, a byddant yn codi aelodaeth undeb credyd i bob un o'u tenantiaid. Mae hynny, yr wyf yn gobeithio, yn arfer da. Yn sicr caf sgwrs â Carl Sargeant, gan fod hyn yn dod o fewn ei bortffolio, i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu lledaenu i bob cwr o Gymru.

Darren Millar: Ddirprwy Weinidog, yr wyf yn croesawu'ch datganiad, ac yn croesawu hefyd eich ymrwymiad ychwanegol i fynd i'r afael â digartrefedd, sy'n destun pryder i bob Aelod ym mhob etholaeth. Yr wyf finnau, fel Peter Black, yn arbennig o falch o weld gostyngiad yn nifer y teuluoedd a phobl eraill a gartrefir mewn llety dros dro, yn enwedig mewn llety gwely a brecwast, sy'n dal yn broblem yn fy etholaeth.

Yn ystod y cwestiynau, gofynnais i'r Prif

about the supply of housing in Wales. I commented on the number—around 23,000—of properties that have been empty for six months or more according to recent statistics. What are you doing, with local authorities, to encourage them to use their powers to tackle the issue of empty homes in their areas? I know that they have powers available to them, but would you need to make additional resources available to help to tackle the supply issue? I think that homelessness could be tackled much more quickly if we deal with empty homes rather than bulldoze greenfield sites to build new ones.

In terms of the Supporting People grant, which is available in Wales, Conwy and Denbighshire have a large number of vulnerable adults and young people supported by Supporting People services. I know that there have been plans—some work has been done on redistribution of the Supporting People grant across Wales. When does your department expect to be able to make a decision on that? What will you do to safeguard those services that are being delivered to vulnerable people in my constituency?

Jocelyn Davies: You mentioned bed-and-breakfast accommodation, and local authorities will tell you that it is very expensive. I do not think that anyone would say that it meets the needs of vulnerable people, so it should be avoided wherever possible. The previous Minister with responsibility for housing was keen for the bed-and-breakfast issue to be tackled, and that the focus should be switched from dealing with people once they become homeless to prevention wherever possible, and we have continued with that.

In terms of empty properties—I am sorry, Peter, but you also asked me about empty properties, and I did not respond to you on that—we are about to publish a best practice guide that we have been working on for some time with Shelter Cymru. We will be issuing that to all local authorities, and it will not surprise you to hear me say that there is good practice out there among local authorities. Hopefully, the best practice guide will allow other local authorities to see whether there is

Weinidog am y cyflenwad tai yng Nghymru. Sonais am nifer yr eiddo—tua 23,000—sydd wedi bod yn wag ers chwe mis neu fwy yn ôl ystadegau'n ddiweddar. Beth yr ydych yn ei wneud, gydag awdurdodau lleol, i'w hannog i ddefnyddio'u pwerau i fynd i'r afael â phroblem cartrefi gweigion yn eu hardaloedd? Gwn fod ganddynt bwerau, ond a fyddai angen ichi ddarparu adnoddau ychwanegol er mwyn cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblem y cyflenwad? Credaf y gellid ymdrin â digartrefedd yn gyflymach o lawer petaem yn mynd i'r afael â chartrefi gweigion yn hytrach na gwastatáu meysydd glas i godi tai newydd.

O ran y grant Cefnogi Pobl, sydd ar gael yng Nghymru, cefnogir nifer fawr o oedolion a phobl agored i niwed yng Nghonwy a sir Ddinbych gan wasanaethau Cefnogi Pobl. Gwn fod cynlluniau wedi bod—mae rhyw faint o waith wedi'i wneud ar ailddosbarthu'r grant Cefnogi Pobl ledled Cymru. Pryd y mae eich adran yn disgwyl gallu penderfynu ynglŷn â hynny? Beth a wnewch i ddiogelu'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu ar gyfer pobl agored i niwed yn fy etholaeth?

Jocelyn Davies: Soniasoch am lety gwely a brecwast a bydd awdurdodau lleol yn dweud wrthych ei fod yn ddrud iawn. Ni chredaf y byddai neb yn dweud ei fod yn diwallu anghenion pobl agored i niwed, felly, dylid ei osgoi lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Yr oedd y Gweinidog blaenorol a oedd yn gyfrifol am dai'n awyddus i'r broblem gwely a brecwast gael sylw, a bod y pwyslais yn symud oddi wrth ymdrin â phobl ar ôl iddynt ddod yn ddigartref ac at atal lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Yr ydym wedi parhau â hynny.

O ran eiddo gwag—mae'n ddrwg gennyf Peter, ond gofynasoch chithau imi hefyd am eiddo gwag, ac ni chawsoch ateb gennyf am hynny—yr ydym ar fin cyhoeddi canllawiau arferion gorau yr ydym wedi bod yn gweithio arnynt ers tro gyda Shelter Cymru. Byddwn yn anfon y rheini at bob awdurdod lleol, ac ni fydd yn syndod ichi fy nghlywed yn dweud bod arferion da ar waith ymhliw awdurdodau lleol. Gobeithio y bydd y canllawiau arferion gorau'n cynorthwyo awdurdodau lleol eraill i

any practice that they can follow. Bringing together the housing and regeneration portfolios may offer opportunities that we did not have before, and my officials will have the opportunity to look at empty properties, now that the portfolios have been brought together, to see whether or not there are chances in that area that did not exist before.

You mentioned Supporting People services, and I know that a considerable amount of money is available per capita in your local authority area to be spent on Supporting People. Once the review has been completed, I will come back to you on that point, but no decision has yet been made.

David Lloyd: I welcome the oral statement on homelessness, Deputy Minister, and I commend the hard work done by the various agencies involved. It is good to note the significant progress made in this difficult field of homelessness. As you note in your statement, there has been a reduction of 11 per cent in the use of temporary accommodation for homeless households, and a reduction of 14 per cent in the number of households in bed-and-breakfast accommodation. We also note in passing that you are well on the way to meeting your target on additional affordable homes.

In terms of the statement, you mention in the third paragraph the launch of the 10-year homelessness plan last July. One of the main premises of the plan is the emphasis on prevention of homelessness in the first place. Will you expand on the contribution of your recent proposed housing LCO to give you the necessary legislative powers to prevent homelessness in the first place?

My final question will allow you time to clarify the success of the mortgage rescue scheme, the figures for which I note in passing. By the end of November last year, we had approved 215 applications, thereby helping 418 adults and 227 children to remain in their homes in Wales. Your natural modesty, Deputy Minister, prevented you from noting the comparative figures for England, which stand at 92 applications for the whole of England, as compared with 215

weld a oes unrhyw arferion y gallant eu dilyn. Drwy ddod â'r portffolio tai a'r portffolio adfywio ynghyd, efallai y bydd cyfleoedd yn codi nad oeddent ar gael o'r blaen, ac y bydd cyfle i'm swyddogion edrych ar eiddo gwag, gan fod y portffolios wedi'u cyfuno erbyn hyn, er mwyn gweld a oes cyfleoedd nad oeddent ar gael o'r blaen ar gael yn awr neu beidio.

Soniasoch am wasanaethau Cefnogi Pobl, a gwn fod swm sylweddol o arian y pen ar gael yn ardal eich awdurdod lleol i'w wario ar Gefnogi Pobl. Ar ôl cwblhau'r adolygiad, deuaf yn ôl atoch ynglŷn â'r pwynt hwnnw, ond nid oes dim wedi'i benderfynu eto.

David Lloyd: Yr wyf yn croesawu'r datganiad llafar am ddigartrefedd, Ddirprwy Weinidog, ac yn cymeradwyo gwaith caled yr amrywiol wasanaethau sy'n ymwneud â'r maes. Mae'n dda gweld y cynnydd sylweddol ym maes digartrefedd, sy'n faes anodd. Fel y dywedwch yn eich datganiad, mae gostyngiad o 11 y cant wedi bod o ran defnyddio llety dros dro i deuluoedd digartref a gostyngiad o 14 y cant yn nifer y teuluoedd sydd mewn llety gwely a brecwast. Sylwn hefyd, wrth fynd heibio, eich bod yn eithaf siŵr o gyrraedd eich targed ar gyfer tai fforddiadwy ychwanegol.

O ran y datganiad, yr ydych yn sôn yn y trydydd paragraff am lansio'r cynllun digartrefedd 10 mlynedd fis Gorffennaf y llynedd. Un o brif egwyddorion y cynllun yw'r pwyslais ar atal digartrefedd yn y lle cyntaf. A wnewch ymhelaethu ynglŷn â chyfraniad eich Gorchymyn arfaethedig yng'hylch tai yn ddiweddar er mwyn ichi gael y pwerau deddfu angenheidiol i atal digartrefedd yn y lle cyntaf?

Bydd fy nghwestiwn olaf yn rhoi amser ichi egluro llwyddiant y cynllun achub morgeisi, a nodaf y ffigurau wrth fynd heibio. Erbyn diwedd mis Tachwedd y llynedd, yr oeddem wedi cymeradwyo 215 o geisiadau, a thrwy hynny wedi cynorthwyo 418 o oedolion a 227 o blant i aros yn eu cartrefi yng Nghymru. Am eich bod yn naturiol wylaidd, Ddirprwy Weinidog, ni chrybwyllasoch y ffigurau cyfatebol ar gyfer Lloegr, sef 92 o geisiadau ar gyfer Lloegr i gyd, o'i gymharu

applications in Wales. You mentioned that you cannot continue to prioritise the mortgage rescue scheme indefinitely, but in view of its considerable contribution to the homelessness debate, how do you see the mortgage rescue scheme panning out over the next year or two?

Jocelyn Davies: Thank you for your support, Dai. All agencies need to work together, so I do not think that any one body can claim the credit for the good work that has been done in this area. A number of sectors must come together or the plan does not work. You mentioned the homelessness plan and the focus on prevention and early intervention, and, within the proposed legislative competence Order, we have requested that all the legislative powers on homelessness be devolved to the National Assembly, which would give it legislative powers in relation to housing for the first time.

3.30 p.m.

I have a number of executive powers in relation to homelessness, but they were set out in primary legislation that was meant to deal with people once they became homeless. Therefore, we are using executive powers that were created for entirely different purposes to prevent homelessness, because it is our view and that of every Assembly Member that, although we have to deal with people once they become homeless and there must be statutory duties in relation to that, it is far better to intervene earlier. Taking the powers over homelessness would allow us to pursue our agenda of early intervention better and more effectively. It would also allow the Assembly to have control over the legislation passed here.

You mentioned the mortgage rescue scheme, and I have the up-to-date figures on that. The figures that you gave, which were quite right, related to the statement last November. The current figures are that there have been 245 approvals to date, representing 477 adults and 253 children saved from eviction—because you have to face eviction to qualify for the

â 215 o geisiadau yng Nghymru. Dywedasoch na allwch barhau i flaenoriaethu'r cynllun achub morgeisi yn ddiddiwed, ond o ystyried ei gyfraniad sylwedol at y ddadl yngylch digartrefedd, pa ddyfodol yr ydych yn ei weld ar gyfer y cynllun achub morgeisi dros y flwyddyn neu ddwy nesaf?

Jocelyn Davies: Diolch ichi am eich cefnogaeth, Dai. Mae angen i bob asiantaeth gydwethio, felly ni chredaf y gall yr un corff hawlio'r clod am y gwaith da sydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Mae angen i nifer o sectorau ddod at ei gilydd neu ni wnaiff y cynllun weithio. Soniasoch am y cynllun digartrefedd a'r pwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar, ac, o fewn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig, yr ydym wedi gofyn am ddatganoli'r holl bwerau deddfwriaethol sy'n ymwneud â digartrefedd i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai hynny'n rhoi pwerau deddfwriaethol iddo dros dai am y tro cyntaf.

Mae gennyf nifer o bwerau gweithredol yng nghyswllt digartrefedd, ond yr oedd y rheini wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol ac unig ddiben honno oedd ymdrin â phobl ar ôl iddynt fynd yn ddigartref. Felly, yr ydym yn defnyddio pwerau gweithredol a grëwyd at ddibenion cwbl wahanol er mwyn atal digartrefedd, oherwydd ein barn ni a barn pob Aelod o'r Cynulliad yw, er bod yn rhaid inni ymdrin â phobl ar ôl iddynt fynd yn ddigartref, ac er bod yn rhaid cael dyletswyddau statudol yng nghyswllt hynny, ei bod yn well o lawer ymyrryd yn gynharach. Byddai cael y pwerau dros ddigartrefedd yn caniatáu inni fynd ar drywydd ein hagenda ymyrryd yn gynnar yn well ac yn fwy effeithiol. Byddai hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad gael rheolaeth dros y ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei phasio yma.

Soniasoch am y cynllun achub morgeisi, ac mae'r ffigurau diweddaraf gennyf ar gyfer hynny. Yr oedd y ffigurau a roesoch, a oedd yn gwbl gywir, yn berthnasol i'r datganiad fis Tachwedd diwethaf. Yn ôl y ffigurau cyfredol, mae 245 cymeradwyaeth wedi bod hyd yn hyn, sy'n golygu bod 477 oedolyn a 253 plentyn wedi'u hachub rhag cael eu troi

scheme. It was the first scheme to be launched in the UK, and it is the best scheme in the UK. You said that we have helped more families than have been helped in England, but, in fact, we have helped more families than all the other administrations put together. To date, the approved grant for mortgage rescue adds up to £17 million. That is not an insignificant sum to find from the social housing grant programme, and we cannot allow it to affect the main programme, because that is what funds new-build housing, which is what we want.

allan—oherwydd rhaid ichi fod yn wynebu cael eich troi allan er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun. Dyma'r cynllun cyntaf i'w lansio yn y Deyrnas Unedig, a dyma'r cynllun gorau yn y Deyrnas Unedig. Dywedasoch ein bod wedi cynorthwyo mwy o deuluoedd nag sydd wedi cael cymorth yn Lloegr, ond, a dweud y gwir, yr ydym wedi cynorthwyo mwy o deuluoedd na'r holl weinyddiaethau eraill gyda'i gilydd. Hyd yn hyn, cyfanswm y grant a gymeradwywyd ar gyfer achub morgeisi yw £17 miliwn. Nid yw hwnnw'n swm ansylweddol i'w ganfod o'r rhaglen grantiau tai cymdeithasol, ac ni allwn ganiatáu iddo effeithio ar y brif raglen, oherwydd dyna sy'n talu am godi tai o'r newydd, sef yr hyn yr ydym yn dymuno'i weld.

It is good news that the recession is now officially over, but we will need to keep a close eye on this, because the last thing we want is for more families to find themselves in bed-and-breakfast accommodation where their needs will not be met and the cost of which local authorities will find crippling, as they did before.

Mae'n newydd da bod y dirwasgiad yn awr ar ben yn swyddogol, ond bydd angen inni gadw llygad barcud ar hyn, oherwydd y peth olaf yr ydym yn dymuno'i weld yw bod rhagor o deuluoedd yn eu cael eu hunain mewn llety gwely a brecwast lle na ddiwellir eu hanghenion a bydd cost y llety hwnnw'n aruthrol i'r awdurdodau lleol, fel yr oedd o'r blaen.

The Presiding Officer: Thank you, Deputy Minister, for that statement.

Y Llywydd: Diolch, Ddirprwy Weinidog, am y datganiad hwnnw.

Datganiad Deddfwriaethol am y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)

Legislative Statement on the Proposed Carers Strategies (Wales) Measure

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Ddoe, gosodwyd gennyf y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru). Paratowyd hefyd femorandwm esboniadol a datganiad ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig. Pleser yw cael cyflwyno'r Mesur arfaethedig heddiw i'w ystyried gan y Cynulliad a charwn ddwyn i gof gyfraniad Helen Mary Jones ar ddechrau'r broses sydd wedi ein harwain at y Mesur arfaethedig sydd ger ein bron.

The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas): Yesterday, I laid the Proposed Carers Strategies (Wales) Measure. An explanatory memorandum and a written statement in relation to the proposed Measure were also prepared. Today, I am delighted to introduce the proposed Measure for Assembly consideration and I would like to remind you of the contribution of Helen Mary Jones at the beginning of the process that has led us to the proposed Measure that is before us.

Bydd holl Aelodau'r Cynulliad yn gwerthfawrogi ac yn croesawu cyfraniad gofalwyr at eu teuluoedd a'u cymunedau, a hynny'n ddi-dâl. Adlewyrchwyd hynny yn y dadleuon cadarnhaol ac adeiladol ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ynghylch gofalwyr a gawsom y llynedd yn y Cyfarfod Llawn ac yng Nghyfarfodydd craffu'r pwylgor deddfwriaeth. Yr wyf yn hyderus y bydd y gefnogaeth drawsbleidiol i ofalwyr yn parhau wrth i'r Mesur arfaethedig ynghylch gofalwyr gael ei ystyried.

Nid wyf am dreulio amser yn sôn am gyfraniadau gofalwyr, gan fy mod yn siŵr bod Aelodau'r Cynulliad eisoes yn llwyr ymwybodol ohonynt. Yr hyn yr wyf am ei wneud yw datgan fy niolchgarwch i'r gofalwyr oll a'm bwriad i barhau i ddod o hyd i ffyrdd i'w cefnogi wrth iddynt ysgwyddo eu dyletswyddau gofal gan sicrhau cynhaliaeth a gwelliannau o ran eu lles.

I thank the members of our stakeholder advisory group for their clear and well thought-out advice to the Welsh Assembly Government about the policy directions for the proposed Measure relating to carers. I have published the group's report to help to inform Assembly Members as the consideration of our proposed Measure proceeds.

When, in July 2009, the First Minister at that time, Rhodri Morgan, announced the inclusion of a proposed Measure for carers in our 2009-10 legislative programme, he mentioned our intention for it to ensure that young carers do not carry an inappropriate burden of care. However, the stakeholder advisory group suggested that there were alternatives to addressing that aspect through a proposed Measure covering carers of all ages.

The stakeholder group's view was that young carers are children first, and that their particular needs should be considered and addressed as an integral part of the care assessment and care management process that applies to all other vulnerable children and young people and their families. The stakeholder group outlined a range of

All Assembly Members will appreciate and welcome the contribution that carers make to their families and communities without receiving payment. That was reflected in the positive and constructive debates on our proposed legislative competence Order relating to carers that we had in Plenary last year and during the scrutiny of the legislation committee. I am confident that this cross-party support for carers will continue during the consideration of the proposed Measure relating to carers.

I do not propose to spend any time rehearsing the contributions that carers make, as I am sure that they are well understood by Assembly Members. What I will express is my gratitude to carers and my intention to continue to seek ways to support them in undertaking their caring role and to sustain them and improve their wellbeing.

Diolch i'r rhanddeiliaid a fu'n aelodau o'n grŵp cyngori am eu cyngor clir a rhesymegol i Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn â thrywydd polisi'r Mesur arfaethedig ynghylch gofalwyr. Yr wyf wedi cyhoeddi adroddiad y grŵp i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad wrth inni fwrw ati i ystyried ein Mesur arfaethedig.

Ym mis Gorffennaf 2009, pan gyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd, Rhodri Morgan, gynnwys Mesur arfaethedig ar gyfer gofalwyr yn ein rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2009-10, soniodd ein bod yn bwriadu iddo sicrhau na fydd gofalwyr ifanc yn ysgwyddo baich gofalu amhriodol. Fodd bynnag, awgrymodd y grŵp cyngori o randdeiliaid y gellid rhoi sylw i hynny drwy ddulliau eraill yn hytrach na thrwy Fesur arfaethedig a oedd yn ymwneud â gofalwyr o bob oedran.

Barn y grŵp rhanddeiliaid oedd mai plant yw gofalwyr ifanc yn gyntaf, ac y dylid ystyried eu hanghenion penodol a mynd i'r afael â hwy fel rhan hanfodol o'r broses o asesu gofal a rheoli gofal sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc arall sy'n agored i niwed ac i'w teuluoedd. Awgrymodd y grŵp rhanddeiliaid amrywiaeth o gyfleoedd amgen

alternative opportunities that exist through our Proposed Children and Families (Wales) Measure, through approaches associated with our policies to address child poverty and through the children and young persons strategies that would address more fully the needs of young carers, including those carrying an inappropriate burden of care. The advice of the stakeholder group is well reasoned, and after full and careful consideration of this matter we have decided not to include any proposals on that aspect in our proposed Measure. That demonstrates the benefits of our continuing process of constructive dialogue with stakeholders in the development of policy in this area. In providing that advice, the stakeholder group also considered that young carers should still be embraced by the broader information and engagement provisions.

This proposed Measure relating to carers seeks to address two of the main issues of concern that carers have identified to us: the provision of information to help them in undertaking their caring role, and for authorities to consult carers, both in the broader planning of their services and at an individual level when deciding which services are to be provided to a carer or the person for whom they care.

Our explanatory memorandum and my written statement outline the intended purpose and effect of the proposed Measure. It seeks to develop an integrated approach among authorities to the provision of information to, and the engagement of, carers by requiring them to develop strategies on these two aspects. The development of such strategies must be undertaken in consultation with carers and their representatives. The proposed Measure enables the Welsh Ministers to make further provision in regulations about the nature of that consultation and about the preparation and publication of the strategies. Importantly, it also places a requirement on authorities to implement the strategy.

The Welsh Ministers will be able to specify in regulations which should be the relevant authorities for the purpose of each strategy.

sydd ar gael drwy ein Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), drwy ddulliau sy'n gysylltiedig â'n polisiau i fynd i'r afael â thlodi plant a thrwy'r strategaethau plant a phobl ifanc a fyddai'n rhoi sylw llawnach i anghenion gofalwyr ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n ysgwyddo baich gofalu amhriodol. Mae rhesymeg cyngor y grŵp rhanddeiliaid yn gadarn, ac, ar ôl ystyried hyn yn drwyndl ac yn ofalus, yr ydym wedi penderfynu peidio â chynnwys cynigion ynglŷn â'r agwedd honno yn ein Mesur arfaethedig. Mae hynny'n dangos manteision ein proses barhaus o gynnal deialog adeiladol gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn. Wrth ddarparu'r cyngor hwnnw, yr oedd y grŵp rhanddeiliaid yn meddwl hefyd y dylai gofalwyr ifanc ddal i gael eu cynnwys yn y darpariaethau ehangach sy'n ymwneud â gwybodaeth ac ymgyslltu.

Nod y Mesur arfaethedig hwn sy'n ymwneud â gofalwyr yw mynd i'r afael â dau brif beth sy'n destun pryder y mae gofalwyr wedi sôn wrthym amdanynt: darparu gwybodaeth i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl gofalu, a bod awdurdodau'n ymgynghori â gofalwyr, wrth gynllunio'u gwasanaethau'n gyffredinol ac ar lefel yr unigolyn wrth benderfynu pa wasanaethau a ddarperir ar gyfer gofalwr neu ar gyfer y sawl y maent yn gofalu amdano.

Mae ein memorandwm esboniadol a'm datganiad ysgrifenedig yn sôn am ddiben y mesur arfaethedig a'r effaith y bwriedir iddo'i chael. Mae'n ceisio datblygu ymagwedd integredig ymhlið awdurdodau at ddarparu gwybodaeth ar gyfer gofalwyr ac at feithrin cysylltiad â hwy, drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatblygu strategaethau sy'n ymwneud â'r ddwy agwedd hyn. Rhaid datblygu strategaethau o'r fath drwy ymgynghori â gofalwyr ac â'u cynrychiolwyr. Mae'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rhagor o ddarpariaeth mewn rheoliadau ynglŷn â natur yr ymgynghori hwnnw ac ynglŷn â pharatoi a chyhoeddi'r strategaethau. Peth pwysig arall yw ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi'r strategaeth ar waith.

Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu pennu mewn rheoliadau pa awdurdodau a ddylai fod yn awdurdodau perthnasol at ddiben pob

We have broadly defined in the proposed Measure what ‘appropriate information and advice’ means, but we have also included regulation-making powers for the Welsh Ministers to make further provision in relation to this, as necessary.

For each strategy, we have included powers for the Welsh Ministers to designate an NHS organisation as the lead authority, and we have also required the lead authority to submit the strategy in draft to the relevant Welsh Minister so that we can be satisfied that it complies with the requirements imposed by the legislation.

As I have mentioned, the policy underpinning the development of the proposed Measure has been informed by the advice that we received from our stakeholder group. We will continue our dialogue with stakeholders as we move forward to develop the details of the regulations, guidance, and impact assessments that will flow from it. These will also be subject to the usual consultation in due course.

I commend this proposed Measure to you and look forward to the constructive contribution that the Assembly’s scrutiny process will make.

3.40 p.m.

Andrew R.T. Davies: Thank you, Deputy Minister, for your statement this afternoon and for the briefing that you kindly held in your office this morning for the party spokespeople.

One can only support a Measure that seeks to make information available to people who find themselves in the position of being a carer. Anyone can find themselves in that situation, and you would instinctively think that the plethora of organisations that exists would work together to provide help and support rather than having a silo mentality. However, many Assembly Members and elected members from all sorts of institutions will know that the letters from constituents in their postbags do not indicate such a willingness to work across boundaries to

strategaeth. Yr ydym wedi diffinio’n fras yn y Mesur arfaethedig beth yw ystyr ‘gwybodaeth a chyngor priodol’, ond yr ydym hefyd wedi cynnwys pwerau gwneud rheoliadau er mwyn i Weinidogion Cymru wneud rhagor o ddarpariaeth yn y cyswllt hwn, yn ôl y gofyn.

Ar gyfer pob strategaeth, yr ydym wedi cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ddynodi un o sefydliadau'r GIG yn awdurdod arweiniol, ac yr ydym hefyd wedi'i gwneud yn ofynnol i'r awdurdod arweiniol gyflwyno'r strategaeth ar ffurf ddrafft i'r Gweinidog perthnasol yng Nghymru er mwyn inni fod yn sicr ei bod yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Fel yr wyf wedi crybwyllyd, seiliwyd y polisi sy'n sail i ddatblygu'r Mesur arfaethedig ar y cyngor a gawsom gan ein grŵp rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i siarad â rhanddeiliaid wrth inni gamu ymlaen i ddatblygu manylion y rheoliadau, y canllawiau, a'r asesiadau effaith a fydd yn deillio ohono. Ymgynghorir ynglŷn â'r rhain hefyd maes o law, yn ôl ein harfer.

Yr wyf yn cymeradwyo'r Mesur arfaethedig hwn ichi gan edrych ymlaen at gyfraniad adeiladol proses graffu'r Cynulliad.

Andrew R.T. Davies: Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma ac am y cyfarfod y buoch mor garedig â'i gynnal yn eich swyddfa y bore yma i lefarwyr y pleidiau.

Rhaid cefnogi Mesur sy'n ceisio sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bobl sy'n eu cael eu hunain yn ofalwr. Gall unrhyw un ei gael ei hun yn y sefyllfa honno, a byddech yn meddwl yn reddfyl y byddai'r llu o sefydliadau sydd ar gael yn cydweithio i ddarparu cymorth a chefnogaeth yn hytrach nag arddel meddylfryd yngysig. Fodd bynnag, bydd llawer o Aelodau'r Cynulliad ac aelodau etholedig o bob math o sefydliad yn gwybod nad yw'r llythyrau y maent yn eu cael gan etholwyr yn dangos parodrwydd o'r fath i weithio ar draws ffiniau i ddarparu'r

provide that joined-up advice and support for carers who find themselves looking after people for the short, medium, or even the long term. Given the advances in medical care, and that people can live a lot longer with certain conditions, carers must accommodate their lifestyles to be of support to the individual and to the family or community unit they are supporting.

Therefore, one can only support the proposals that are, on the surface, to bring forward information and encourage cross-agency working, so that people get the advice that they are looking for when they turn to those agencies in their hour of need. However, I have some strong reservations. One issue that has struck me in the time in which I have been an Assembly Member is the importance of working with the education community, and particularly with schools, to identify young carers and their needs. That is a vital consideration. I fully hear what you have said, Deputy Minister, about the stakeholder group and about addressing my concerns by incorporating the education sector into other elements of the Government's legislative programme rather than in this proposed Measure, as you believe that that will fulfil that need. However, when you respond to me, I hope that you will spend some time touching on the importance of education and on the role that people in education have in ensuring that they facilitate support for young carers.

When I attended a meeting of the all-party group on carers a few weeks ago, it was illuminating to hear the Children's Commissioner for Wales's representative identifying the sheer number of child carers out there carrying out this type of work. Their caring responsibilities really detract from their childhood and the learning process that we should be able to give them, as a modern country in the twenty-first century.

In looking at the proposed Measure and at the various papers that you published with it, I see that the health authorities are to take the lead on this issue and also, I presume, hold the purse strings. Given the reorganisation in the health service, there is no longer any coterminousity between health authorities

cyngor a'r cymorth cydgysylltiedig hwnnw i ofalwyr sy'n eu cael eu hunain yn gofalu am bobl am gyfnod byr, am gyfnod canolig neu hyd yn oed am gyfnod hir. O gofio'r cynnydd ym maes gofal meddygol, a bod modd i bobl sydd â rhai cyflyrau fyw'n hwy o lawer, rhaid i ofalwyr addasu eu ffordd o fyw er mwyn bod yn gefn i'r unigolyn a'r teulu neu'r uned gymunedol y maent yn eu cynorthwyo.

Felly, rhaid inni gefnogi'r cynigion sydd, ar y wyneb, yn ceisio darparu gwybodaeth ac annog cydweithio rhwng asiantaethau, er mwyn i bobl gael y cyngor y maent yn ei geisio pan fyddant yn troi at yr asiantaethau hynny yn awr eu cyfyngder. Fodd bynnag, mae gennyl ychydig o amheuon cryf. Un peth sydd wedi fy nharo ers imi fod yn Aelod o'r Cynulliad yw pwysigrwydd gweithio gyda'r gymuned addysg, ac yn enwedig gydag ysgolion, er mwyn cael gwybod pwy yw'r gofalwyr ifanc a gweld beth yw eu hanghenion. Mae honno'n ystyriaeth hollbwysig. Deallaf yn iawn, Ddirprwy Weinidog, eich sylwadau ynglŷn â'r grŵp rhanddeiliaid ac ynglŷn ag ymateb i'm pryderon drwy gynnwys y sector addysg yn elfennau eraill rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, yn hytrach nag yn y Mesur arfaethedig hwn, gan eich bod yn credu y bydd hynny'n diwallu'r angen hwnnw. Fodd bynnag, wrth ichi ymateb imi, gobeithio y treuliwch rywfaint o amser yn sôn am bwysigrwydd addysg a'r rôl sydd gan bobl ym myd addysg i sicrhau eu bod yn hwyluso cymorth i ofalwyr ifanc.

Pan euthum i gyfarfod y grŵp hollbleidiol ar ofalwyr ychydig wythnosau yn ôl, yr oedd yn ddiddorol clywed cynrychiolydd Comisiynydd Plant Cymru'n dweud cynifer o blant sy'n ofalwyr ac yn gwneud y math hwn o waith. Mae eu cyfrifoldebau gofalu'n amharu'n fawr ar eu plentyndod a'r broses ddysgu y dylem allu ei rhoi iddynt, a ninnau'n wlad fodern yn yr unfed ganrif ar hugain.

Wrth edrych ar y Mesur arfaethedig ac ar y gwahanol bapurau a gyhoeddwyd gennych gydag ef, gwelaf mai'r awdurdodau iechyd a fydd yn arwain yn hyn o beth ac mai hwy hefyd, yr wyf yn cymryd, a fydd yn dal llinynnau'r pwrs. O gofio'r ad-drefnu yn y gwasanaeth iechyd, nid yw awdurdodau

and local authorities. Therefore, it would be interesting to hear your explanation of how that cross-boundary working will create the overall strategy that we hope will improve the service. I appreciate that the proposed Measure will place a statutory obligation on bodies but, to be frank, we have heard a lot of this language before. While I do not want to be cynical at such an early stage, we require an explanation of how you, as Deputy Minister—or your successors—can drive that joint working, so that there is no silo mentality. We want there to be an impetus for them to work together to create the joined-up solution that people aspire to deliver but that, sadly, does not always happen in reality.

There is extensive talk about strategies for this and that but, ultimately, it will be the outcomes that prove the success of this proposed Measure, and so it is the outcomes that we will want to measure. While attending a function at a Cardiff hotel this morning, I spoke to people about various aspects of healthcare, but many of them talked about the amount of strategies there are, but there is an inability to harness those strategies to deliver outcomes. Deputy Minister, in your explanatory memorandum and in your statement today, you have said that there will be an obligation to benchmark, so, hopefully, the outcomes that you aspire to will be achieved. Can you therefore give us a feel for the kind of measures that you, as Deputy Minister, would implement to make sure that those outcomes become a reality, rather than just banking on the strategy to deliver it? Thank you, Deputy Minister, for your statement.

Gwenda Thomas: Thank you for your opening words of support, Andrew. I agree with your point about joined-up action. Your reference to the education community was interesting. This was considered by the stakeholder group. I have published its report, which you will want to look at, no doubt, to see what the stakeholder group had to say about it. This proposed Measure can embrace all local government responsibilities, but the view of the stakeholder group was that a big-

iechyd ac awdurdodau lleol yn rhannu ffiniau rhagor. Felly, byddai'n dda cael esboniad gennych ynglŷn â sut y bydd y gweithio trawsffiniol hwnnw'n creu'r strategaeth gyffredinol a fydd, gobeithio, yn gwella'r gwasanaeth. Yr wyf yn sylweddoli y bydd y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd statudol ar gyrrf, ond a bod yn blwmp ac yn blaen, yr ydym wedi clywed y math hwn o iaith droeon o'r blaen. Er nad wyf am fod yn sinigaid mor gynnar yn y broses, mae gofyn inni gael esboniad ynglŷn â sut y gallwch chi, Ddirprwy Weinidog—neu'ch olynwyr—sbarduno'r cydweithio hwnnw, fel nad oes meddylfryd ynysig. Yr ydym am sicrhau bod symbyliad iddynt gydweithio er mwyn creu'r ateb cydgysylltiedig y mae pobl yn awyddus i'w wireddu, ond nad yw digwydd bob tro mewn gwirionedd, yn anffodus.

Mae llawer o sôn am strategaethau ar gyfer hyn a'r llall, ond, yn y pen draw, wrth ei ffrwythau y bernir llwyddiant y Mesur arfaethedig hwn, ac felly y canlyniadau y byddwn am eu mesur. Pan oeddwn mewn derbyniad mewn gwesty yng Nghaerdydd y bore yma, cefais sgwrs â phobl am wahanol agweddu ar ofal iechyd, ac yr oedd llawer ohonynt yn sôn am nifer y strategaethau sydd ar gael, ond am yr anallu i harneisio'r strategaethau hynny i sicrhau canlyniadau. Ddirprwy Weinidog, yn eich memorandwm esboniadol ac yn eich datganiad heddiw, yr ydych wedi dweud y bydd dyletswydd i feincnodi. Felly, gobeithio y cyflawnir y canlyniadau yr ydych yn anelu atynt. A allwch felly roi rhyw syniad inni o'r math o fesurau y byddech chi, fel Dirprwy Weinidog, yn eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y canlyniadau hynny'n cael eu gwreddu, yn hytrach na dim ond dibynnau ar y strategaeth i wireddu'r peth? Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad.

Gwenda Thomas: Diolch am eich geiriau agoriadol cefnogol, Andrew. Cytunaf â'ch pwyst ynglŷn â gweithredu cydgysylltiedig. Yr oedd eich cyfeiriad at y gymuned addysg yn ddiddorol. Ystyriwyd hyn gan y grŵp rhanddeiliaid. Yr wyf wedi cyhoeddi ei adroddiad, ac mae'n siŵr y byddwch am edrych arno i weld beth a oedd gan y grŵp rhanddeiliaid i'w ddweud yn ei gylch. Gall y Mesur arfaethedig hwn gynnwys holl gyfrifoldebau llywodraeth leol, ond barn y

bang approach to this at the very beginning would be unmanageable. Therefore, we have decided to cover, in the first instance, social services and possibly housing.

I want to work with the Minister for Children, Education and Lifelong Learning on this to consider the legal advice with regard to the role of governing bodies, for example. Also, there are issues of lifelong learning that were considered by the stakeholder group. The framework of the proposed Measure will allow it to be expanded. I have decided, in the first instance, to take a first-steps approach, which was, again, recommended by the stakeholder group.

You mentioned the role of education; I accept that it is important—schools may be the best places to identify young carers—and I have already mentioned the issue of lifelong learning. However, we will continue to work on that to see where we can go in the future on enhancing the parameters of local government responsibilities.

I agree that encouraging collaboration is crucial, not only for this proposed Measure, but for local government. It must be the way forward. The proposed Measure mentions two or more organisations setting up this strategy. I also agree that outcomes are important. There is a list of the provisions in section 5 of the proposed Measure, which cover provision for arrangements to monitor and evaluate the implementation of the strategy, and the review of the strategy and the timeliness of these reviews. What we propose as regulations for a first step will take us well along the road of what carers have been telling us.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn falch o groesawu'r datganiad gan y Dirprwy Weinidog a'r Mesur arfaethedig sydd ger ein bron heddiw. Mae'n gam pwysig i weithredu ymrwymiad pwysig iawn yn 'Cymru'n Un'. Yr wyf yn falch o weld y cam pwysig hwn ar y daith a ddechreuodd gyda'r cynnig am Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol a

grŵp rhanddeiliaid oedd na fyddai mynd ati i gynnwys popeth ar unwaith ar y cychwyn un yn rhywbeth y gellid ymdopi ag ef. Felly, yr ydym wedi penderfynu cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol yn y lle cyntaf ac, o bosibl, tai.

Yr wyf am weithio ar hyn gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, i ystyried y cyngor cyfreithiol ynglŷn â rôl cyrff llywodraethu, er enghraifft. Hefyd, ceir materion sy'n ymwneud â dysgu gydol oes a ystyriwyd gan y grŵp rhanddeiliaid. Bydd fframwaith y Mesur arfaethedig yn caniatáu iddo gael ei ehangu. Yr wyf wedi penderfynu, i ddechrau, y dylem fynd ati drwy gymryd y camau cyntaf, rhywbeth a argymhellwyd, unwaith eto, gan y grŵp rhanddeiliaid.

Soniasoch am rôl addysg; yr wyf yn derbyn ei bod yn bwysig—efallai mai ysgolion yw'r mannau gorau i gael gwybod pwy sy'n ofalwyr ifanc—ac yr wyf eisoes wedi crybwylly mater dysgu gydol oes. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio ar hynny i weld i ble y gallwn fynd yn y dyfodol i ymestyn hyd a lled cyfrifoldebau llywodraeth leol.

Cytunaf fod annog pobl i gydweithio'n hollbwysig, nid yn unig yng nghyswllt y Mesur hwn, ond yng nghyswllt llywodraeth leol. Nid oes dwywaith nad dyma'r ffordd ymlaen. Mae'r Mesur arfaethedig yn sôn am ddau sefydliad neu fwy'n sefydlu'r strategaeth hon. Cytunaf finnau fod canlyniadau'n bwysig. Mae rhestr o'r darpariaethau yn adrann 5 y Mesur arfaethedig sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau monitro a gwerthuso rhoi'r strategaeth ar waith a'i hadolygu, a'r amserlen ar gyfer yr adolygiadau hyn. Bydd y rheoliadau yr ydym yn eu cynnig yn gam cyntaf yn mynd â ni grynn bellter ar hyd y trywydd y mae gofalwyr wedi bod yn sôn wrthym amdano.

Helen Mary Jones: I am pleased to welcome the Deputy Minister's statement and the proposed Measure before us today. It is an important step in implementing a very important 'One Wales' commitment. I am pleased to see this important step in a journey that began with the proposal for a legislative competence Order that I brought before the

gyflwynais gerbron y Cynulliad flynyddoedd yn ôl, bellach. Diolch yn fawr i'r Dirprwy Weinidog am ei geiriau caredig ynglŷn â'm cyfraniad i—cyfraniad cymharol fach o gymharu â'r gwaith mae'r Dirprwy Weinidog a'i swyddogion wedi ei wneud i sicrhau, yn y lle cyntaf, bod y pwerau'n dod yma a bod y Mesur arfaethedig yn dod gerbron mor fuan wedi hynny.

I also add my thanks to the proposed Measure's stakeholder advisory group. I have had an opportunity to read its report, which is excellent, detailed and useful in guiding Ministers in taking this agenda forward. I have a few specific points to raise. I accept all of what the Deputy Minister has said about children and young people being children first, rather than carers. I understand, therefore, why the Deputy Minister intends to use the vulnerable children powers rather than carers powers to address the specific needs of young carers. However, I do have some concern that we must ensure that they do not get lost in the process of the general Measure.

Assembly some years ago. I thank the Deputy Minister for her kind words on my contribution—a relatively small contribution in comparison with the work that the Deputy Minister and her officials have done to ensure, in the first place, that the powers came here and that the proposed Measure has been laid before us so soon afterwards.

Yr wyf finnau'n diolch i'r grŵp rhanddeiliaid a fu'n cyngori ynglŷn â'r Mesur arfaethedig. Yr wyf wedi cael cyfle i ddarllen ei adroddiad, sy'n rhagorol, yn fanwl ac yn ddefnyddiol gan dywys Gweinidogion wrth iddynt fwrw ymlaen â'r agenda hon. Mae gennyd ychydig o bwyntiau penodol i'w codi. Yr wyf yn derbyn popeth y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i ddweud pan ddywedodd mai plant yn gyntaf yw plant a phobl ifanc, yn hytrach na gofalwyr. Yr wyf yn deall, felly, pam mae'r Dirprwy Weinidog yn bwriadu defnyddio'r pwerau ar gyfer plant agored i niwed yn hytrach na'r pwerau ar gyfer gofalwyr er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, yr wyf yn awyddus inni sicrhau nad ydynt yn mynd ar goll ym mhroses y Mesur cyffredinol.

3.50 p.m.

I know that it is not the Deputy Minister's intention that that should happen and I would like to seek reassurance from the Deputy Minister that she will fully take on board the views of the children's voluntary organisations—many, like Barnardo's, run excellent projects supporting young carers and have a great range of experience to bring to the table—the children's commissioner, who has been mentioned already by Andrew R.T. Davies, and young carers themselves about how those young carers should be supported and what exactly constitutes inappropriate caring responsibilities. We know that many young carers are afraid to come forward because they want to carry on looking after the person they are caring for—their mum, their dad, their sister or whoever it may be—and they want to be allowed to care, as well as to have space to be children. We have to listen to their views if we are to decide what is and what is not appropriate for a child to be doing. Of course, there will be

Gwn nad hynny yw bwriad y Dirprwy Weinidog a hoffwn gael sicrwydd ganddi y bydd yn llwyr ystyried barn y cyrff gwirfoddol dros blant—mae llawer ohonynt, megis Barnardo's, yn cynnal prosiectau rhagorol sy'n cefnogi gofalwyr ifanc ac mae ganddynt ystod eang o brofiad i'w gyfrannu—y comisiynydd plant, sydd wedi'i grybwyl eisoes gan Andrew R.T. Davies, a gofalwyr ifanc eu hunain, ynglŷn â sut y dylid cynorthwyo'r gofalwyr ifanc hynny a beth yn union yw cyfrifoldebau gofalu amhriodol. Gwyddom fod ar lawer o ofalwyr ifanc ofn gofyn am gymorth oherwydd eu bod am barhau i ofalu am y sawl y maent yn gofalu amdano—eu mam, eu tad, eu chwaer neu pwy bynnag y bo—a'u bod am gael gofalu yn ogystal â chael cyfle i fod yn blant. Rhaid inni wrando ar eu barn er mwyn penderfynu beth sy'n briodol i blentyn ei wneud a beth nad yw'n briodol. Wrth gwrs, bydd pob math o amrywiadau, gan ddibynnu ar oedran y plentyn a pha mor aml y mae'r

all sorts of variables, depending on the age of the child and how often the caring takes place and so on. It is vital that we listen to children and young people in that regard. I also seek the Deputy Minister's reassurance that she will listen to those organisations and to young carers about the duties that should be placed on educational establishments to be proactive in identifying and supporting young carers.

Secondly, I would like to ask the Deputy Minister to confirm that the powers that this proposed Measure will confer on Welsh Ministers are sufficient to enable the Deputy Minister and her successors to take action against any public bodies that fail to develop or deliver adequate strategies. Joint working is a major challenge. I concur with what the Deputy Minister has said, that it is vital to encourage collaboration, but I am afraid that it may be necessary to penalise, if that collaboration does not happen. I hope that the Deputy Minister will forgive me for being something of a pessimist in that regard. I should stress that that in no way reflects on the Deputy Minister and her intentions.

Finally, you would not expect me to finish speaking on this matter without a brief reflection on the process. We are talking about legislating in the fields of health and social care, potentially housing, and maybe the field of education. I think that the public believes that all of those fields are already devolved to the Assembly. Had I been able to bring forward a Member proposed Measure rather than a competence Order in this regard, the carers that we all wish to help and support would already have received that help. I concur with what the Deputy Minister said in her statement, that there is no need for us to reiterate how important their contribution is—appreciation of their contribution is widely spread across the Chamber and in the public domain. If we had had the legislative competence here, those carers would have been enjoying today the additional rights that I sought to deliver them and that the Assembly has supported unanimously. It is somewhat frustrating that we had our first debate on this matter in the Chamber early in 2008 and that it has taken so long to get to us

gofalu'n digwydd ac ati. Mae'n hollbwysig inni wrando ar blant a phobl ifanc yn y cyswllt hwnnw. Yr wyf hefyd yn gofyn am sicrwydd gan y Dirprwy Weinidog y bydd yn gwrando ar y sefydliadau hynny ac ar ofalwyr ifanc ynglŷn â'r dyletswyddau y dylid eu rhoi i sefydliadau addysg fod yn rhagweithiol wrth farnu pwy sy'n ofalwyr ifanc a'u cynorthwyo.

Yn ail, hoffwn ofyn i'r Dirprwy Weinidog gadarnhau y bydd y pwerau a drosglwyddir i Weinidogion Cymru drwy'r Mesur arfaethedig hwn yn ddigonol i alluogi'r Dirprwy Weinidog a'i holynwyr i gymryd camau yn erbyn unrhyw gyrrff cyhoeddus nad ydynt yn datblygu neu'n cyflwyno strategaethau digonol. Mae cydweithio'n her fawr. Yr wyf yn cytuno â'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i ddweud, ei bod yn hanfodol annog cydweithredu, ond mae arnaf ofn y gall fod angen cosbi, os nad yw'r cydweithredu hwnnw'n digwydd. Gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn maddau imi am fod yn dipyn o besimist yn y cyswllt hwnnw. Dylwn bwysleisio nad yw hynny'n adlewyrchu dim o gwbl ar y Dirprwy Weinidog a'i bwriadau.

Yn olaf, ni fyddch yn disgwyl imi orffen sôn am hyn heb fyfyrion sydyn ar y broses. Yr ydym yn sôn am ddeddfwriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, tai o bosibl ac efallai ym maes addysg. Credaf fod y cyhoedd yn meddwl bod y meysydd hynny i gyd eisoes wedi'u datganoli i'r Cynulliad. Petawn wedi gallu cyflwyno Mesur arfaethedig Aelod yn hytrach na Gorchymyn cymhwysedd yn y cyswllt hwn, byddai'r gofalwyr yr ydym i gyd yn awyddus i'w cynorthwyo a'u cefnogi wedi cael y cymorth hwnnw eisoes. Cytunaf â'r hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog yn ei datganiad, nad oes angen inni ddweud eto mor bwysig yw eu cyfraniad—mae eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi'n eang ar draws y Siambra ac ymhliith y cyhoedd. Petai'r cymhwysedd deddfwriaethol wedi bod gennym yma, byddai'r gofalwyr hynny wedi bod yn mwynhau'r hawliau ychwanegol heddiw yr oeddwn yn ceisio'u darparu ar eu cyfer a hawliau y mae'r Cynulliad wedi'u cefnogi'n unfrydol. Mae'n rhwystredig braidd inni gael ein dadl gyntaf ynglŷn â hyn yn y Siambra yn

to this point. That is in no way a criticism of the Deputy Minister or her officials, who have driven this forward as quickly as possible and were ready to bring forward a proposed Measure immediately. This is a classic example of a complex system that is unnecessarily complicated. I know that the carers' organisations have found it frustrating to have to lobby first here, then in Westminster, then back here again. It is a tribute to them that this process has gone so smoothly and that there have not been any questions about it at any level.

With those few words about a process that I hope we will not have to endure very much longer, I once again thank the Deputy Minister for bringing this proposed Measure before us. I am sure that the matters of concern that have been raised by Andrew R.T. Davies and me, and will be raised by others this afternoon, will be addressed during the scrutiny process. That said, I hope that that scrutiny process will be as swift as is consistent with good-quality scrutiny, because the carers, who we all value so much, have been waiting quite long enough for the enhanced rights that they so deserve.

Gwenda Thomas: Diolch yn fawr, Helen Mary, am eich cyfraniad ac am eich geiriau caredig agoriadol.

You mentioned the stakeholder advisory group. I would like to add my thanks to its members for the crucial work that they have done in supporting us as we have developed this proposed Measure. I very much value the work of the stakeholder group and hope that we can continue to work with them. You mentioned vulnerable children and I think that it is key that we work with the network of young carers. I am sure that Members have met members of that network. I can give you my utmost commitment that I fully intend to work with all partners in the field of children's services—the voluntary sector, the NHS and local government—to develop these regulations in the most meaningful way. We also need to recognise the opportunity to meet the needs of individual young carers through initiatives like the

gynnar yn 2008 a bod cymaint o amser wedi mynd heibio cyn inni gyrraedd y fan hon. Nid yw hynny'n feirniadaeth o gwbl ar y Dirprwy Weinidog nac ar ei swyddogion sydd wedi bwrw ymlaen â hyn cyn gynted ag a oedd yn bosibl ac a oedd yn barod i gyflwyno Mesur arfaethedig ar unwaith. Mae hyn yn enghraifft glasurol o system ddyrys sy'n ddiangen o ddryslyd. Gwn fod sefydliadau'r gofalwyr wedi'i chael yn rhwystredig gorfod lobio yma'n gyntaf, yna yn San Steffan, ac wedyn yn ôl yn y fan hon drachefn. Mae'n deyrnged iddynt fod y broses hon wedi mynd mor rhwydd ac nad oes cwestiynau wedi bod yn ei chylch ar ddim un lefel.

Gyda hynny o eiriau ynglŷn â phroses na fydd yn rhaid inni ei goddef lawer yn hwy gobeithio, diolch unwaith eto i'r Dirprwy Weinidog am ddod â'r Mesur arfaethedig hwn ger ein bron. Yr wyf yn siŵr y caiff y materion sy'n destun pryder a godwyd gan Andrew R.T. Davies a minnau, ac a godir gan bobl eraill y prynhawn yma, sylw yn ystod y broses graffu. Wedi dweud hynny, gobeithio y bydd y broses graffu honno cyn gyflymed ag y gall fod heb amharu ar ei safon, oherwydd y mae'r gofalwyr, yr ydym i gyd yn eu gwerthfawrogi gymaint, wedi bod yn aros yn hen ddigon hir am yr hawliau cryfach y maent yn eu gwir haeddu.

Gwenda Thomas: Thank you very much, Helen Mary, for your contribution and your kind opening remarks.

Soniasoch am y grŵp o randdeiliaid a fu'n ein cynggori. Hoffwn innau ddiolch i'w aelodau am y gwaith hollbwysig y maent wedi'i wneud yn ein cefnogi wrth inni ddatblygu'r Mesur arfaethedig hwn. Yr wyf yn gwerthfawrogi gwaith y grŵp rhanddeiliaid yn fawr ac yn gobeithio y gallwn barhau i weithio gyda hwy. Soniasoch am blant agored i niwed a chredaf mai'r allwedd yw inni weithio gyda'r rhwydwaith gofalwyr ifanc. Yr wyf yn siŵr bod Aelodau wedi cyfarfod ag aelodau'r rhwydwaith hwnnw. Gallaf ddweud wrthych fy mod wedi ymrwymo'n llwyr o ran fy mwriad i weithio gyda phob partner ym maes gwasanaethau plant—y sector gwirfoddol, y GIG a llywodraeth leol—i ddatblygu'r rheoliadau hyn yn y ffordd fwyaf ystyrlon. Mae angen inni sylweddoli hefyd fod cyfle inni ddiwallu

integrated family support teams. These will be with us on 1 April, and will identify carers within families with complex needs. The teams that will work on that exciting initiative will want to identify carers, and there are already ways in which we can develop more meaningful work with young carers.

On taking action against local authorities or organisations within the NHS that do not comply, these are things that we can develop through regulation, scrutiny and further meaningful collaboration and consultation with stakeholder groups, Members and anyone else who wants to contribute—especially carers and the people being looked after. There will need to be draft strategies made available to Welsh Ministers, not in order that they interfere in the development of the strategy, but so that they can be satisfied that the proposed strategies meet the requirements of the proposed Measure. You mention collaboration—I would say that word 100 times this afternoon if I could. It is important that this happens; the proposed Measure allows it to happen, and we will want to encourage it. I agree that we must not delay in taking the first steps towards meeting the needs of carers that this proposed Measure offers. I agree that this is overdue, but it is a first way forward, and I am sure that the Assembly will support the proposed Measure this afternoon.

Peter Black: I thank the Deputy Minister for the statement today and for the briefing that we had this morning. This proposed Measure has all-party support, and the provision of information for carers and other issues were in the manifesto of every party before the Assembly elections. I am grateful that we now have the opportunity to put that into place and to provide the extra support that carers need and to which they are entitled. I am pleased to say that the Welsh Liberal Democrats are happy to support this proposed Measure as it is conceived.

I have one question for the Deputy Minister.

anghenion gofalwyr ifanc unigol drwy gynlluniau megis y timau integredig cymorth i deuluoedd. Bydd y rhain gennym ar 1 Ebrill, a bydd modd cael gwybod pwy sy'n gofalu o fewn teuluoedd a chanddynt anghenion cymhleth. Bydd y timau a fydd yn gweithio ar y cynllun cyffrous hwnnw am ganfod pwy yw'r gofalwyr, ac mae ffyrdd ar gael eisoes inni ddatblygu gwaith mwy ystyrlon gyda gofalwyr ifanc.

O ran gweithredu yn erbyn awdurdodau lleol neu sefydliadau o fewn y GIG nad ydynt yn cydymffurfio, mae'r rhain yn bethau y gallwn eu datblygu drwy reoleiddio, craffu a threfniadau chydweithredu ac ymgynghori ystyrlon eraill gyda grwpiau rhanddeiliaid, Aelodau ac unrhyw un arall sy'n dymuno cyfrannu—yn enwedig gofalwyr a'r bobl y gofelir amdanynt. Bydd angen darparu strategaethau drafft ar gyfer Gweinidogion Cymru, nid er mwyn iddynt ymyrryd â datblygu'r strategaeth, ond er mwyn iddynt fod yn sier bod y strategaethau arfaethedig yn bodloni gofynion y Mesur arfaethedig. Yr ydych yn sôn am gydweithredu—byddwn yn dweud y gair hwnnw 100 o weithiau y prynhawn yma pe gallwn. Mae'n bwysig i hyn ddigwydd; mae'r Mesur arfaethedig yn caniatáu iddo ddigwydd, a byddwn am ei annog. Cytunaf fod yn rhaid inni beidio ag oedi wrth gymryd y camau cyntaf tuag at ddiwallu anghenion gofalwyr a gynigir yn y Mesur arfaethedig hwn. Cytunaf ei bod yn hen bryd gwneud hyn, ond mae hyn yn gam cyntaf ymlaen, ac yr wyf yn siŵr y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r Mesur arfaethedig y prynhawn yma.

Peter Black: Diolch i'r Dirprwy Weinidog am y datganiad heddiw ac am y cyfarfod a gawsom y bore yma. Mae pob plaid yn cefnogi'r Mesur arfaethedig hwn ac yr oedd darparu gwybodaeth i ofalwyr a materion eraill ym maniffesto pob plaid cyn etholiadau'r Cynulliad. Yr wyf yn ddiolchgar bod gennym y cyfle yn awr i wneud hynny ac i ddarparu'r cymorth ychwanegol y mae ei angen ar ofalwyr ac y mae ganddynt yr hawl i'w gael. Yr wyf yn falch o ddweud bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn falch o gefnogi'r Mesur arfaethedig hwn fel y'i lluniwyd.

Mae gennyf un cwestiwn i'r Dirprwy

A lot of this will come out in the scrutiny anyway, but there are issues on how these strategies are to work. As I understand it, from the briefing this morning and from the documentation, the Deputy Minister is giving the money and the responsibility for the strategies to the health boards. They will have a duty to work in collaboration with local authorities to produce strategies at one geographical level or another, depending on how many local authorities come on board with each strategy. First, I am concerned as to what the incentive is for a local authority to engage with this, other than the statutory stick that you are wielding in this proposed Measure. Secondly, what resources will local authorities be able to draw upon to fund their participation in the drawing up of the strategy? Thirdly, how will the lack of coterminosity work in this regard, given that all local health boards, with the exception of Powys, cover more than one local authority area? Health boards in north Wales, Gwent and mid and west Wales have a large number of local authorities in their area. In my own area, Abertawe Bro Morgannwg covers three local authorities, plus a bit of the Vale of Glamorgan and Rhondda Cynon Taf. What the Minister is asking of these bodies is—I use the word advisably—unprecedented co-operation in drawing up a joint strategy, both between individual local authorities and between local authorities and local health boards.

4.00 p.m.

I am interested in how the Deputy Minister will enforce that particular provision and ensure that what we all want to see happen does so and that strategies are produced in a meaningful way at a local authority level so that a multi local authority health board strategy is deliverable at the lowest possible level and all of the local authorities can sign up to it. How will accountability be built into the strategy? How will you ensure that the actions taken on board by the various member bodies are put in place and then monitored? All of that may be explained in the guidance, but I am concerned about how you envisage this working and being implemented, given the structures that we are

Weinidog. Codir llawer o hyn drwy'r broses graffu beth bynnag, ond mae ystyriaethau ynglyn â sut y bydd y strategaethau hyn yn gweithio. Yn ôl a ddeallaf, yn ôl y cyfarfod y bore yma, a'r dogfennau, mae'r Dirprwy Weinidog yn rhoi'r arian a'r cyfrifoldeb dros y strategaethau i'r byrddau iechyd. Bydd yn ddyletswydd arnynt gydweithio ag awdurdodau lleol i gynhyrchu strategaethau ar ryw lefel ddaearyddol neu'i gilydd, gan ddibynnau ar faint o awdurdodau lleol a fydd yn rhan o bob strategaeth. Yn gyntaf, yr wyf yn poeni beth yw'r cymhelliant i awdurdod lleol ymwneud â hyn, ar wahân i'r cymhelliad statudol sydd yn y Mesur arfaethedig hwn. Yn ail, pa adnoddau y bydd awdurdodau lleol yn gallu manteisio arnynt i dalu am gymryd rhan wrth lunio'r strategaeth? Yn drydydd, sut y bydd y ffaith nad yw'r awdurdodau'n rhannu ffiniau'n gweithio yn y cyswllt hwn, o gofio bod pob bwrdd iechyd lleol, ac eithrio Powys, yn gwasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol? Mae gan fyrrdau iechyd yn y gogledd, yng Ngwent ac yn y canolbarth a'r gorllewin nifer fawr o awdurdodau lleol yn eu hardal. Yn fy ardal i fy hun, mae Abertawe Bro Morgannwg yn gwasanaethu tri awdurdod lleol, ac ychydig o Fro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf. Yr hyn y mae'r Gweinidog yn gofyn i'r cyrff hyn ei wneud yw cydweithredu mewn modd na welwyd ei debyg o'r blaen—yr wyf yn defnyddio'r gair yn ofalus—wrth lunio strategaeth ar y cyd, rhwng awdurdodau lleol unigol a rhwng awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol.

Byddai'n dda gennyf wybod sut y bydd y Dirprwy Weinidog yn gorfodi'r ddarpariaeth benodol honno ac yn sicrhau bod yr hyn yr ydym i gyd am ei weld yn digwydd yn digwydd a bod strategaethau'n cael eu llunio mewn ffordd ystyrion ar lefel awdurdod lleol fel bod modd gweithredu strategaeth gan sawl awdurdod lleol a bwrdd iechyd ar y lefel isaf posibl a bod pob awdurdod lleol yn gallu ei chefnogi. Sut y sicrheir bod atebolrwydd yn rhan o'r strategaeth? Sut y sicrhewch fod y camau a gymerir gan y gwahanol gyrff sy'n aelodau'n cael eu rhoi ar waith ac wedyn yn cael eu monitro? Efallai y caiff hynny i gyd ei esbonio yn y canllawiau, ond yr wyf yn poeni ynglyn â sut yr ydych yn rhagweld y

starting with.

bydd hyn yn gweithio ac yn cael ei weithredu, o gofio'r strwythurau sydd gennym i gychwyn.

Gwenda Thomas: Perhaps I should begin by referring to the regulatory impact assessment section of the explanatory memorandum. I believe that there are good examples of collaboration and that it is not all bad news by far. We want to build on a commitment to collaboration, particularly with regards to the development of these regulations.

We have tried to provide as much information as we can about the context in the regulatory impact assessment that accompanies this proposed Measure. There are many variables that will influence the implementation costs. These include the arrangements to provide information to, and engage with, carers that are already in place in each relevant authority, and to what extent those need further strengthening and support. The existing carers infrastructure in each authority, and the extent to which this also needs strengthening and support, is another variable. There are some fine examples of this work in local authorities and in the NHS.

Gwenda Thomas: Efallai y dylwn ddechrau drwy gyfeirio at yr adran ar yr asesiad effaith rheoleiddiol yn y memorandwm esboniadol. Credaf fod enghreifftiau da o gydweithredu ar gael ac nad yw'n newyddion drwg i gyd o bell ffordd. Yr ydym am adeiladu ar sail ymrwymiad i gydweithredu, yn enwedig gyda golwg ar ddatblygu'r rheoliadau hyn.

Yr ydym wedi ceisio darparu cymaint o wybodaeth ag y gallwn am y cyd-destun yn yr asesiad effaith rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig hwn. Mae llu o ffactorau sy'n amrywio a fydd yn effeithio ar gostau'r gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys y trefniadau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gofalwyr a meithrin cysylltiad â hwy sydd eisoes ar waith ym mhob awdurdod perthnasol. Maent hefyd yn cynnwys i ba raddau y mae angen cryfhau'r rheini eto ac i ba raddau y mae angen rhagor o gymorth arnynt. Ffactor arall sy'n amrywio yw'r sealwaith sy'n bodoli eisoes ar gyfer gofalwyr ym mhob awdurdod, ac i ba raddau y mae angen cryfhau hyn hefyd a rhoi cymorth iddo. Mae nifer o enghreifftiau da o'r gwaith hwn i'w gweld mewn awdurdodau lleol ac yn y GIG.

Each carers strategy may well have differing investment proposals, reflecting the differing priorities of carers in each area. We are satisfied that, taking into account these variables, we have produced as robust and reliable an estimate of costs as possible. Our estimated costs are also in line with the implementation costs of the Scottish strategy, which is the only similar strategy in the UK.

Mae'n bosibl iawn y daw cynigion buddsoddi gwahanol gan bob strategaeth gofalwyr, gan adlewyrchu gwahanol flaenoriaethau gofalwyr ym mhob ardal. Yr ydym yn argyhoedddegig, ar ôl ystyried y ffactorau hyn sy'n amrywio, ein bod wedi cynhyrchu amcangyfrif mor gadarn a dibynadwy o'r costau ag sy'n bosibl. Mae ein hamcangostau hefyd yn unol â chostau gweithredu strategaeth yr Alban, sef yr unig strategaeth debyg yn y Deyrnas Unedig.

However, following our briefing this morning I did think that you were entitled to a very direct answer, and if I were to answer the question, 'Is the Welsh Assembly Government providing funding exclusively for the use of the NHS?' my answer would be 'no'. The funding is to meet the implementation costs of both the NHS and local authorities. Under the proposed Measure, as an NHS organisation is to be

Fodd bynnag, ar ôl ein cyfarfod y bore yma, yr oeddwn yn meddwl bod gennych hawl i gael ateb uniongyrchol iawn, a phetawn yn ateb y cwestiwn, 'A yw Llywodraeth y Cynulliad yn darparu arian i'w ddefnyddio gan y GIG yn unig?' fy ateb fyddai 'nac ydyw'. Diben yr arian yw talu costau gweithredu'r GIG a'r awdurdodau lleol. O dan y Mesur arfaethedig, gan fod un o sefydliadau'r GIG yn mynd i gael ei

designated the lead authority, the grant would be payable to it. It, in turn, would pass the appropriate amount of funding on to local authorities.

How the grant resources will be split between the NHS and the local authorities may vary across Wales, depending on what investment in local infrastructure is required and by whom. It will also depend on what actions each organisation is undertaking within the agreed strategy. Where actions in an agreed strategy that are being delivered by a third party, for example local carers' organisations, require funding, the NHS organisation would also have to ensure that the necessary arrangements are in place to pass the funding on to that third party. We must bear in mind that this does not only cover services provided directly by health boards and local government: it also covers services that they commission, and that gives it a broader aspect. I hope that that answers your question, and I take your point that the finer details will develop with the regulations and within the scrutiny process.

Darren Millar: Thank you, Deputy Minister, for your statement. I welcome this legislation, and I know that providing support to the carers in our society who need it is something that all Assembly Members care a great deal about. We would all agree that the inspiration for the proposed Measure came from the many thousands of carers across Wales who work day in, day out to support their loved ones. While I recognise the contributions that Members here today have made, particularly Helen Mary Jones and the Deputy Minister, it is the carers who need to remain in the driving seat as the regulations develop in the future.

I am concerned about some parts of the proposed Measure. You made reference, Deputy Minister, to the estimated financial implications of implementing it. Are those entirely adequate? While I accept that we need to provide better information, advice and guidance to carers on a statutory basis,

ddynodi'n awdurdod arweiniol, i'r corff hwnnw y byddai'r grant yn daladwy. Yn ei dro, byddai'n trosglwyddo'r arian priodol i awdurdodau lleol.

Mae'n bosibl y bydd sut y rhennir adnoddau'r grant rhwng y GIG a'r awdurdodau lleol yn amrywio o'r naill ran o Gymru i'r llall, gan ddibynnu ar y buddsoddiad y mae ei angen yn y seilwaith lleol a chan bwy. Bydd yn dibynnu hefyd ar y camau y mae pob sefydliad yn eu cymryd o fewn y strategaeth y cytunwyd arni. Lle y bydd angen ariannu camau a ddarperir gan drydydd parti mewn strategaeth y cytunwyd arni, er enghraifft gan fudiadau gofalwyr lleol, byddai sefydliad y GIG hefyd yn gorfol sicrhau bod y trefniadau angenreidiol ar waith i drosglwyddo'r arian i'r trydydd parti hwnnw. Rhaid inni gofio nad gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan fyrrdau iechyd a llywodraeth leol yw'r unig wasanaethau sy'n cael eu cynnwys yn hyn: mae'n cynnwys hefyd wasanaethau a gomisiynir ganddynt, ac mae hynny'n rhoi gwedd ehangach iddo. Gobeithio bod hynny'n ateb eich cwestiwn, a derbyniaf eich pwynt y bydd y manylion eraill yn datblygu gyda'r rheoliadau ac o fewn y broses graffu.

Darren Millar: Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Yr wyf yn croesawu'r ddeddfwriaeth hon, a gwn fod darparu cymorth y mae ei angen arnynt i'r gofalwyr yn ein cymdeithas yn rhywbeth y mae pob Aelod o'r Cynulliad yn poeni llawer iawn yn ei gylch. Byddem i gyd yn cytuno bod yr ysbyrdoliaeth ar gyfer y Mesur arfaethedig wedi dod gan filoedd lawer o ofalwyr ledled Cymru sy'n gweithio ddydd ar ôl dydd i gynorthwyo'u hanwyliaid. Er fy mod yn cydnabod y cyfraniadau y mae Aelodau yma heddiw wedi'u gwneud, yn enwedig Helen Mary Jones a'r Dirprwy Weinidog, mae angen sicrhau mai'r gofalwyr sydd wrth y llyw o hyd wrth i'r rheoliadau ddatblygu yn y dyfodol.

Yr wyf yn poeni am rai rhannau o'r Mesur arfaethedig. Cyfeiriasoch, Ddirprwy Weinidog, at amcangyfrifon goblygiadau ariannol ei roi ar waith. A yw'r rheini'n gwbl ddigonol? Er fy mod yn derbyn bod angen inni ddarparu gwell gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar gyfer gofalwyr ar sail

many of the carers to whom we have all spoken have made representations on the need for additional respite care, for example, for their loved ones, in order to give carers a break when they need it, so that they can continue to care. Have you built in sufficient resources to accommodate an increase in the provision of respite care across Wales on the back of the proposed Measure? We all recognise that it is, effectively, a spend-to-save scheme, as the Government saves money in the long term if those carers are not exhausted by the process of caring for their loved ones.

I, like others in the Chamber, am an avid fan of *Saga Magazine*. I was reading today that a section in its manifesto for the general election refers to the need to support carers, and it will no doubt be interested in the developments in the Assembly today. It also makes reference to the need for extra respite for carers as and when they need it. I would appreciate, Deputy Minister, if you could tell us whether your estimates include the provision of additional respite care.

I also take on board Peter Black's comments about carrots and sticks, or the penalties and incentives, for local authorities and other partners to engage in the development of these strategies. It is all very well to say that we need to tease this out in the regulations that will follow, but could you, Deputy Minister, give us an outline of your current thoughts? You must have some idea of the types of carrots and sticks that you want to introduce into this process.

I also find it strange that an NHS organisation will take the lead on this issue. You refer to that in section 5 of the proposed Measure and in the explanatory memorandum. Given that local authorities have tended to take the lead on carers' issues on the social care front in the past, is the NHS body the appropriate body to take the lead on this? Furthermore, I wonder whether there is an agenda behind the NHS taking the lead in respect of potential local government reorganisation in the future. Could you give us further information on that?

statudol, mae llawer o'r gofalwyr yr ydym i gyd wedi siarad â hwy wedi cyflwyno sylwadau ynglŷn â bod angen gofal seibiant ychwanegol, er enghraifft, ar gyfer eu hanwyliaid, i roi hoe i ofalwyr pan fydd ei hangen arnynt, er mwyn iddynt allu parhau i ofalu. A ydych wedi cynnwys digon o adnoddau er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth gofal seibiant ledled Cymru yn sgil y Mesur arfaethedig? Yr ydym i gyd yn cydnabod mai cynllun gwario i arbed ydyw, mewn gwirionedd, gan fod y Llywodraeth yn arbed arian yn y tymor hir os nad yw'r gofalwyr hynny'n cael eu llethu yn sgil gofalu am eu hanwyliaid.

Yr wyf fi, fel eraill yn y Siambwr, yn hoff iawn o *Saga Magazine*. Yr oeddwn yn darllen heddiw fod adran yn ei fanifesto ar gyfer yr etholiad cyffredinol yn cyfeirio at yr angen i gefnogi gofalwyr, a bydd ganddo ddiddordeb mae'n siŵr yn y datblygiadau yn y Cynulliad heddiw. Mae'n cyfeirio hefyd at yr angen am seibiant ychwanegol i ofalwyr pan fydd angen hynny arnynt. Byddwn yn gwerthfawrogi, Ddirprwy Weinidog, pe gallich ddweud wrthym a yw eich amcangyfrifon yn cynnwys darparu gofal seibiant ychwanegol.

Yr wyf hefyd yn derbyn sylwadau Peter Black ynglyn â'r cosbau a'r cymhellion i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ymwneud â datblygu'r strategaethau hyn. Digon rhwydd dweud bod angen inni ddatblygu hyn yn y rheoliadau a ddaw i'w ganlyn, ond a allech chi, Ddirprwy Weinidog, roi cip inni ar eich syniadau ar hyn o bryd? Rhaid bod gennych ryw syniad ynglŷn â'r math o gymhellion a chosbau yr ydych am eu cyflwyno i'r broses hon.

Yr wyf yn ei chael yn rhyfedd hefyd mai un o sefydliadau'r GIG a fydd yn arwain yn hyn. Cyfeiriwch at hynny yn adran 5 yn y Mesur arfaethedig ac yn y memorandwm esboniadol. O gofio bod awdurdodau lleol wedi tueddu i arwain o ran materion gofalwyr ym maes gofal cymdeithasol yn y gorffennol, ai'r GIG yw'r corff priodol i arwain yn hyn o beth? At hynny, tybed a oes agenda sydd wrth wraidd hyn, sef mai'r GIG sy'n arwain, o ran y posibilrwydd y bydd llywodraeth leol yn cael ei had-drefnu yn y dyfodol? A allech roi rhagor o wybodaeth inni am hynny?

Gwenda Thomas: I will start with the reference to *Saga Magazine*. Your party group has a commitment to intergenerational development—Nick talked about that last week—and I thank you for that. I do not know whether that is what you meant. However, you referred to carers and to Assembly Members here. Members might have been, might indeed be, and probably will be, carers. So, when we talk about ‘they’, they are us and we are them. This is as much for us as Members in our daily lives as for anyone else, and that has motivated me. You referred to carrots and sticks; this is the time to say, ‘You must collaborate, and we will make it a statutory requirement that you do so’. Having said that, I pay tribute to the Welsh Local Government Association and to various local authorities for the commitment that they and organisations in the NHS have already shown.

4.10 p.m.

You asked about the NHS taking the lead; that was a definite recommendation of the stakeholder group. The reason for that—and the point was well reasoned—was that the NHS, across its services, has more contact with carers than local authorities do. So, I think that where there is to be a designated lead then it is sensible for that to be the NHS organisation. However, that is not to say that local authorities will be lesser partners. That is not the intention; the intention is to have a clear lead, and for the NHS and local government to work together. I am sure that we will see a willingness to do so.

You also mentioned respite care. If you recall the Plenary debate on the carers LCO, I made it clear then that we intended to commission independent research on the provision of respite services and volume of demand for them. Therefore, this proposed Measure does not include respite services. However, the work that I have mentioned will enable us to make an informed consideration of an appropriate response and I am committed to that. Our carers Measure stakeholder advisory group was consulted about the terms

Gwenda Thomas: Dechreuaf gyda'r cyfeiriad at *Saga Magazine*. Mae gan grŵp eich plaid ymrwymiad i ddatblygu rhwng y cenedlaethau—soniodd Nick am hynny yr wythnos diwethaf—a diolch ichi am hynny. Ni wn ai dyna oedd gennych mewn golwg. Fodd bynnag, soniasoch am ofalwyr ac am Aelodau'r Cynulliad yma. Mae'n bosibl bod Aelodau wedi bod yn ofalwyr, efallai fod rhai'n ofalwyr ar hyn o bryd ac mae'n debyg y bydd rhai'n dod yn ofalwyr. Felly, pan fyddwn yn sôn amdanyst 'hwy', sôn amdanom ni'n hunain yr ydym. Mae a wnelo hyn gymaint â ni'r Aelodau yn ein bywydau beunyddiol ag â neb arall, ac mae hynny wedi bod yn gymhelliant imi. Soniasoch am gosbau a chymhellion; dyma'r adeg i ddweud, 'Rhaid ichi gydwethredu, a byddwn yn ei gwneud yn ofyniad statudol ichi wneud hynny'. Wedi dweud hynny, rhoddaf deyrnged i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac i wahanol awdurdodau lleol am yr ymrwymiad y maent hwy a sefydliadau yn y GIG wedi'i ddangos eisoes.

Gofynasoch am y GIG yn arwain; un o argymhellion pendant y grŵp rhanddeiliaid oedd hynny. Y rheswm dros hynny—ac yr oedd y rhesymeg yn gadarn—oedd bod gan y GIG, ar draws ei wasanaethau, fwy o gysylltiad â gofalwyr nag sydd gan awdurdodau lleol. Felly, credaf, wrth ddynodi arweinydd, mai doeth yw dynodi'r GIG ar gyfer y gwaith hwnnw. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y bydd awdurdodau lleol yn bartneriaid llai. Nid dyna'r bwriad; y bwriad yw cael arweinydd clir, a bod y GIG a llywodraeth leol yn cydweithio. Yr wyf yn siŵr y gwelwn barodrwydd i wneud hynny.

Soniasoch hefyd am ofal seibiant. Os cofiwch y ddadl yn y Cyfarfod Llawn am y Gorchymyn ynghylch gofalwyr, fe'i gwneuthum yn glir bryd hynny ein bod yn bwriadu comisiynu ymchwil annibynnol ynglŷn â darparu gwasanaethau seibiant ac i faint y galw amdanyst. Felly, nid yw'r Mesur arfaethedig hwn yn cynnwys gwasanaethau seibiant. Fodd bynnag, bydd y gwaith yr wyf wedi sôn amdan'o'n ein galluogi i ystyried ymateb priodol ar sail gwybodaeth ac yr wyf wedi ymrwymo i hynny. Ymgynghorwyd â'n

of the specifications for this research project, and the procurement process will be completed shortly. We expect to award the contract within the next few weeks and to receive the consultants' final report in summer 2010. Obviously, I will want to report that to Members.

Nick Ramsay: I listened with interest to what you had to say and I also concur with the thoughts expressed on the work that you and your officials have done on this.

grŵp rhanddeiliaid a fu'n ein cyngori ynglyn â thelerau'r fanylob ar gyfer y prosiect ymchwil hwn, a chwblheir y broses gaffael cyn bo hir. Yr ydym yn disgwyd dyfarnu'r contract yn ystod yr wythnosau nesaf a chael adroddiad terfynol yr ymgynghorwyr yn haf 2010. Mae'n amlwg y byddaf am gyflwyno adroddiad ynghylch hynny i'r Aelodau.

Nick Ramsay: Gwrandewais gyda diddordeb ar yr hyn a oedd gennych i'w ddweud a chytunaf hefyd â'r hyn a ddywedwyd ynglŷn â'r gwaith y mae eich swyddogion wedi'i wneud ar hyn.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.11 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.11 p.m.*

I wanted to follow on from what Andrew R.T. Davies said about the language used here today. I hope that we can ensure that the language that we have already heard during this process and today, at this proposed Measure stage, translates into action on the ground. We often hear about 'aspirations' and 'targets' and in many cases they are met, but too often they are not. As someone who recently attended a carers' conference in my constituency, and who has learned a great deal about the role of caring—I have had very little experience of it—over the last couple of years since becoming an Assembly Member, I, like you, am well aware of the challenges that face carers in Wales. I want to see this proposed Measure deliver real and tangible benefits for them, both now and in the future. The worst thing of all would be for them to feel that they have been listened to, to see the work that you have done and, at the end, to get very little out of it, given what went into it at the start. So, I hope that you will do what you can to reassure them that that will be the case.

Yr oeddwn am ddilyn yr hyn a ddywedodd Andrew R.T. Davies am yr iaith a ddefnyddir yma heddiw. Gobeithio y gallwn sicrhau bod yr iaith yr ydym eisoes wedi'i chlywed yn ystod y broses hon a heddiw, yn ystod y cyfnod hwn yn y Mesur arfaethedig, yn troi'n weithredu ar lawr gwlad. Byddwn yn aml yn clywed am 'ddyheadau' a 'thargedau' ac mewn llawer achos, fe'u cyflawnir, ond yn rhy aml, ni chânt eu cyflawni. Gan imi fynd i gynhadledd gofalwyr yn fy etholaeth yn ddiweddar, a chan imi ddysgu llawer am rôl gofalu—ychydig iawn o brofiad ohono yr wyf wedi'i gael—yn ystod y blynnyddoedd diwethaf ers dod yn Aelod o'r Cynulliad, yr wyf fi, fel chithau, yn ymwybodol o'r anawsterau sy'n wynebu gofalwyr yng Nghymru. Yr wyf am weld y Mesur arfaethedig hwn yn sicrhau manteision go iawn a sylweddol iddynt, yn awr ac yn y dyfodol. Y peth gwaethaf un fyddai iddynt deimlo bod rhywun wedi gwrando arnynt, eu bod yn gweld y gwaith yr ydych wedi'i wneud, ac yna, yn y pen draw, yn cael ychydig iawn yn ei sgîl, o ystyried yr hyn a wnaethpwyd ar y dechrau. Felly, gobeithio y gwnewch yr hyn a allwch i dawelu eu meddwl mai felly y bydd.

When I spoke in the debate on the report of the older people's commissioner last week, I mentioned the possibility of a 'life after caring' strategy. I know that your officials have looked at that in the past, but there seems to be a lack of progress on it. Therefore, I take this opportunity to ask you

Pan siaredais yn y ddadl am adroddiad y comisiynydd pobl hŷn yr wythnos diwethaf, crybwyllais y posiblwydd o gael strategaeth 'bywyd ar ôl gofalu'. Gwn fod eich swyddogion wedi ystyried hynny yn y gorffennol, ond mae'n ymddangos bod diffyg cynydd o ran hyn. Felly, manteisaf ar y

whether you will include a life after caring element in this proposed Measure, not necessarily in terms of older people, although I hope that does happen, but in terms of younger carers, because it is too easily forgotten that many children give up a large part of their social life, and, indeed, their academic life, to care for sick relatives. They too, at some point, enter a life after caring stage; it is not just about people in their sixties, seventies and eighties. There has been a lack of focus on that in the past. So, would you do what you can to ensure that all of those problems that affect younger carers are recognised in this proposed Measure? My goodness, do they not sacrifice a lot and take a burden off the NHS, often without thanks? I think that they would value that as a sign that your department and Assembly Members appreciate fully the important role that they undertake.

Finally, Presiding Officer—sorry, Deputy Presiding Officer, I did not notice the changeover. It was like the TARDIS. [Interruption.] Yes, I will stop digging myself a hole.

I agree with Helen Mary that it has taken a long time to get to this point. I know that the Government would have liked to have arrived at it much earlier, and does that not say a lot about the LCO system that we have been lumbered with?

Gwenda Thomas: Some of your remarks were quite special and I thank you for them. I also agree with you about the excellent work of officials. You talk about life after caring, and you put it very well indeed. I recognise the importance of this and, to the best of my knowledge, the provision of support here is more or less within the voluntary sector. We need to look at that element and at whether that can fit into existing strategies, and look at how we can support that particular group. In the case of children, they will be vulnerable children who may have spent years being carers. We need to look at the opportunities that existing legislation

cyfle hwn i ofyn ichi a fyddwch yn cynnwys elfen yn ymwneud â bywyd ar ôl gofalu yn y Mesur arfaethedig hwn, nid o anghenraíd o ran pobl hŷn, er fy mod yn gobeithio y bydd hynny'n digwydd, ond o ran gofalfwyr iau, oherwydd y mae'n rhy hawdd anghofio bod llawer o blant yn ildio rhan fawr o'u bywyd cymdeithasol, ac yn wir o'u bywyd academaidd, i ofalu am berthnasau sy'n sâl. Byddant hwythau, rywbryd, yn cyrraedd y sefyllfa lle y maent yn byw ar ôl gofalu; nid dim ond i bobl yn eu chwedegau, eu saithdegau a'u hwythdegau y mae hyn. Nid yw hynny wedi cael digon o sylw yn y gorffennol. Felly, a fyddch yn gwneud hynny a allwch i sicrhau bod yr holl broblemau hynny sy'n effeithio ar ofalwyr iau yn cael eu cydnabod yn y Mesur arfaethedig hwn? Er mwyn popeth, onid ydynt yn aberthu llawer ac yn ysgwyddo baich y GIG, a hynny'n aml heb ddiolch? Credaf y byddent yn gwerthfawrogi hynny, yn arwydd bod eich adran ac Aelodau'r Cynulliad yn llwyr sylweddoli'r rôl bwysig y maent yn ei chyflawni.

Yn olaf, Lywydd—mae'n ddrwg gennyf, Ddirprwy Lywydd, ni sylwais ar y newid. Yr oedd fel y TARDIS. [Torri ar draws.] Iawn, rhoddaf y gorau i fynd i dwll.

Yr wyf yn cytuno â Helen Mary ei bod wedi cymryd amser maith i gyrraedd y fan hon. Gwn y byddai'r Llywodraeth wedi hoffi cyrraedd yma'n gynharach o lawer, ac onid yw hynny'n dweud llawer am system feichus y Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a roddwyd inni?

Gwenda Thomas: Yr oedd rhai o'ch sylwadau'n arbennig iawn a diolch ichi amdanynt. Cytunaf â chi hefyd ynglŷn â gwaith rhagorol y swyddogion. Yr ydych yn sôn am fywyd ar ôl gofalu, ac yn mynegi'r peth yn dda iawn. Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd hyn, a hyd y gwn, mae'r cymorth a ddarperir yn y maes hwn yn cael ei ddarparu fwy neu lai o fewn y sector gwirfoddol. Mae angen inni edrych ar yr elfen honno i weld a all gydwedu â'r strategaethau presennol, ac edrych ar sut y gallwn gefnogi'r grŵp penodol hwnnw. O ran plant, byddant yn blant agored i niwed sydd o bosibl wedi treulio blynnyddoedd yn

provides in that respect as well. We should also consider, perhaps, talking to the children's commissioner, because this was covered in the booklet that was produced, which was launched here. Therefore, I will look at that element. Thank you for making the point.

ofalwyr. Mae angen inni edrych ar y cyfleoedd y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn eu cynnig yn y cyswllt hwnnw hefyd. Efallai y dylem ystyried siarad â'r comisiynydd plant hefyd oherwydd rhoddwyd sylw i hyn yn y llyfryn a gynhyrchwyd, a lansiwyd yma. Felly, edrychaf ar yr elfen honno. Diolch ichi am wneud y pwynt.

**Adroddiad Blynnyddol Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru**
**The Care and Social Services Inspectorate Wales Chief Inspector's Annual
Report**

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Alun Cairns.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns.

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn nodi adroddiad blynnyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2008-09. (NDM4382)

I welcome the publication of the annual report of the Care and Social Services Inspectorate Wales for 2008-09. This report provides an informative picture of social services and social care in Wales. It is pleasing that the findings of the report indicate that, overall, social services and social care continue to show an improvement in 2008-09. It is also pleasing to note that there are examples of innovative practice throughout Wales, and that people continue to report good levels of satisfaction with services they receive. This reflects the hard work and commitment of many people, strong leadership, and clear standards. However, challenges remain. Some services are not good enough and there continues to be widespread variation in the performance and the quality of services.

The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas): I move that

the National Assembly for Wales:

notes the Care and Social Services Inspectorate Wales annual report 2008-09. (NDM4382)

Yr wyf yn croesawu cyhoeddi adroddiad blynnyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2008-09. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun sy'n llawn gwybodaeth am wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n dda gennyf weld hefyd fod casgliadau'r adroddiad yn dangos bod gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, at ei gilydd, wedi parhau i wella yn ystod 2008-09. Da yw gweld hefyd fod engrifftiau o arferion arloesol i'w cael ledled Cymru, a bod pobl yn dal i ddweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau y maent yn eu cael. Mae hyn yn adlewyrchiad o waith caled ac ymrwymiad llawer o bobl, yn ogystal ag arweinyddiaeth gref a safonau clir. Fodd bynnag, mae heriau'n dal i'n hwynebu. Nid yw rhai gwasanaethau'n ddigon da, ac mae perfformiad ac ansawdd y gwasanaethau'n dal i amrywio'n fawr.

It is important that we all play a role in improving public services and driving forward improvements requires action on a

Mae'n bwysig inni i gyd gyfrannu at wella gwasanaethau cyhoeddus, ac er mwyn parhau i wella pethau, mae angen gweithredu ar sawl

number of levels and fronts to ensure that local authorities and their key partners can make progress in respect of improvements. The Social Services Improvement Agency, with the Association of Directors for Social Services Cymru, plays a key role in leading the improvement agenda in prioritising support to those areas that most need it.

Alun Cairns's amendment calls on the Welsh Assembly Government to take measures to protect vulnerable people by ensuring that recommendations made by CSSIW to registered persons are enforced. I oppose this amendment on the basis that it is unnecessary as CSSIW already draws on the range of regulatory enforcement options available to it to take measures to protect vulnerable people and enforce compliance. Where there is evidence to show continued underperformance or poor practice in regulated settings, CSSIW will use its powers to cancel registration and stamp out poor performance in care. CSSIW has also commenced a review of all its regulatory processes and practices, which will take place over the next six months. I will keep Members updated on the outcomes of that review.

Although the findings of the review of social services in Wales, 'Learning from the Journey', which drew together the learning from joint reviews over the last 10 years, highlighted improvements in leadership within local authorities and overall satisfaction with social services by people who use them, the report was also clear that there remains too big a gap between the best and worst performing authorities in Wales. Further, the pace of change in improving services is relatively slow. As highlighted in the report, the challenge for local authorities remains to sustain and increase the momentum of improvement, through modernising infrastructure rather than structural change.

lefel ac mewn sawl maes er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol a'u partneriaid allweddol yn gallu gwneud cynnydd wrth wella. Mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, yn gwneud cyfraniad allweddol wrth arwain yr agenda ar gyfer gwella a rhoi blaenoriaeth i gynorthwyo'r ardaloedd hynny lle y mae'r angen mwyaf.

Mae gwelliant Alun Cairns yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd camau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed drwy sicrhau bod argymhellion yr arolygiaeth yn cael eu gorfodi. Yr wyf yn gwrthwynebu'r gwelliant hwn gan ei fod yn ddiangen, oherwydd y mae'r arolygiaeth eisoes yn defnyddio nifer o opsiynau gorfodi wrth reoleiddio er mwyn cymryd camau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a sicrhau cydymffurfiaeth. Lle y ceir dystiolaeth i ddangos bod lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio yn dal i danberfformio ac yn dal i ddilyn arferion gwael, bydd yr arolygiaeth yn defnyddio'i phwerau i ganslo cofrestrriadau ac i fynd i'r afael â pherfformiadau gwael ym maes gofal. Mae'r arolygiaeth hefyd wedi dechrau adolygu ei holl brosesau a'i holl arferion rheoleiddio, a bydd yr adolygiad hwnnw'n mynd rhagddo dros y chwe mis nesaf. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ganlyniadau'r adolygiad hwnnw.

Mae'n wir bod casgliadau'r ddogfen 'Dysgu gwersi o'r siwrnai', sef adolygiad o wasanaethau cymdeithasol Cymru a oedd yn dwyn ynghyd y gwersi a ddysgwyd yn sgil cydadolygiadau dros y 10 mlynedd diwethaf, wedi tynnu sylw at y gwelliant o ran arweinyddiaeth o fewn awdurdodau lleol ac at fodlonrwydd cyffredinol ar y gwasanaethau cymdeithasol ymhliith y bobl sy'n eu defnyddio. Serch hynny, yr oedd yr adroddiad hefyd yn pwysleisio bod bwlch rhy fawr yn dal i fodoli rhwng yr awdurdodau sy'n gwneud orau a'r rhai sy'n gwneud waethaf yng Nghymru. At hynny, cymharol araf yw'r gwelliant o ran gwasanaethau. Fel y pwysleisir yn yr adroddiad, yr her i awdurdodau lleol yw cynnal a chynyddu momentwm y gwelliant, a hynny drwy foderneiddio'r seilwaith yn hytrach na newid strwythurau.

4.20 p.m.

I welcome the CSSIW's findings, in relation to meeting the needs of vulnerable adults and older people, that the social services provision is incrementally improving and supporting independent and person-focused care for service users. I am also pleased to learn that the privacy and dignity of care home residents is becoming an integral part of care planning and delivery. The further development of this fundamental area of care is supported by our programme on dignity and respect and further evidenced by the achievement of the Assembly Government's national minimum standards for single bedroom provision.

Tackling adult abuse is not just a matter for the Welsh Assembly Government, service providers, statutory authorities, regulatory bodies or the police to deal with. All citizens and organisations continue to have a key role in protecting vulnerable adults from abuse wherever and whenever it occurs. In my written Cabinet statements in February and July 2009, I outlined the various steps that we are taking to ensure that our protection of vulnerable adults arrangements continue to be effective, appropriate and robust. These include the setting up of the national project group on adult protection and the commissioning of an independent review of 'In Safe Hands'.

I welcome the CSSIW's ongoing national inspection of adult protection arrangements to help local authorities to better understand their individual performance, and I note that an overview report will be published by CSSIW in 2010. It is crucial that variation in performance and service quality within local authorities is narrowed as quickly as possible. I expect the CSSIW's national report to make clear recommendations for improvement. The University of Glamorgan has now produced a draft report on its review of the 'In Safe Hands' guidance, and its final report should be available in a matter of weeks. It is my

O ran ymateb i anghenion oedolion sy'n agored i niwed a phobl hŷn, yr wyf yn croesawu casgliadau'r arolygiaeth fod y gwasanaethau cymdeithasol sy'n cael eu darparu yn gwella'n raddol ac yn cynnig gofal annibynnol sy'n canolbwytio ar yr unigolyn i ddefnyddwyr y gwasanaethau. Yr wyf hefyd yn falch bod preifatrwydd ac urddas y bobl sydd mewn cartrefi gofal yn dod yn rhan ganolog o gynllunio a darparu gofal. Mae ein rhaglen ar urddas a pharch yn darparu ar gyfer datblygu'r maes gofal hanfodol hwn ymhellach, a cheir rhagor o dystiolaeth o hynny yn sgîl y ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer darparu ystafelloedd gwely sengl.

Nid gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru, darparwyr gwasanaethau, awdurdodau statudol, cyrff rheoleiddio neu'r heddlu yn unig yw mynd i'r afael â cham-drin oedolion. Mae gan bob dinesydd a sefydliad gyfraniad allweddol i'w wneud er mwyn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin lle bynnag a phryd bynnag y bydd hynny'n digwydd. Yn fy natganiadau Cabinet ysgrifenedig ym mis Chwefror a mis Gorffennaf 2009, soniais am y gwahanol gamau yr ydym yn eu cymryd i sicrhau bod ein trefniadau ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn dal yn effeithiol, yn briodol ac yn gadarn. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys sefydlu'r grŵp prosiect cenedlaethol ar gyfer amddiffyn oedolion a chomisiynu adolygiad annibynnol o 'Mewn Dwylo Diogel'.

Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod Arolygiaeth Safonau Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn dal i gynnal arolwg o drefniadau amddiffyn oedolion er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddeall eu perfformiadau hwy eu hunain, ac yr wyf yn ymwybodol y bydd adroddiad gorolwg am hynny'n cael ei gyhoeddi yn 2010. Mae'n hanfodol lleihau'r amrywiaeth ym mherfformiad ac ansawdd gwasanaethau awdurdodau lleol, a hynny cyn gynted ag sy'n bosibl. Disgwyliaf i adroddiad yr arolygiaeth wneud argymhellion clir ar gyfer gwella. Mae Prifysgol Morgannwg bellach wedi llunio adroddiad drafft ar ei

intention to publish its report as soon as possible after we have received it. The CSSIW overview report and the Healthcare Inspectorate Wales report of the review of adult protection arrangements in the NHS should be published in a few months. All three reports will be considered by our national project group on adult protection, which will provide Welsh Ministers with its advice and recommendations in the summer of 2010. I am also aware of the growing calls for new legislation in this area, and I am willing to consider the need to bring forward new legislative proposals within the framework of the powers devolved to the National Assembly for Wales where there is clear evidence that the existing legislative provision falls short of what is needed to effectively protect people who are not able to protect themselves.

The CSSIW's report on safeguarding arrangements also raises important questions about the effectiveness of local safeguarding children boards in fulfilling their functions and their relationship with the other partnerships. To support this objective, the CSSIW commissioned the development of a self-assessment and improvement tool for LSCBs. This has been rolled out to all boards, and it will reinforce the need for all professionals and organisations to share an equal commitment in protecting children. It is pleasing to note that local authorities and service providers have made steady improvement in meeting their statutory and regulatory duties towards children. Despite this steady improvement, it is concerning that the differences between the highest and lowest performing services remain pronounced and that they are more evident when local authorities and their partners work with children and families outside the system of child protection and court orders.

Safeguarding and promoting children's welfare will continue to be a key priority for the Welsh Assembly Government.

hadolygiad o ganllawiau 'Mewn Dwylo Diogel', a dylai ei hadroddiad terfynol fod ar gael ymhen ychydig wythnosau. Fy mwriad yw cyhoeddi'r adroddiad cyn gynted ag sy'n bosibl wedi iddo ddod i law. Dylid gweld cyhoeddi'r adroddiad gorolwg ac adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer amddiffyn oedolion yn y GIG ymhen ychydig fisoeedd. Bydd ein grŵp prosiect ar amddiffyn oedolion yn ystyried y tri adroddiad, gan roi cyngor ac argymhellion i Weinidogion Cymru yn haf 2010. Yr wyf hefyd yn ymwybodol o'r galw cynyddol am ddeddfwriaeth newydd yn y maes hwn, ac yr wyf yn barod i ystyried a oes angen cyflwyno cynigion deddfwriaethol newydd o fewn fframwaith y pwerau sydd wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru os oes tystiolaeth glir nad yw'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol yn ddigonol er mwyn amddiffyn pobl nad ydynt yn gallu eu hamddiffyn eu hunain.

Mae adroddiad Arolygiaeth Safonau Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru hefyd yn gofyn cwestiynau pwysig ynghylch pa mor effeithiol yw byrddau lleol diogelu plant wrth gyflawni eu swyddogaethau ac o ran eu perthynas â phartneriaethau eraill. Er mwyn cynorthwyo yn hyn o beth, comisiynodd yr arolygiaeth waith i ddatblygu pecyn hunanasesu a gwella ar gyfer y byrddau lleol. Mae'r pecyn wedi'i gyflwyno i bob bwrdd, a bydd yn pwysleisio drachefn fod angen i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad ymrwymo i'r un graddau i amddiffyn plant. Da o beth yw gweld bod awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau wedi gwneud cynnydd cyson wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol a'u dyletswyddau rheoleiddio ym maes plant. Er gwaethaf y gwella cyson hwn, mae'n destun pryder bod gwahaniaethau amlwg o hyd rhwng y gwasanaethau sy'n gwneud orau a'r rhai sy'n perfformio'n wael, a bod y gwahaniaethau hynny'n amlycach eto pan fydd awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gweithio gyda phlant a theuluoedd y tu allan i'r system amddiffyn plant a gorchmylion llys.

Bydd diogelu a hyrwyddo lles plant yn parhau'n flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Andrew R.T. Davies: I move amendment 1 in the name of Alun Cairns. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to take measures to protect vulnerable people in Wales by ensuring that recommendations of care and social services inspectors are enforced.

I welcome the report as an opportunity to look at the issues that the inspectorate has looked at over the past 12 months, to celebrate the improvements that the report identifies, but also to note with concern the large variations that the report identifies that you might find in your particular area. Just because you happen to live in that area does not mean that a completely different service is not being delivered down the road, and the Deputy Minister touched on those variations in her closing remarks.

I am a little surprised that the Deputy Minister and the Government are not prepared to accept the amendment. The amendment is broad, but it merely seeks to highlight concerns that have been raised over the last weeks and months about the ability, once a problem is identified after an inspection, for the recommendations to have real bite and real clout. This was graphically highlighted by various reports and various aspects of Assembly Members' work, because they see it on an ongoing basis. In closing, the Deputy Minister also touched on the reservations she has, and the possible need to revisit this issue via the legislative programme.

So, I am somewhat perplexed and surprised to see that the Deputy Minister and the Government have decided to reject the amendment. I think that that will come back to haunt you, Deputy Minister, because you are saying that there is no issue by rejecting the amendment, when there clearly is an issue. It is regrettable, and one can only assume that it is just raw politics to reject the amendment.

Andrew R.T. Davies: Cynigiaf welliant 1 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd camau i amddiffyn pobl agored i niwed yng Nghymru drwy sicrhau bod argymhellion yr arolygwyr gofal a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu gorfodi.

Yr wyf yn croesawu'r adroddiad fel cyfle i edrych ar y materion y mae'r arolygiaeth wedi edrych arnynt dros y 12 mis diwethaf ac i ddathlu'r gwelliannau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, ond mae'n gyfle hefyd i nodi gyda phryder yr amrywiadau mawr sy'n cael sylw yn yr adroddiad ac a allai fodoli yn eich ardal benodol chi. Nid yw'r ffaith eich bod yn digwydd byw yn yr ardal honno'n golygu na fydd gwasanaeth holol wahanol yn cael ei ddarparu nid nepell i ffwrdd, a chyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at yr amrywiadau hynny yn ei sylwadau wrth gloi.

Yr wyf yn synnu braidd nad yw'r Dirprwy Weinidog a'r Llywodraeth yn barod i dderbyn y gwelliant. Mae'r gwelliant yn eang, ond ei unig ddiben yw amlygu'r pryderon sydd wedi'u mynegi yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf ynghylch gallu'r argymhellion i gael dylanwad sy'n wirioneddol finiog a grymus ar ôl canfod problem yn sgil arolygiad. Amlygwyd hyn yn arbennig o glir mewn amryw o adroddiadau ac yn sgil amryw o agweddau ar waith Aelodau'r Cynulliad, oherwydd y maent yn ei weld yn digwydd o hyd. Wrth gloi, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog hefyd at yr amheuon sydd ganddi, a'r angen o bosibl i edrych eto ar y broblem hon drwy'r rhaglen ddeddfwriaethol.

Felly, yr wyf mewn penbleth ac yn synnu braidd o weld bod y Dirprwy Weinidog a'r Llywodraeth wedi penderfynu gwirthod y gwelliant. Credaf y byddwch yn edifar iawn am hyn, Ddirprwy Weinidog, oherwydd drwy wrthod y gwelliant yr ydych yn dweud nad oes problem yn bodoli, er ei bod yn amlwg bod problem. Mae hynny'n resyn o beth, ac mae'n rhaid tybio mai gwleidyddiaeth bur sydd wrth wraidd y ffaith eich bod yn gwirthod y gwelliant.

To touch on a couple of points in the report about ongoing delayed transfers of care, there is an issue about health and social workers working together to ensure that there is a joined-up approach, and the report refers to the strategic vision which is often not implemented on the ground because of a breakdown in communication. That is pertinent in some respects, given that we talked about the importance of collaborative working in the earlier statement on the proposed carers' strategies Measure. However, with regard to delayed transfers of care, which has been an ongoing issue for some time, this report identifies that there are still issues to be addressed. It also identifies the problems that causes for the patient's wellbeing, and the backlog it creates in the system, which prevents facilities from being released for other patients to benefit from in hospitals, and subsequently, prevents them from returning to their community to get better.

On the ability to deliver complete care plans, there is wide variance in the establishment of these care plans, which is of considerable concern. Some authorities can deliver within 16 or 17 days, but other authorities take 57 days to do so; the average is 20 days. Why is there this variance? This must be causing the Deputy Minister considerable concern, and I would be grateful if she would identify in her response the actions that she and her officials are taking to ensure that this can be made into a more uniform response. The fact that you live in a particular area should not mean that you should receive a poorer service.

On children's services, it is vitally important that the issues addressed by the report are taken on board by the Deputy Minister and her colleague, Leighton Andrews, in the field of education. I draw the Deputy Minister's attention to the part that refers to the way in which privately-fostered children become almost invisible to public organisations, and the consequent lack of prioritisation in this area. It is of grave concern that children are disappearing off the radar through privately-fostered schemes and systems. I would be grateful if the Deputy Minister could address

Gan gyfeirio at ambell bwynt yn yr adroddiad am yr oedi sy'n dal i ddigwydd wrth drosglwyddo gofal, un broblem yw nad yw gweithwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol yn cydweithio i sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu, ac mae'r adroddiad yn cyfeirio at y ffaith nad yw'r weledigaeth strategol yn aml yn cael ei rhoi ar waith ar lawr gwlad oherwydd diffyg cyfathrebu. Mae hynny'n berthnasol iawn mewn rhai ffyrdd, gan gofio ein bod wedi sôn am bwysigrwydd cydweithio yn y datganiad cynharach am y Mesur arfaethedig ynghylch strategaethau ar gyfer gofalwyr. Fodd bynnag, o ran oedi wrth drosglwyddo gofal, sydd wedi bod yn broblem barhaus ers tro, mae'r adroddiad yn dweud bod problemau nad ydynt byth wedi cael sylw. Cyfeirir hefyd at y problemau y mae hynny'n eu hachosi i les y claf, a'r dagfa y mae'n ei chreu yn y system. Mae'n golygu na ellir defnyddio cyfleusterau mewn ysbytai er budd cleifion eraill, ac mae hynny'n eu rhwystro rhag dychwelyd i'w cymunedau i wella.

O ran y gallu i ddarparu cynlluniau gofal cyflawn, mae'r sefyllfa'n amrywio'n fawr wrth edrych ar sut y cânt eu cyflwyno, ac mae hynny'n peri cryn bryder. Gall rhai awdurdodau eu darparu mewn 16 neu 17 diwrnod, ond mae'n cymryd 57 diwrnod i awdurdodau eraill wneud hynny; y cyfartaledd yw 20 niwrnod. Pam mae hyn yn amrywio? Rhaid bod hyn yn peri cryn bryder i'r Dirprwy Weinidog, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai ddweud yn ei hymateb pa gamau y mae hi a'i swyddogion yn eu cymryd i sicrhau bod yr ymateb yn fwy unffurf. Ni ddylai'r ffaith eich bod yn byw mewn ardal benodol olygu y dylech gael gwasanaeth gwaeth.

O ran gwasanaethau plant, mae'n allweddol bwysig i'r problemau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad gael sylw'r Dirprwy Weinidog a Leighton Andrews, ei chyd-Weinidog ym maes addysg. Tynnaf sylw'r Dirprwy Weinidog at y rhan sy'n cyfeirio at y modd y bydd plant sy'n cael eu maethu yn breifat bron yn mynd yn anweledig i sefydladau cyhoeddus, a'r diffyg blaenoriaethu sy'n dilyn yn y maes hwn. Yr wyf yn poeni'n arw fod plant yn diflannu o'r golwg drwy gynlluniau a systemau ar gyfer maethu'n breifat. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r

that in her response, or write to me about how she believes that that balance can be redressed.

On the engagement of social workers, I was grateful when the Deputy Minister identified before Christmas that the difficulties in recruiting social workers had been overcome. That statement might be a little premature; there is great movement in the field of social work, and the figures released for people looking to go into social work training indicate that there is a far bigger increase in people putting themselves forward. Recruitment is the key component in addressing the bridge between the aspiration and delivery, and we should be celebrating the work that is being done.

4.30 p.m.

However, in welcoming the report, one also highlights the key problems that it addresses and the fact that there is a serious piece of work to be done to ensure that we do not let down the people of Wales who feel vulnerable in relation to the issues raised.

Joyce Watson: The report shows that social services for adults and children have improved in Wales, not just last year but over the course of the past decade, a reflection of both the success of devolution and the commitment of successive Labour administrations to improving people's lives. Included in that is our excellent Deputy Minister, Gwenda Thomas. However, the quality of some services remains inconsistent and others have said that the report highlights inconsistencies in mid and west Wales. It is important that while we applaud the successes, we renew our commitment to improve services elsewhere. I agree with that.

I would like to take the opportunity to congratulate Carmarthenshire County Council in particular, which has had a favourable report following the inspection of its children's services. What came through in the report is how crucial a stable workforce

Dirprwy Weinidog roi sylw i hynny yn ei hymateb, neu ysgrifennu ataf i ddweud sut y mae'n credu y gellir adfer y cydbwysedd cywir.

O ran cyfraniad gweithwyr cymdeithasol, yr oeddwn yn ddiolchgar pan ddywedodd y Dirprwy Weinidog cyn y Nadolig fod y problemau wrth reciwtio gweithwyr cymdeithasol wedi'u goesgyn. Mae'n bosibl bod y datganiad hwnnw wedi'i gyhoeddi cyn pryd; mae llawer o symud ym maes gwaith cymdeithasol, ac mae'r ffigurau a gyhoeddwyd ynghylch pobl sy'n awyddus i gael hyfforddiant mewn gwaith cymdeithasol yn dangos bod cynnydd mwy o lawer yn nifer y bobl sy'n eu cynnig eu hunain. Reciwtio yw'r elfen allweddol er mwyn pontio'r bwlc rhwng dyhead a chyflawni, a dylem fod yn dathlu bod y gwaith yn cael ei wneud.

Fodd bynnag, wrth groesawu'r adroddiad, dylid tynnu sylw hefyd at y problemau mawr y cyfeirir atynt ac at y ffaith bod llawer iawn o waith i'w wneud o hyd i sicrhau nad ydym yn gwneud cam â phobl Cymru sy'n teimlo'n fregus yng nghyd-destun y materion a godwyd.

Joyce Watson: Mae'r adroddiad yn dangos bod gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant wedi gwella yng Nghymru, nid y llynedd yn unig ond yn ystod y degawd diwethaf, ac mae hynny'nadlewyrchiad o lwyddiant datganoli ac ymrwymiad y naill weinyddiaeth Lafur ar ôl y llall i wella bywydau pobl. Mae Gwenda Thomas, ein Dirprwy Weinidog ardderchog, yn rhan o hynny. Fodd bynnag, mae ansawdd rhai o'r gwasanaethau'n anghyson ac mae pobl eraill wedi dweud bod yr adroddiad yn tynnu sylw at anghysondebau yn y canolbarth a'r gorllewin. Wrth ganmol y llwyddiannau, mae'n bwysig inni adnewyddu ein hymrwymiad i wella gwasanaethau eraill. Cytunaf â hynny.

Hoffwn achub y cyfle i longyfarch Cyngor Sir Caerfyrddin yn benodol, sydd wedi cael adroddiad ffafriol ar ôl arolygu ei wasanaethau plant. Yr oedd yn amlwg yn yr adroddiad mor hanfodol yw gweithlu sefydlog, a dywedodd yr arolygiaeth mai

is, and the inspectorate reported that Carmarthenshire's strength is that it recognises that its primary asset is the stability and the resilience of the workforce. It found that there had been considerable success in retaining more experienced staff and management. In responding to this debate, I hope that that the Deputy Minister will join me in praise of Carmarthenshire County Council, but I also hope that she will outline what she will do to create a more stable workforce elsewhere, in particular by encouraging local authorities to retain experienced staff and to move away from the long-term reliance on temporary contracts.

The report also finds that there are many good examples of imaginative and successful services that promote independence and rehabilitation, however, the coverage beyond pilot schemes has remained a challenge. Therefore, I ask the Deputy Minister what she thinks can be done to build upon the successful schemes. I too hope that those successful pilot schemes can move into mainstream services. I am pleased to see the report talk about dignity in care as a key area of importance, because, as we all know, it is a key area of importance. If we found ourselves in care tomorrow, the least that we would expect would be some dignity. Again, I ask the Deputy Minister how she will move that agenda forward.

Jonathan Morgan: I would like to start by saying that, while I welcome this report this afternoon, it is time for us to get tough on poor performance: poor performance in local authorities; poor performance by some of our care homes; poor performance in some of the domiciliary care that is delivered; and, in some cases, poor performance by our regulatory body. This report is a fairly damning indictment of the way in which our inspection regime operates. Looking at some of the language in the report, I do not think that we can take much comfort when it talks about wide variations in performance and says that 'some services are not good enough', and that there is 'inconsistent quality' and a big gap between the best and worst. What also concerns me is that the

cryfder sir Gaerfyddin yw ei bod yn cydnabod mai ei chaffaeliad pennaf yw sefydlogrwydd a dycnwch y gweithlu. Canfu'r adroddiad fod cryn lwyddiant wedi bod o ran cadw staff a rheolwyr profiadol. Wrth ymateb i'r ddadl hon, gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn ymuno â mi i ganmol Cyngor Sir Caerfyddin, ond gobeithio hefyd y bydd yn amlinellu'r hyn y bydd yn ei wneud i greu gweithluoedd mwy sefydlog mewn mannau eraill, yn enwedig drwy annog awdurdodau lleol i gadw staff profiadol a pheidio â dibynnu yn y tymor hir ar gontactau dros dro.

Mae'r adroddiad yn dweud hefyd fod llawer o enghreifftiau o wasanaethau llwyddiannus sy'n dangos dychymyg ac sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac adsefydlu. Fodd bynnag, mae gwneud hynny y tu hwnt i gynlluniau peilot wedi parhau'n her. Felly, gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog beth y gellir ei wneud yn ei barn hi i adeiladu ar y cynlluniau llwyddiannus hynny. Yr wyf finnau hefyd yn gobeithio y gellir cyflwyno'r cynlluniau peilot hynny yn y gwasanaethau prif ffrwd. Yr wyf yn falch o weld bod yr adroddiad yn dweud bod trin pobl gydag urddas yn faes hynod o bwysig wrth ddarparu gofal, oherwydd, fel y gwyddom oll, mae'n hynod o bwysig. Pe bai'n rhaid inni gael gofal yfory, byddem yn disgwyl cael ein trin gyda rhywfaint o urddas, fan leiaf. Unwaith eto, gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog sut y bydd yn bwrw ymlaen â'r agenda honno.

Jonathan Morgan: Er fy mod yn croesawu'r adroddiad hwn y prynhawn yma, hoffwn ddechrau drwy ddweud ei bod yn bryd inni ymateb yn fwy llym i berfformiad gwael: perfformiad gwael gan awdurdodau lleol; perfformiad gwael gan rai o'n cartrefi gofal; perfformiad gwael o ran rhai o'r gwasanaethau gofal cartref a ddarperir; ac, mewn rhai achosion, perfformiad gwael gan ein corff rheoleiddio. Mae'r adroddiad hwn yn weddol ddamniol o'r modd y mae ein system arolygu'n gweithredu. Ac edrych ar rywfaint o'r iaith yn yr adroddiad, nid wyf yn credu y gallwn gael llawer o gysur wrth ddarllen am yr amrywiadau mawr mewn perfformiad a'r ffaith nad yw 'rhai gwasanaethau'n ddigon da' a bod y safon yn anghyson a bwlc mawr rhwng y gorau a'r

regulator is warning the Assembly Government about the difficulties in the financial climate ahead:

'If services continue with the same approach leading to slow, steady improvement, the changed environment is likely to mean that at best services standstill or at worst start to decline. Continuing to apply the same solutions will not meet the challenges of the future.'

The Assembly Government needs to examine that and discuss with the regulator what that means to ensure that our organisations and services are properly regulated and inspected and that services are able to improve.

Deputy Minister, I welcome the fact that you have already said that legislation might be required to improve the regulatory framework in Wales. That is a stark admission that there is a problem with the way that those regulatory functions are discharged at the moment. If you look in particular at chapter 5, which is supposed to be a critical analysis by CSSIW of its functions, you will see that it is very brief, and you, therefore, feel that it could have been much more thorough in its self-appraisal of how its functions are discharged. We have a problem with our regulatory body, which combines the functions of two previous organisations that worked in different ways. The majority of those now carrying out inspections within CSSIW were people who used to inspect social services, so we do not have that many people working in the system who know how to inspect a care home. They may know how to inspect social services, but they are not very good at inspecting care homes, where the bulk of our vulnerable elderly people may be looked after.

These concerns were revealed by a BBC Wales programme last year, which identified that many staff in care homes throughout Wales were not being vetted, trained and

gwaethaf. Yr wyf yn pryderu hefyd fod y corff rheoleiddio'n rhybuddio Llywodraeth y Cynulliad am yr anawsterau yn yr hinsawdd ariannol sydd o'n blaenau:

'Os bydd gwasanaethau'n parhau i ddefnyddio'r un ymagwedd, gan arwain at welliant araf, cyson, mae'r amgylchedd newydd yn debygol o olygu y bydd gwasanaethau'n aros yn eu hunfan ar y gorau neu hyd yn oed yn dechrau dirywio. Ni fydd parhau i ddefnyddio'r un datrysiau yn ddigonol i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol.'

Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad edrych ar hynny a thrafod gyda'r corff rheoleiddio beth yw ystyr hynny er mwyn sicrhau bod ein sefydliadau a'n gwasanaethau'n cael eu rheoleiddio'n briodol a bod gwasanaethau'n gallu gwella.

Ddirprwy Weinidog, yr wyf yn croesawu'r ffaith eich bod eisoes wedi dweud ei bod yn bosibl y bydd angen deddfwriaeth i wella'r fframwaith rheoleiddio yng Nghymru. Dyna gyfaddefiad diamheul bod problem gyda'r modd y caiff y swyddogaethau rheoleiddio hynny eu cyflawni ar hyn o bryd. O edrych yn benodol ar bennod 5, sydd i fod yn ddadansoddiad beirniadol gan Arolygiaeth Safonau Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o'i swyddogaethau, gwelwch fod y bennod honno'n un fer iawn. Y teimlad, felly, yw y gallasai'r arolygiaeth fod yn llawer mwy trylwyr wrth hunanwerthuso sut y mae'n cyflawni ei swyddogaethau ei hun. Mae gan ein corff rheoleiddio broblem, sef ei fod yn cyfuno swyddogaethau dau sefydliad blaenorol a weithiai mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd bellach yn cynnal arolygiadau o fewn yr arolygiaeth yn bobl a arferai arolygu gwasanaethau cymdeithasol, felly nid oes llawer iawn o bobl yn y system sy'n gwybod sut i arolygu cartref gofal. Efallai eu bod yn gwybod sut i arolygu gwasanaethau cymdeithasol, ond nid ydynt yn dda iawn am arolygu cartrefi gofal, ac mae'n bosibl mai yn y cartrefi hyn y mae'r rhan fwyaf o'n pobl hŷn sy'n agored i niwed yn cael gofal.

Datgelwyd y pryderon hyn mewn rhaglen gan BBC Wales y llynedd. Dangosodd y rhaglen honno nad oedd archwiliadau'n cael eu cynnal ar lawer o'r staff mewn cartrefi gofal

properly resourced, and that the monitoring procedures of CSSIW were not robust, particularly in ensuring that care homes comply with statutory legal requirements. Nor was the sanctions process being followed through sufficiently, and CSSIW itself was unable to assess the extent of poor performance, non-compliance and repeat offending because its own performance and information management procedures were not themselves robust.

It is all very well saying that we have big gaps in service delivery, in our care homes, and in the delivery of domiciliary care—and we have—but we also have some big gaps in the performance and ability of CSSIW itself, and I urge the Government to undertake a review of its ability to do the job of regulating. This is a serious matter. Just consider some of the negative attitudes revealed by a staff survey last year: only 34 per cent of its own staff believed that poor performance was effectively dealt with; only 35 per cent felt that the organisation was well-managed; worryingly, only 38 per cent believed that the organisation put the citizen at the heart of its decision making; and only 39 per cent believed that it was safe to speak out and challenge the way in which things were done within the organisation.

I know that these debates tend to be about the quality and provision of a variety of services within social services and care, but we have a fundamental problem at the heart of CSSIW itself, and you, Deputy Minister, need to get a grip.

Helen Mary Jones: I add my thanks to the chief inspector and his team for an excellent report that covers a wide range of issues. It is good to hear, as Joyce Watson and the Deputy Minister said, about the steady improvement overall. However, it is more worrying that the report also identifies the ongoing patchy nature of services, and it worrying that, to quote the report directly:

ledled Cymru, ac nad oeddent ychwaith yn cael eu hyfforddi'n ddigonol nac yn cael yr adnoddau angenrheidiol. Dangoswyd nad oedd gweithdrefnau monitro'r arolygiaeth yn gadarn, yn enwedig o ran sicrhau bod cartrefi gofal yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol statudol. At hynny, nid oedd y broses sancsiynau'n cael ei dilyn yn ddigon trwyadl, ac nid oedd yr arolygiaeth ei hun yn gallu asesu i ba raddau y ceid perfformiad gwael, diffyg cydymffurfio a throseddu parhaol, a hynny oherwydd nad oedd ei gweithdrefnau ar gyfer rheoli ei pherfformiad a'i gwybodaeth ei hun yn ddigon cadarn.

Mae'n ddigon rhwydd dweud bod gennym fylchau mawr yn y gwasanaethau a ddarperir, yn ein cartrefi gofal, ac yn y gwasanaethau gofal cartref a ddarperir—ac mae hynny'n wir—ond mae bylchau mawr hefyd ym mherfformiad a gallu'r arolygiaeth ei hun, ac yr wyf yn annog y Llywodraeth i gynnal adolygiad o allu'r arolygiaeth i gyflawni'r gwaith rheoleiddio. Mae hwn yn fater difrifol. Ystyriwch rai o'r agweddau negyddol a welwyd mewn arolwg ymhlið y staff y llynedd: dim ond 34 y cant o'r staff a gredai fod yr arolygiaeth yn delio'n effeithiol â pherfformiad gwael; dim ond 35 y cant a gredai fod y sefydliad yn cael ei reoli'n dda; mae'n peri cryn bryder mai dim ond 38 y cant a gredai fod y sefydliad yn rhoi'r dinesydd yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau; a dim ond 39 y cant a gredai ei bod yn ddiogel siarad yn gyhoeddus a herio ar goedd sut y mae pethau'n cael eu gwneud yn y sefydliad.

Gwn fod tuedd i'r dadleuon hyn ganolbwytio ar ansawdd a darpariaeth amrywiaeth o wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal, ond mae gennym broblem sylfaenol a chreiddiol yn yr arolygiaeth ei hun, ac mae angen i chi, Ddirprwy Weinidog, fynd i'r afael â phethau.

Helen Mary Jones: Diolchaf finnau i'r prif arolygydd a'i dîm am adroddiad ardderchog sy'n ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion. Fel y dywedodd Joyce Watson a'r Dirprwy Weinidog, mae'n braf clywed am y gwelliant cyson yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n destun pryder bod yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at natur anghyson y gwasanaethau'n barhaus, ac mae'n peri pryder, gan

ddyfynnu'n uniongyrchol o'r adroddiad, fod:

'the pace and degree of improvement in some areas is relatively slow and small year on year'.

I know that the Minister has acknowledged that as an issue in opening this debate.

The inspector is clearly right to praise the commitment of all those in the public, voluntary and independent sectors who have worked so hard to provide a huge range of services to more than 150,000 vulnerable children and adults who depend on them. We must never forget their dedication and commitment. However, to be frank, it is depressing that so many of the issues that the inspectorate raises have remained unchanged, year-on-year, over 10 years.

'cyflymder a graddau'r gwelliant mewn rhai meysydd yn gymharol araf a bychan o flwyddyn i flwyddyn'.

Gwn fod y Gweinidog wedi cydnabod bod hynny'n broblem wrth agor y ddadl hon.

Mae'n amlwg bod yr arolygydd yn llygad ei le wrth ganmol ymrwymiad pawb yn y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol sydd wedi gweithio mor galed i ddarparu amrywiaeth hynod o eang o wasanaethau i dros 150,000 o blant ac oedolion sy'n agored i niwed ac yn ddibynnol arnynt. Rhaid inni beidio ag anghofio eu hymroddiad a'u hymrwymiad. Fodd bynnag, a bod yn blwmp ac yn blaen, mae'n ddigalon bod cynifer o'r problemau y mae'r arolygiaeth yn cyfeirio atynt yn bethau nad ydynt wedi newid, o flwyddyn i flwyddyn, ers 10 mlynedd.

I want to refer to a few examples. On the issue of safeguarding children, the report says that there is still:

'a need for a change in the culture of how professionals and organisations work together',

and it is pertinent for us to ask how on earth that can still be so after all the reports that we have had, and all the serious case reviews. I know that there are many who work in the system who find this situation deeply frustrating, and I suspect that the Deputy Minister does, and I know that I do. Again, the report shows us that adult service users with complex needs are still being failed by too many authorities, and that has been a message in every report over the past 10 years. I could cite many other examples.

Hoffwn gyfeirio at ambell enghraift. O ran diogelu plant, mae'r adroddiad yn dweud bod:

'angen am newid yn y diwylliant o sut y mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd'.

ac mae'n iawn i ninnau ofyn sut yn y byd y gall pethau fod fel hyn ar ôl yr holl adroddiadau yr ydym wedi'u cael, a'r holl adolygiadau o achosion difrifol. Gwn fod llawer sy'n gweithio yn y system yn teimlo'n hynod o rwystredig o ran y sefyllfa hon. Yr wyf yn amau bod y Gweinidog yn teimlo felly, a gwn fy mod i. Unwaith eto, mae'r adroddiad yn dangos bod gormod o awdurdodau'n gwneud cam ag oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau pan fydd gan y rheini anghenion cymhleth, ac mae hynny wedi bod yn neges ym mhob adroddiad yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Gallwn roi sawl enghraift arall.

4.40 p.m.

The report clearly sets out how the workforce is key in delivering the change that is needed. The report highlights many questions that need addressing. The acting chief inspector asks:

Mae'r adroddiad yn dangos yn glir fod y gweithlu'n allweddol er mwyn cyflawni'r newid sy'n angenrheidiol. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at lawer o gwestiynau y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae'r prif arolygydd

dros dro'n gofyn:

'Has the pendulum moved too far towards prescription and process and in so doing is it stifling professional judgement?'

These issues will hopefully be addressed in the independent commission on social services that the Deputy Minister has put in place. However, front-line workers who I talk to tell me that that pendulum has swung too far. They further tell me, particularly those who work in children's services and in safeguarding children, that workloads are often so heavy that it is almost impossible for them to develop the kind of relationships with services users, particularly children and families, that they know they need to have to secure good outcomes.

The workload issues must be tackled, and I urge the Deputy Minister today to make this a priority in the issues that are addressed by the independent commission in the coming year. I realise that making this a priority will become more of a challenge as finances become tighter for local authorities, however, I submit that this must be a matter of priority. As someone who has worked in related fields, I know that the key to a successful social work outcome is the relationship—how well you know the person who you are providing services for, be they a child or an adult. Developing those relationships with children who social workers must deal with can be difficult because their previous experience of adults is bad. That development takes time and, too often, they do not have that time.

If we are to continue to improve the recruitment and retention of social workers—and it is pleasing to see that there is an improvement—we must give the profession the respect and recognition that it needs and deserves. In that context, and to reduce the inappropriate mobility in the workforce, which is still a problem in some local authorities, the Government should give serious consideration to the introduction of a

'A yw'r pendil wedi symud yn rhy bell tuag at ragnodi a phroses, gan lesteirio barn broffesiynol?'

Gobeithio y bydd y materion hyn yn cael sylw gan y comisiwn annibynnol ar wasanaethau cymdeithasol y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, mae gweithwyr rheng flaen y byddaf yn siarad â hwy'n dweud bod pethau wedi mynd yn rhy bell. At hynny, maent yn dweud wrthyf, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau plant a gwasanaethau diogelu plant, fod y llwyth gwaith yn aml mor drwm nes ei bod yn amhosibl iddynt ddatblygu'r math o berthynas gyda defnyddwyr y gwasanaethau, yn enwedig plant a theuluoedd, y gwyddant fod ei hangen arnynt er mwyn sicrhau canlyniadau da.

Rhaid mynd i'r afael â'r problemau sy'n ymwneud â'r llwyth gwaith, ac yr wyf yn annog y Dirprwy Weinidog heddiw i wneud hyn yn flaenorriaeth pan fydd y comisiwn annibynnol yn edrych ar bethau yn y flwyddyn sydd i ddod. Yr wyf yn sylweddoli y bydd blaenorriaethu hyn yn dod yn fwy oher wrth i gyllid awdurdodau lleol brinhau, ond credaf fod yn rhaid i hyn fod yn flaenorriaeth. Fel rhywun sydd wedi gweithio mewn meysydd tebyg, gwn mai'r peth pwysicaf er mwyn i waith cymdeithasol lwyddo yw'r berthynas—hynny yw, pa mor dda yr ydych yn adnabod y sawl y darperir y gwasanaethau ar ei gyfer, boed yn blentyn neu'n oedolyn. Gall fod yn anodd i weithwyr cymdeithasol feithrin y berthynas honno â'r plant y maent yn ymwneud â hwy, gan fod y plant wedi cael profiadau gwael gydag oedolion yn y gorffennol. Mae angen amser i feithrin y berthynas ac, yn rhy aml, nid oes gan y gweithwyr yr amser hwnnw.

Er mwyn parhau i wella'r modd y caiff gweithwyr cymdeithasol eu reciwtio a'u cadw—a da o beth yw gweld bod pethau wedi gwella—rhaid inni roi'r parch a'r gydnabyddiaeth i'r proffesiwn y mae'n eu haeddu ac y mae arno eu hangen. Yn y cyddestun hwnnw, ac er mwyn lleihau'r symud amhriodol yn y gweithlu, sy'n dal yn broblem mewn rhai awdurdodau lleol, dylai'r Llywodraeth fynd ati o ddifrif i ystyried

national set of terms and conditions for social workers. I realise that this is not without its challenges, but, again, I hope that the commission will address this matter, because if we want recognition for social work as a profession, we should be prepared to remunerate it as we do other professions. Doctors, nurses and teachers do not have different salaries depending on in which part of Wales they work, and neither should social workers.

Finally, the Care and Social Services Inspectorate Wales tells us that there needs to be a clear shared vision between citizens, policy makers, service commissioners and providers across agencies, at national, regional and local levels, in order to bring about the change that is needed. That is a small thing to say, but a big thing to deliver. However, it is vital, because this lack of a shared vision is ultimately the underlying cause of the failures to co-operate and to share information across different parts of the public sector. The Government's independent commission on social services—and I welcome the fact that the Deputy Minister has established it—gives us the opportunity to develop that shared vision, which needs to be based on principles such as that the strong have the duty to protect the weak and the rich a duty to contribute so that the poor and vulnerable are supported.

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you wind up please?

Helen Mary Jones: I have two more sentences, Deputy Presiding Officer.

The Deputy Presiding Officer: Please make them two short sentences then.

Helen Mary Jones: I would call these socialist values, but I would never claim that they are exclusive to socialism, and I think that they are shared across this Chamber. We must get that message out into the nation. It is clear from this report that without a clear shared vision, improvement will continue to be slow. Our vulnerable fellow citizens,

cyflwyno cyfres genedlaethol o delerau ac amodau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Yr wyf yn sylweddoli y bydd sawl her ynghlwm wrth hynny, ond, unwaith eto, gobeithio y bydd y comisiwn yn rhoi sylw i'r mater hwn, oherwydd er mwyn sicrhau bod gwaith cymdeithasol yn cael ei gydnabod yn broffesiwn, dylem fod yn barod i roi'r un math o dâl ar ei gyfer ag a gaiff proffesiynau eraill. Nid yw meddygon, nyrssys ac athrawon yn cael cyflogau gwahanol yn dibynnu ar ble yng Nghymru y maent yn gweithio, ac ni ddylai hynny fod yn wir am weithwyr cymdeithasol ychwaith.

Yn olaf, dywed Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wrthym fod angen cydweledigaeth glir ar draws asiantaethau a rhwng dinasyddion, llunwyr polisiau, comisiynwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau, a hynny ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, er mwyn sicrhau'r newid sy'n angenrheidiol. Haws dweud hynny na gwneud. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth hanfodol, oherwydd y diffyg cydweledigaeth yn y pen draw yw'r rheswm gwaeladol dros fethu cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus. Mae comisiwn annibynnol y Llywodraeth ar wasanaethau cymdeithasol—ac yr wyf yn croesawu bod y Dirprwy Weinidog wedi sefydlu hwnnw—yn rhoi'r cyfle inni ddatblygu'r gydweledigaeth honno, ac mae angen ei seilio ar egwyddorion megis dyletswydd y cryf i ddiogelu'r gwan a dyletswydd y cyfoethog i gyfrannu er mwyn cefnogi'r tlawd a'r rhai sy'n agored i niwed.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Helen Mary Jones: Mae gennyl ddwy frawddeg arall, Ddirprwy Lywydd.

Y Dirprwy Lywydd: A fyddch cystal â gwneud y rheini'n ddwy frawddeg fer, felly?

Helen Mary Jones: Byddwn yn galw'r rhain yn werthoedd sosialaidd, ond ni fyddwn byth yn honni eu bod yn gyfyngedig i sosialaeth yn unig, a chredaf eu bod yn werthoedd sy'n cael eu harddel drwy'r holl Siambra hon. Rhaid inni gyfleo'r neges hon wrth y genedl. Mae'n amlwg yn ôl yr adroddiad mai araf fydd unrhyw welliant heb gydweledigaeth

children and adults, deserve better, and so do the dedicated and committed, but too often frustrated, front-line staff.

glir. Mae ein cyd-ddinasyddion sy'n agored i niwed, yn blant ac yn oedolion, yn haeddu gwell, ac felly hefyd ein staff rheng flaen sy'n ymraddedig ac yn ymrwymedig, ond yn teimlo'n rhwystredig yn rhy aml.

Peter Black: Like many of the previous speakers, I believe that it is quite clear from the report that we are debating today that, although there have been improvements in some areas, we still have wide variation in service standards across Wales when it comes to dealing with vulnerable adults and with children. A number of issues highlighted by this report are of major concern and need to be addressed.

I will start with children's services, about which many issues have been raised, which is concerning. I have come across these in a number of reviews over the years, many of which have arisen as a result of the abuse of children. One issue, for example, on page 32 of this report, relates to the variable contribution of the police and the health service.

Peter Black: Er bod pethau wedi gwella mewn rhai meysydd, fel llawer o'r siaradwyr eraill, credaf ei bod yn eithaf amlwg yn ôl yr adroddiad yr ydym yn ei drafod heddiw fod ansawdd gwasanaethau ledled Cymru yn dal i amrywio'n fawr wrth ymdrin ag oedolion sy'n agored i niwed a phlant. Mae nifer o'r problemau a amlygir yn yr adroddiad hwn yn peri pryder mawr ac mae angen rhoi sylw iddynt.

Dechreuaf drwy sôn am wasanaethau plant. Cyfeiriwyd at lawer o broblemau gyda'r gwasanaethau hyn, ac mae hynny'n peri pryder. Yr wyf wedi dod ar draws y problemau hyn mewn nifer o adolygiadau dros y blynnyddoedd, a llawer ohonynt wedi deillio o gam-drin plant. Mae un broblem, er enghrafft, ar dudalen 32, yn cyfeirio at anghysondeb cyfraniad yr heddlu a'r gwasanaeth iechyd.

I know that failings in the sharing of information between the police and the health service were highlighted, particularly in the review of the Aaron Gilbert case in Swansea. That has also come out of other serious case reviews of children having been abused, and we find, again, that information is not being shared between the health service and the police. As I know from my experience of monitoring what happens in children's services in Swansea, the information passed from the health service to social services often comes in paper format, is addressed to a particular social worker, and does not reach the person for whom it is intended. Given that there is such a large turnover of social workers, it does not even get to the person dealing with the case. That is a concern—not only that the health service does not seem to trust electronic communications, but that the methods of communication are so crude and ineffective. That issue does need to be looked at. In Swansea's case, the intervention board is helping to address that. However, I have fears about the other 21 local authorities and their social services departments. Are they being subjected to the same level of scrutiny?

Gwn i fethiannau'n ymwneud â rhannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth iechyd gael sylw, yn enwedig yn yr adolygiad o achos Aaron Gilbert yn Abertawe. Cyfeiriwyd at hynny hefyd yn yr adolygiadau o achosion difrifol eraill lle yr oedd plant wedi cael eu cam-drin, ac unwaith eto, gwelwn nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y gwasanaeth iechyd a'r heddlu. Ar sail fy mhrofiad o fonitro'r hyn sy'n digwydd yng ngwasanaethau plant Abertawe, gwn fod y wybodaeth a roddir gan y gwasanaeth iechyd i'r gwasanaethau cymdeithasol yn aml yn dod ar ffurf fformat papur, wedi'i chyfeirio at weithiwr cymdeithasol penodol, ac yn methu cyrraedd y sawl y bwriedir iddi ei gyrraedd. Oherwydd bod cynifer o weithwyr cymdeithasol yn mynd ac yn dod, nid yw'r wybodaeth hyd yn oed yn cyrraedd y sawl sy'n ymdrin â'r achos. Mae hynny'n peri pryder—nid yn unig oherwydd ei bod yn ymddangos nad yw'r gwasanaeth iechyd yn ymddiried mewn gohebiaeth electronig, ond bod y dulliau cyfathrebu mor gyntefig ac aneffeithiol. Mae angen edrych ar hynny. Yn achos Abertawe, mae'r bwrdd ymyrraeth yn helpu i roi sylw i

hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu am yr 21 awdurdod lleol arall a'u hadrannau gwasanaethau cymdeithasol. A oes gwaith craffu yn cael ei wneud i'r un graddau?

Like Andrew R.T. Davies, I was concerned about the reference on page 35 to the privately fostered children who have become almost invisible to public organisations. Later in the report, when it discusses foster carers again, it states that they often do not get enough information about the children whom they are being asked to look after either before or during a placement. The issue of communication comes up time and again. If you do not get the communication right and if professionals are not talking to each other about the children in their care, those children are being put at greater risk. These issues need to be addressed. I have a great deal of confidence in the inspectorate, but I do think that how the various organisations are communicating with each other needs to be looked at specifically.

On page 34 of the report, the local safeguarding children boards are identified as being uneven in performance. I am glad that the Health, Wellbeing and Local Government Committee has agreed to look at that issue to see how effective the local safeguarding children boards are. Issues have been identified in the report, such as attendees at the boards not being of sufficient seniority to deliver, and the unsure nature of resourcing and business support. Perhaps we could look at that as a committee to help to find solutions.

There is massive variation throughout Wales in the speed of assessments and in care management for vulnerable adults, too, and, again, the rate of progress is slow. It is easy to be critical, and I know how difficult it is for the professionals working in social services to address these issues. I know how difficult it is for local councillors and for the councils themselves. Much of this comes down to resources and the resources available to social services. However, as things get tighter, will the resources available be at a level necessary to address many of these concerns? These resource issues do not just relate to social services departments, but also

Fel Andrew R.T. Davies, yr oeddwn yn pryderu yngylch y cyfeiriad ar dudalen 35 at blant sy'n cael eu maethu'n breifat, sydd bron yn anweledig i sefydliadau cyhoeddus. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad, wrth drafod gofalwyr maeth eto, nodir nad ydynt yn aml yn cael digon o wybodaeth am y plant y gofynnir iddynt ofalu amdanynt, a hynny cyn eu lleoli nac yn ystod lleoliad. Mae cyfathrebu'n broblem sy'n dod i'r amlwg dro ar ôl tro. Os nad ydych yn gallu cyfathrebu'n iawn ac os nad yw gweithwyr proffesiynol yn siarad â'i gilydd am y plant sydd o dan eu gofal, mae'r plant hynny'n wynebu mwy o berygl. Mae angen rhoi sylw i'r problemau hyn. Mae gennyd lawer o ffydd yn yr arolygiaeth, ond credaf fod sut y mae'r gwahanol sefydliadau'n cyfathrebu â'i gilydd yn rhywbeth y dylid edrych arno'n benodol.

Ar dudalen 34 yn yr adroddiad, dywedir bod perfformiad y byrddau lleol diogelu plant yn amrywio. Yr wyf yn falch bod y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi cytuno i edrych ar hynny er mwyn gweld pa mor effeithiol yw'r byrddau lleol diogelu plant. Cyfeiriwyd at broblemau penodol yn yr adroddiad, megis yffaith nad yw'r rhai sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y byrddau mewn swyddi digon uchel i gyflawni pethau, a natur ansicr yr adnoddau a'r cymorth busnes. Efallai y gallem edrych ar hynny fel pwylgor i helpu i ddod o hyd i ffyrdd o ddatrys y problemau.

At hynny, mae cyflymder yr asesiadau a'r modd y rheolir gofal i oedolion sy'n agored i niwed yn amrywio'n fawr iawn ledled Cymru, ac, unwaith eto, araf yw'r cynnydd. Mae'n hawdd bod yn feirniadol, a gwn mor anodd ydyw i'r gweithwyr proffesiynol ym maes gwasanaethau cymdeithasol roi sylw i'r materion hyn. Gwn mor anodd yw pethau i gynghorwyr lleol a'r cyngorau eu hunain. Mae llawer o hyn yn ymwneud ag adnoddau a'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, wrth i arian brinhau, a fydd digon o adnoddau ar gael i roi sylw i lawer o'r pryerdon hyn? Nid i'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn unig

to the health service and the police.

y mae'r problemau hyn sy'n ymwneud ag adnoddau'n berthnasol, ond i'r gwasanaeth iechyd a'r heddlu hefyd.

Helen Mary Jones: I am struck by what you say about resourcing. Do you agree that there is an issue with local authorities needing to make some of these things a priority?

Peter Black: That was where I was going before you interrupted, Helen Mary. Local authorities do need to prioritise these issues, but we must also recognise that there are many other issues to consider, too. Sometimes, it is only when there is a crisis in the social services department that it brings home to councillors how they have been failing to resource the department adequately up to that point. That needs to be driven home to all local councils: they cannot afford to cut corners with the resources that they provide to social services departments.

Helen Mary Jones: Mae'r hyn a ddywedwch am adnoddau'n ddiddorol. A gytunwch mai'r broblem yw bod angen i awdurdodau lleol flaenoriaethu rhai o'r pethau hyn?

Peter Black: Dyna yr oeddwn am ei ddweud cyn ichi dorri ar fy nhraws, Helen Mary. Mae angen i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r pethau hyn, ond rhaid inni hefyd gydnabod bod cynifer o bethau eraill i'w hystyried hefyd. Weithiau, dim ond pan fydd argyfwng yn yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol y bydd cynghorwyr yn sylweddoli nad ydynt wedi bod yn rhoi adnoddau digonol i'r adrannau hyd hynny. Mae angen pwysleisio hynny wrth bob cyngor lleol: ni allant fforddio torri corneli gyda'r adnoddau y maent yn eu darparu i adrannau gwasanaethau cymdeithasol.

David Lloyd: It is a pleasure to contribute to this debate on the Care and Social Services Inspectorate Wales annual report for 2008-09. Many of the points that I wanted to cover from this very challenging report have, ostensibly, been touched on, but I wish to make a couple of points.

David Lloyd: Mae'n braf cael cyfrannu at y ddadl hon ar adroddiad blynnyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2008-09. Cyfeiriwyd eisoes, i bob golwg, at lawer o'r pwyntiau yr oeddwn yn dymuno'u trafod yn sgil yr adroddiad hynod heriol hwn, ond dymunaf wneud ambell bwynt.

4.50 p.m.

In addition to what was said in the previous debate on the proposed Measure relating to carers, I want to expand a little on the philosophy of care as a concept. I think that we have lost it a bit as regards care and the value that we place on people who care for others. In many respects, the concept has been debased and devalued, and I think that we need to revisit how we look at caring as a concept. There are some examples in this report of excellent standards of care; however, in certain care homes, the standards fall well below what we would expect. My overwhelming concern is that, as a society 50 years ago, we used to care for one another better: in a warmer, more empathetic way than is the case nowadays. It was a natural human pursuit. Medical technology has improved, but I do not think that our standards of care have improved. That

Yn ogystal â'r hyn a ddywedwyd yn y ddadl flaenorol ar y Mesur arfaethedig ynghylch gofalwyr, hoffwn ymhelaethu rhywfaint ar athroniaeth gofal fel cysyniad. Credaf ein bod wedi colli'r ffordd, braidd, o ran gofal a'r gwerth a roddwn ar bobl sy'n gofalu am bobl eraill. Mewn sawl ffordd, mae'r cysyniad wedi'i danseilio a'i ddibrisio, a chredaf fod angen inni edrych eto ar sut y gwelwn ofal fel cysyniad. Ceir engrifftiau yn yr adroddiad hwn o safonau gofal ardderchog. Fodd bynnag, mewn rhai cartrefi gofal, mae'r safonau'n is o lawer na'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld. Fy mhryder pennaf o ddigon yw ein bod, fel cymdeithas 50 mlynedd yn ôl, yn arfer gofalu am ein gilydd yn well: gyda mwy o empatheg a chydymdeimlad nag a wnaeon heddiw. Yr oedd hynny'n naturiol inni fel pobl. Mae technoleg feddygol wedi gwella, ond ni chredaf fod ein safonau gofal

challenge remains and is mentioned throughout the report.

We need more integration, as the report mentions in chapter 5. That means more working together and more integration between the health service, social services departments and the voluntary sector. As has been said, the voluntary sector delivers an awful lot of the care provided and deserves to be seen as an equal partner, delivering care along with the health service and social services—all working together, all sharing information. There is much expertise in the voluntary sector and that is, by and large, ignored by the statutory sector.

I may as well mention in passing my involvement with the Alzheimer's Society in Swansea and Crossroads Care Swansea Neath Port Talbot. They provide an awful lot of care based on service level agreements to both the local authorities in my region of South Wales West. That is the voluntary sector providing care to a statutory specification. All that work is already going on and yet the voluntary sector does not get much credit for all the caring that it undertakes, both formally and informally. Part of that is down to how we regard care as a concept in society today.

Joyce Watson: You made a statement that we cared more 50 years ago, but I am not sure that I entirely agree with you. Do you agree with me that, 50 years ago, we did not recognise that child abuse existed? That is why we have had to move forward with introducing the legislation that we now have in place. Do you also agree that, 50 years ago, we locked people up instead of helping them in the community?

David Lloyd: My general point was on how we empathise with one another as adult human beings and how we care for one another in society. Obviously, we have marched on and, as I said, medical technology has marched on, but I think that the value that we place on care as a concept has been devalued and debased. That is why I

wedi gwella. Mae'r her honno'n parhau a chyfeirir ati drwy gydol yr adroddiad.

Mae angen mwy o integreiddio, fel y dywed yr adroddiad ym mhennod 5. Mae hynny'n golygu mwy o gydweithio a mwy o integreiddio rhwng y gwasanaeth iechyd, adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Fel y dywedwyd eisoes, mae'r sector gwirfoddol yn darparu llawer iawn o ofal ac mae'n haeddu cael ei weld yn bartner cyfartal sy'n darparu gofal law yn llaw â'r gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol—gyda phob un yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth. Mae gan y sector gwirfoddol lawer o arbenigedd sydd, i raddau helaeth, yn cael ei anwybyddu gan y sector statudol.

Cystal imi gyfeirio wrth basio at y ffaith fy mod yn ymwneud â chymdeithas Alzheimer yn Abertawe a Crossroads Care Abertawe Castell-nedd Port Talbot. Maent yn darparu llawer iawn o ofal sy'n seiliedig ar gytundebau lefel gwasanaeth i'r ddau awdurdod lleol yn fy rhanbarth, sef Gorllewin De Cymru. Dyna enghraift o'r sector gwirfoddol yn darparu gofal yn ôl safon statudol. Mae'r holl waith hwnnw eisoes yn cael ei wneud, ond nid yw'r sector gwirfoddol yn cael llawer o glod am yr holl ofal y mae'n ei ddarparu, yn ffurfiol ac yn anffurfiol fel ei gilydd. Un rheswm dros hynny yw'r cysyniad sydd gennym o ofal yn ein cymdeithas heddiw.

Joyce Watson: Dywedasoch fod ein gofal yn fwy 50 mlynedd yn ôl, ond nid wyf yn sicr a wyf yn cytuno'n gyfan gwbl â chi. A gytunwch â mi nad oeddem, 50 mlynedd yn ôl, yn cydnabod bod cam-drin plant yn bodoli? Dyna pam yr ydym wedi gorfol bwrw ati i gyflwyno'r ddeddfwriaeth sydd gennym bellach. A gytunwch hefyd ein bod, 50 mlynedd yn ôl, yn rhoi pobl dan glo yn hytrach na'u cynorthwyo yn y gymuned?

David Lloyd: Yr oedd fy mhwynt cyffredinol yn ymwneud â sut yr ydym yn cydymdeimlo â'n gilydd fel oedolion a sut yr ydym yn gofalu am ein gilydd mewn cymdeithas. Yn amlwg, yr ydym wedi brasgamu yn ei blaenau ac, fel y dywedais, mae technoleg feddygol wedi brasgamu yn ei blaen, ond credaf fod y gwerth a roddwn ar

firmlly believe that health and social services should be placed together.

Therefore, I would put social services in with the health service. You need only look at the esteem in which various professions and organisations are held to understand why. When I speak as a doctor, I have a public approval rating of about 94 per cent, as I may have mentioned previously in passing. When I speak as a politician, I have a public approval rating of 17 per cent. Nurses have a public approval rating of between 88 and 91 per cent, but social workers have an approval rating of just 25 per cent. If we are to attract social workers to the profession, retain them and improve the esteem in which the service is held, I think that social workers need to be regarded as health service workers. Bringing social services into the health service would make a valuable contribution to that. We have seen that in operation in places like Northern Ireland. Andrew brought up the issue of delayed transfers of care, and I note that when the health service and social services are together, there are no delayed transfers of care. In Wales, we have to put up with around 400 examples of delayed transfers of care every year. This is a challenging report and there are challenges for us all in this, not just challenges of process, but of the philosophy behind the care.

The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas): I will have to be selective in my response. I wish to start with Jonathan Morgan's contribution and the serious issues that he raised.

Jonathan, you referred to the BBC, and I assume that you are referring to the *Week In Week Out* programme. I wish to place on record that I think that serious journalism has an important part to play, and I defend the right of the press and the media to report responsibly, to investigate responsibly, and to expose their findings responsibly. I had some

ofal fel cysyniad wedi'i ddibrisio a'i danseilio. Dyna pam y credaf yn gryf y dylai iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fynd law yn llaw.

Felly, byddwn yn rhoi gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd gyda'i gilydd. I ddeall pam, y cyfan y mae'n rhaid ichi ei wneud yw edrych ar y parch sydd at wahanol broffesiynau a sefydliadau. Pan fyddaf yn siarad fel meddyg, mae gennyl fesur cymeradwyaeth gyhoeddus o ryw 94 y cant, ac efallai fy mod wedi crybwyllynny o'r blaen wrth basio. Pan fyddaf yn siarad fel gwleidydd, mae gennyl fesur cymeradwyaeth gyhoeddus o 17 y cant. Mae gan nyrsys fesur cymeradwyaeth gyhoeddus o rhwng 88 a 91 y cant, ond dim ond 25 y cant yw mesur cymeradwyaeth gweithwyr cymdeithasol. Er mwyn denu gweithwyr cymdeithasol i'r proffesiwn, eu cadw a chynyddu'r parch at y gwasanaeth, credaf fod angen i weithwyr cymdeithasol gael eu gweld fel gweithwyr y gwasanaeth iechyd. Byddai gwneud y gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd yn cyfrannu llawer at hynny. Yr ydym wedi gweld hynny ar waith mewn lleoedd fel Gogledd Iwerddon. Cyfeiriodd Andrew at oedi wrth drosglwyddo gofal, a phan fydd y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi'u huno, sylwaf nad oes dim oedi wrth drosglwyddo gofal. Yng Nghymru, rhaid inni oddef rhyw 400 engraifft o oedi wrth drosglwyddo gofal bob blwyddyn. Mae hwn yn adroddiad heriol ac mae'n ein herio ni oll. Nid heriau'n ymwneud â'r broses yn unig yw'r rheini, ond heriau'n ymwneud â'r athroniaeth sydd wrth wraidd y gofal.

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Bydd yn rhaid imi ddewis a dethol wrth ymateb. Hoffwn ddechrau drwy gyfeirio at gyfraniad Jonathan Morgan a'r materion difrifol a godwyd ganddo.

Jonathan, cyfeiriasoch at y BBC, a chymeraf eich bod yn cyfeirio at y rhaglen *Week In Week Out*. Hoffwn gofnodi fy mod yn credu bod gan newyddiaduraeth go iawn gyfraniad pwysig i'w wneud, ac yr wyf yn amddiffyn hawl y wasg a'r cyfryngau i adrodd yn gyfrifol, i ymchwilio'n gyfrifol, ac i ddatgelu eu canfyddiadau'n gyfrifol. Yr oedd rhai

concerns about that programme, as I was not informed immediately of the concerns that arose in the home that it talked about. The care and protection of adults has to be paramount and the development of a television programme has to be secondary to that. If my understanding is correct, weeks had elapsed before I was made aware of the issues raised. Therefore, I take your points very seriously, and I wish to respond to them.

CSSIW works within the legal framework for registering, inspecting and regulating services under the Care Standards Act 2000. It has a range of powers and tools available to ensure that services comply with the law. CSSIW was created in 2007 through the amalgamation of the Care Standards Inspectorate Wales and the Social Services Inspectorate Wales. Since that time, the management board and all the staff have been working hard to create a new, modern, citizen-focused inspectorate. That has entailed delivering a major change programme while continuing to fulfil its responsibilities. The first two major stages of the change programme have been implemented successfully, and the next stage, an end-to-end review of the registration, regulation, and inspection processes under the Care Standards Act 2000, is just beginning.

The regulatory framework for social care was created some time ago. While that framework and the work of the inspectorate have played an important part in raising standards, I concluded in the summer that the changing nature and context of social care mean that we need to consider how we ensure that the future needs and expectation of service users are met, and require that we look at how regulation can support the next stage in the evolution of services.

Jonathan Morgan: We know that it is the intention of the new chief inspector to undertake an internal review of the regulatory functions of CSSIW. I have a letter from the Wales Audit Office telling me that. My concern is that we ought to take a wider look

pethau ynglŷn â'r rhaglen honno'n fy mhoeni, gan na roddwyd gwybod imi ar unwaith am y pryderon ynglŷn â'r cartref yr oedd yn sôn amdano. Gofalu am oedolion a'u amddiffyn yw'r peth pwysicaf un a rhaid i ddatblygu rhaglen deledu ddod yn ail i hynny. Os deallaf yn iawn, yr oedd wythnosau wedi mynd heibio cyn rhoi gwybod imi am y materion a godwyd. Felly, mae eich sylwadau'n rhai i'w hystyried o ddifrif, a hoffwn ymateb iddynt.

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cofrestru, arolygu a rheoleiddio gwasanaethau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae ganddi amrywiaeth o bwerau a dulliau y gall eu defnyddio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â'r gyfraith. Cafodd yr arolygiaeth ei chreu yn 2007 drwy uno Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ers hynny, mae'r bwrdd rheoli a'r holl staff wedi bod yn gweithio'n galed i greu arolygiaeth newydd a modern, sy'n canolbwytio ar y dinesydd. Mae hynny wedi golygu bod yr arolygiaeth wedi gorfod rhoi rhaglen newid sylweddol ar waith gan barhau i gyflawni ei chyfrifoldebau. Mae dau gam cyntaf y rhaglen newid wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus, ac mae'r cam nesaf, sef adolygiad cyflawn o'r broses gofrestru, rheoleiddio ac arolygu o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, newydd ddechrau.

Cafodd y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gofal cymdeithasol ei greu gryn amser yn ôl. Er bod y fframwaith hwnnw a gwaith yr arolygiaeth wedi cyfrannu llawer at godi safonau, deuthum i'r casgliad yn yr haf fod y newid o ran natur a chyd-destun gofal cymdeithasol yn golygu bod angen inni edrych ar sut i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau yn y dyfodol, ac edrych hefyd ar sut y gall rheoleiddio fod yn rhan o'r cam nesaf wrth i wasanaethau ddatblygu.

Jonathan Morgan: Gwyddom mai bwriad y prif arolygydd newydd yw cynnal adolygiad mewnol o swyddogaethau rheoleiddio'r arolygiaeth. Mae gennyl lythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru sy'n dweud hynny wrthyf. Fy mhryder yw y dylem fod yn edrych yn

at the organisation itself. It is not good enough just to allow CSSIW to undertake some sort of internal review; we need an external audit of the organisation's ability to do its job properly.

Gwenda Thomas: Thank you for that point, Jonathan, but I will continue with the points that I want to make.

This is why I announced a strategic review of regulation in Wales at the social services conference in June. That will consider the future role of regulation and the legal framework for regulating social care services to ensure that they meet the needs of our citizens in the future. I have asked the new chief inspector of social services to make this a key priority. CSSIW is reviewing all its care homes to ensure that all outstanding regulatory requirements are managed appropriately.

Andrew, you raised points about the possible need for further legislation. I will await the reports before I give that matter further consideration. You talked about collaborative working and the private fostering of children. I share your concerns in that regard, and we should consider whether to regulate private fostering. Work is under way between the UK Borders Agency under the UK code of practice. That strengthens the link between the agency and Welsh local authorities, and aims to ensure that children are not open to exploitation. I also agree with your important point that there needs to be better information sharing in the foster care service.

5.00 p.m.

Joyce, I am happy to congratulate Carmarthenshire County Council and other local authorities that have good examples to show us. I share your point about the stable workforce. I have set up a workforce task group, chaired by the director of social services. I also accept your point about moving the successful pilot schemes into the mainstream.

ehangach ar y sefydliad ei hun. Nid yw gadael i'r arolygiaeth gynnal adolygiad mewnol yn ddigon da; mae angen archwiliad allanol o allu'r sefydliad i wneud ei waith yn iawn.

Gwenda Thomas: Diolch ichi am wneud y pwynt hwnnw, Jonathan, ond byddaf yn parhau â'r pwyntiau yr hoffwn eu gwneud.

Dyma pam y cyhoeddais yn y gynhadledd gwasanaethau cymdeithasol ym mis Mehefin y byddai adolygiad strategol yn cael ei gynnal o reoleiddio yng Nghymru. Bydd yr adolygiad hwnnw'n ystyried cyfraniad rheoleiddio yn y dyfodol a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ein dinasyddion yn y dyfodol. Yr wyf wedi gofyn i brif arolygydd newydd y gwasanaethau cymdeithasol wneud hyn yn flaenoriaeth bwysig. Mae'r arolygiaeth yn adolygu ei holl gartrefi gofal er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion rheoleiddio nad ydynt wedi'u rhoi ar waith yn cael eu rheoli'n briodol.

Andrew, dywedasoch y gallai fod angen rhagor o ddeddfwriaeth. Yr wyf am aros am yr adroddiadau cyn ystyried hynny ymhellach. Soniasoch am gydweithio ac am faethu plant yn breifat. Yr wyf finnau hefyd yn poeni am hynny, a dylem ystyried a ddylid rheoleiddio maethu preifat ai peidio. Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig o dan god ymarfer y Deyrnas Unedig. Mae hynny'n cryfhau'r cysylltiad rhwng yr asiantaeth ac awdurdodau lleol Cymru, ac yn ceisio sicrhau nad yw pobl yn gallu camfanteisio ar blant. Cytunaf hefyd â'ch pwynt pwysig bod angen rhannu gwybodaeth yn well yn y gwasanaeth gofal maeth.

Joyce, yr wyf yn barod i longyfarch Cyngor Sir Caerfyrddin ac awdurdodau lleol eraill sy'n cynnig enghreifftiau da inni. Cytunaf â'r hyn a ddywedwch am y gweithlu sefydlog. Yr wyf wedi sefydlu gweithgor ar gyfer y gweithlu, o dan gadeiryddiaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Yr wyf hefyd yn derbyn eich pwynt am brif ffrydio'r cynlluniau pilot llwyddiannus.

You talked about dignity in care, as did others. Helen Mary mentioned staff who work so hard. I endorse that—there is dedication and commitment to excellence. Working together still needs improvement, but we must not assume that there is no improvement. Working together, as we saw in the last debate and in this debate, is exceedingly important.

On workload, you mentioned the role of the national independent commission. I assume that that will be one of the issues that the commission will consider. It has started its work and I look forward to its report in the autumn; hopefully, it will point to a sustainable way forward.

Peter Black mentioned children's services and the variable contribution of police and health services. I endorse that point. That is why I have set up the national safeguarding board, chaired by the director of social services, which will include the police, the NHS, the children's commissioner and others. The board has started its work and has already met, so we will look forward to its work becoming apparent. You know that I share your concerns about inconsistencies in the work of LSCBs—further work is going on, which I made clear in my statement earlier in the year.

Dai Lloyd mentioned the value and concept of care; that is important. His point is well made, but there are examples of excellent carers in the system and we should recognise that. I do not know if I have missed anyone out, but if I have, I will seek to catch up with any questions asked.

I also put on record my recognition of the dedication and hard work of all of the staff in CSSIW, who work tirelessly to protect vulnerable adults and children and to promote their welfare.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any

Soniasoch am urddas mewn gofal, fel y gwnaeth Aelodau eraill. Cyfeiriodd Helen Mary at y staff sy'n gweithio mor galed. Ategaf hynny—ceir ymraddiad ac ymrwymiad i ragoriaeth. Mae angen gwella'r cydweithio o hyd, ond rhaid inni beidio â thybio nad oes gwelliant wedi bod. Mae cydweithio, fel y gwelsom yn y ddadl ddiwethaf ac yn y ddadl hon, yn hynod bwysig.

O ran y llwyth gwaith, cyfeiriasoch at rôl y comisiwn annibynnol cenedlaethol. Yr wyf yn cymryd y bydd hynny'n un o'r materion y bydd y comisiwn yn ei ystyried. Mae wedi dechrau ar ei waith ac edrychaf ymlaen at weld ei adroddiad yn yr hydref; gobeithio y bydd yn dangos ffordd gynaliadwy ymlaen inni.

Cyfeiriodd Peter Black at wasanaethau plant ac at sut y mae cyfraniad yr heddlu a gwasanaethau iechyd yn amrywio. Ategaf hynny. Dyna pam yr wyf wedi sefydlu'r bwrdd diogelu cenedlaethol, o dan gadeiryddiaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn cynnwys yr heddlu, y GIG, y comisiynydd plant ac eraill. Mae'r bwrdd wedi dechrau ar ei waith ac eisoes wedi cyfarfod, felly edrychwn ymlaen at weld ffrwyth ei waith. Gwyddoch fy mod innau'n pryderu fel chi am anghysondebau yng ngwaith y byrddau lleol diogelu plant—mae rhagor o waith yn mynd rhagddo, fel yr eglurais yn fy natganiad yn gynharach yn y flwyddyn.

Cyfeiriodd Dai Lloyd at werth gofal a'r cysyniad ohono; mae hynny'n bwysig. Gwnaeth bwynt teg, ond ceir engrheifftiau o ofalwyr ardderchog yn y system a dylem gydnabod hynny. Ni wn a wyf wedi hepgor rhywun, ond os ydwyf, ceisiaf ymateb i unrhyw gwestiynau a ofynnwyd maes o law.

Cofnodaf hefyd fy mod yn cydnabod ymraddiad a gwaith caled yr holl staff yn Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sy'n gweithio'n ddiflino i amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed ac i hyrwyddo'u lles.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw

Member object? I see that there are objections. I will therefore defer all voting on this item to voting time. It was agreed that voting time would be at 5 p.m., and as it is now past 5 p.m., we will move straight to the votes. Does anyone want the bell to be rung? I see that no-one does.

Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Cytunwyd mai am 5 p.m. y byddai'r cyfnod pleidleisio, a chan ei bod ar ôl 5 p.m., awn yn syth i bleidleisio. A oes unrhyw un am imi ganu'r gloch? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4382: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 34.
Amendment 1 to NDM4382: For 19, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

- Asghar, Mohammad
- Bates, Mick
- Black, Peter
- Bourne, Nick
- Burnham, Eleanor
- Burns, Angela
- Cairns, Alun
- Davies, Andrew R.T.
- Davies, Paul
- German, Michael
- Graham, William
- Isherwood, Mark
- Melding, David
- Millar, Darren
- Morgan, Jonathan
- Ramsay, Nick
- Randerson, Jenny
- Williams, Brynle
- Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

- Andrews, Leighton
- Barrett, Lorraine
- Chapman, Christine
- Cuthbert, Jeff
- Davidson, Jane
- Davies, Alun
- Davies, Andrew
- Davies, Jocelyn
- Evans, Nerys
- Franks, Chris
- Gibbons, Brian
- Gregory, Janice
- Griffiths, John
- Griffiths, Lesley
- Hart, Edwina
- Hutt, Jane
- Jenkins, Bethan
- Jones, Ann
- Jones, Carwyn
- Jones, Elin
- Jones, Gareth
- Jones, Helen Mary
- Jones, Ieuan Wyn
- Law, Trish
- Lewis, Huw
- Lloyd, David
- Lloyd, Val
- Mewies, Sandy
- Morgan, Rhodri
- Ryder, Janet
- Sargeant, Carl
- Thomas, Gwenda
- Thomas, Rhodri Glyn
- Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4382: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion NDM4382: For 52, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burns, Angela
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Evans, Nerys
Franks, Chris
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close.

Y Dirprwy Lywydd: Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.03 p.m.
The meeting ended at 5.03 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)